Rhagfyr 15fed, 1891.

Cyf. I. Rhif. 5.

"I godi'r hen wlad yn ei hol."

# CYMRU






Cylchgrawn Misol

i ymdrin a

HANES,
LLENYDDIAETH,
CAN,
CELF, AC ADDYSG
CYMRU

Dan Olygiaeth
OWEN M. EDWARDS, M.A.,
Rhydychen

## Cynhwysiad.

Hanes Cymru. III. Y Saeson.
Cymru a Garaf. Gan Barlwydon, Blaenau Ffestiniog.
Carol Nadolig. Gan Rowland Hugh.
Hiraeth. Gan R. Bryan, Aberystwyth.
Llanidloes.
Glan Llyfnwy. Gan Alafon.
Os Wyt Brudd. Gan R. J. Davies, Casnewydd.
Marwnadau. II. Marwnadau'r Bobl.
Mynyddoedd Llanberis. Gan Tecwyn, Llanberis.
Ail Sypyn o Hen Lythyrau. Howel Harris, Robert Griffith, Ann Griffiths, Ioan Tegid.
Emyn Nadolig. Gan H. Brython Hughes, Walsall.
Gofyn ac Ateb.
Llyfrau Newyddion.
Tudalennau'r Plant.
Cathlau Heine. Gan J. Morris Jones, Coleg y Gogledd.
Llythyr at y Golygydd.
At Ohebwyr.
Y Fun o Eithinfynydd. III. Y Cyff Clêr. Gan Mrs Oliver Jones, Birkenhead.
Cynllun Cyfrol I. Mynegai, &c.

**Darluniau.- Llanidloes, Bwlch Llanberis, Y Wyddfa o Lanberis. Gan S Maurice Jones, &c.**




Caernarfon. Argreffir a Chyhoeddir, dros y Golygydd, gan D. W. Davies a'i Gwmni.

PRIS CHWE'CHEINIOG.

GWOBRWYON DIWEDDARAF:—Y Brif Wobr yn Paris, Melbourne, a Barcelona, Bathodau Aur, a Thystysgrifau yn mhob lle yr arddangoswyd e'.

# Needham's Polishing Paste

DISGLAER FEL DRYCH

[illegible] PRES, COPR, TIN, BRITANNIA METAL, PLATINOID, &c. [illegible] Fflychau [illegible]

DYFEISWYR A GWNEUTHURWYR,

JOSEPH PICKERING AND SONS, SHEFFIELD.

---

"NID OES GWELL BWYD YN BOD." *London Medical Record.*

Wedi ei Goginio yn barod [illegible] nid oes eisieu ei ferwi na'i ystraenio. [illegible] wneyd mewn mynyd.

# Allen & Hanburys' Infants' Food

[illegible]

---

# BIRD'S CUSTARD POWDER

HEB WYAU!

Cyflenwa foethusfwyd dyddiol — Blasusfwyd mewn amrywiaeth diderfyn — Y dysgleidiau goreu o'r Custard goreu heb Wyau.

# CYMRU.

CYF. I. RHAGFYR 15FED, 1891. RHIF. 5.

## HANES CYMRU.

### III. Y SAESON.

"Wele bobl yn dyfod o dir y gogledd, a chenedl fawr a gyfyd o ystlysau y ddaear. Yn y bwa a'r waewffon yr ymaflant, creulawn ydynt, ac ni chymerant drugaredd; eu llais a rua megis y môr, ac ar feirch y marchogant yn daclus, megis gwŷr i ryfel yn dy erbyn di, merch Seion."

TRA'R oedd Rhufen yn llywodraethu ac yn trethu y cenhedloedd orchfygasai, a thra'r oedd pob cenedl o fewn terfynau'r ymherodraeth yn ymroddi i amaethu'r ddaear ac adeiladu trefi a masnachu ac ymgyfoethogi mewn heddwch, yr oedd cenhedloedd y gogledd yn ymwthio drwy'r fforestydd tywyllion a'r corsdiroedd oedd y tu hwnt i ragfuriau eithaf y llengoedd, ac yn edrych gyda llygaid hiraethlawn ar feusydd henlog enydiog yr ymherodraeth fawr. O flaen y barbariaid crwydrol aneirif hyn, gorfod i'r llengoedd Rhufeinig gilio'n ol yn raddol; gan adael y taleithiau cyfoethog i'r anwariad a dinistr. Hanner can mlynedd wedi i'r llengoedd adael Pryden i ymdaro gore gallai yn erbyn y gelyn a'i anrhaith, y mae mynach Prydeinig yn cwyno yng nghanol difrod dinasoedd a themlau fel hyn,—

"Oni chyflawnwyd ynnom ni air y proffwyd,—'Y cenhedloedd, O Dduw, a ddaethant i'th etifeddiaeth, halogasant dy deml sanctaidd.' Onid oedd dros yr holl wlad gelain y trigolion gyda'r eglwyswyr, yn ddarnau hyd yr heolydd, ie yn dyrrau cymysgedig, megis mewn gwryf mawr y gwesgir afalau ynddo, heb fedd iddynt? Diangodd y gweddillion i'r mor a'r mynyddoedd gan oernadu, 'Rhoddaist ni fel defaid i'w bwyta, gwasgeraist ni ym mysg y cenhedloedd.'"

Ni ddaeth diwedd ymherodraeth Rhufen yn ddi-rybudd. Ers canrifoedd yr oedd wedi bod yn cadarnhau y caerau a'r muriau oedd yn amddiffyn ei therfynau gogleddol. Bygythid ynys Pryden o ddau gyfeiriad. Ymosodid arni ar du'r gorllewin a'r gogledd gan y Pictiaid. Ac ar draeth y dwyrain ceisiai llwythau Teutonaidd, Eingl a Saeson, lanio o hyd. Yr oedd y Rhufeiniaid wedi trefnu'r ynys yn y ffordd oreu i wrthsefyll y ddau elyn hyn. Yr oeddynt wedi ei rhannu'n ddwy dalaeth filwrol,—y dalaeth agored i ymosodiadau'r Pictiaid, a'r dalaeth agored i ymosodiadau'r Saeson. Talaeth y gorllewin oedd y naill, a thalaeth y dwyrain oedd y llall. Ymestynnai talaeth y gorllewin o enau'r Hafren hyd yr hen amddiffynfa wgus sydd eto'n edrych oddiar graig Dumbarton ar ddyffryn y Clyde. Cynhwysai, felly, y rhau fynyddig o Bryden y Rhufeiniaid,—yr ardaloedd elwid wedi hynny'n Gymru, Teyrnllwg, Ystrad Clwyd, Deifyr, a Bryneich. Wrth edrych ar fap, gwelir fod y dalaeth hon yn hir ac yn gul,—yn agored i ymosodiadau ac yn hawdd ei thorri'n rhannau. Ar hyd ei thraethell orllewinol yr oedd yn agored i'r Scotiaid oedd yn ymosod arni o'r Iwerddon. Ar ei therfyn gogleddol nid oedd y mur Rhufeinig mor gadarn nas gallasai'r Pictiaid dorri drwyddo. Ac yr oedd Deifyr a Bryneich, — y rhan o'r dalaeth oedd ar lan Môr yr Almaen,—i weled llongau'r Eingl yn hwylio tuag atynt o lannau'r Almaen draw dros y môr. Cyn i'r Rhufeiniaid ymadael, ar y dalaeth hon yr oedd y curo mwyaf. Llywodraethid hi gan y *Dux Britanniarum*, yr hwn a arolygai symudiadau ei llengoedd hyd y ffyrdd arweiniai o Gaer Lleon ar Wysg yn y de i'r gwahanol orsafoedd ar fur y gogledd. Trwy ymladd caled yn unig y medrid rhwystro'r barbariaid Pictaidd rhag torri'r mur a dylifo i'r dalaeth. Wedi i'r Rhufeiniaid ymadael, cymerwyd gwaith a theitl y *Dux* Rhufeinig gan y Gwledig Cymreig. Unwyd trigolion y dalaeth gan eu perygl, galwasant eu hunain yn GYMRY, "trigolion yr un fro,"—a'u gwlad yn GYMRU. Er i'r wlad hon gael ei thorri'n ddwy wedyn, ac er Seisnigo y rhan ogleddol o honi,—y mae darn o'r rhan honno, Cumberland, eto'n cadw'r hen enw,—ymladdodd am flynyddoedd i gadw ei hundeb ac i rwystro'r Saeson rhag

dod i mewn iddi. Ond nid y Pictiaid, wedi'r cwbl, ddinistriodd Gaer Lleon, gan rannu yr hen Gymru'n ddwy.

Yr oedd y cenhedloedd Teutonaidd yn ymosod ar draethell ddwyreiniol Pryden er ys canrifoedd, a phrif waith llywydd y dalaeth ddwyreiniol oedd gwrthsefyll eu hymosodiadau. Rhan wastad yr ynys oedd y dalaeth ddwyreiniol, o Gaer Efrog yn y gogledd i draethell y de. Llywydd y dalaeth hon oedd y *Comes Litoris Saxonici*,—iarll traeth y Saeson. Ar hyd "traeth y Saeson,"—o enau'r Ouse hyd Ynys Wyth,—yr oedd rhes o gestyll Rhufeinig. Y mae map Rhufeinig o'r traeth hwn ar gael a chadw. Y map olaf mewn llyfr o fapiau Rhufeinig ydyw, ac nid oes ond rhan o hono'n ddigon eglur i'w ddarllen,—rhan yn dangos cestyll y traeth a'r ffyrdd a'u cysylltai. Pan ymadawodd y Rhufeiniaid, ymosododd y Saeson ar yr holl gestyll, gan dorri drwyddynt i'r dalaeth ddwyreiniol, ac y mae llawer traddodiad ynglyn a rhuthr y barbariaid i'r trefydd caerog.

Pwy oedd y Saeson hyn? Rhai o'r tylwythau Teutonaidd, grwydrent tua'r gorllewin trwy fforestydd a chorsydd gogledd yr Almaen, oeddynt. Yr oeddynt y tu allan i derfynau gogleddol yr Ymherodraeth, ac felly heb golli eu hanibyniaeth na'u barbariaeth. Fel y Scotiaid a'r Pictiaid, yr oeddynt yn fwy rhyfelgar na'r llwythau oedd wedi ymheddychu dan lywodraeth Rhufen ac efengyl tangnefedd; a phan gollodd Rhufen ei gallu i amddiffyn, ymosodasant ar y llwythau Rhufeinig fel adar rhaib ar adar dof.

Rhydd Tacitus ddarluniad o honynt yn eu cartref, pan drigent ar y tir isel rhwng genau'r Rhein a'r Oder. Yr oedd eu llygaid yn leision a chreulawn, eu gwallt yn goch, a'u cyrff yn enfawr. Diadelloedd defaid a gyrroedd o wartheg oedd eu prif olud; nid oeddynt yn malio mwy mewn aur ac arian nag mewn clai. Nid oeddynt yn byw mewn dinasoedd, codai pawb ei fwthyn lle y mynnai, wrth ffynnon neu goedwig neu weirglodd. Aberthent i dduwiau,—aberthau dynol weithiau; ond ni chyffelybent wynebau eu duwiau i unrhyw wyneb dynol, ac nid oedd ganddynt demlau ond y goedwig. Chwilient allan farn eu duwiau oddiwrth ehediad adar, ond yn bennaf oddiwrth ymddygiad ceffylau gwynion sanctaidd y llwyth. Pobl ddiog oeddynt; ond hoff o ryfel a gloddest. Barbaraidd oedd eu gwisg,—croen wedi ei sicrhau a phigau drain. Ymhyfryda Tacitus wrth gydmaru eu bywyd iach barbaraidd â bywyd masweddol llygr Rhufen. Ni wyddent beth oedd anniweirdeb, ac yr oedd eu harferion yn well na bywyd cenhedloedd wareiddiedig gan gyfraith. Crogent ddrwg-weithredwyr ac am yr hwn a gyflawnai bechodau gwarthus, claddid ef yn fyw mewn cors, a llidiard ar ei gefn.

Yr oedd y tir yn perthyn i'r llwyth yn gyffredin, gellid gweled aradrau'r holl lwyth yn dilyn eu gilydd yn y gwanwyn yn yr un cae. Yna rhennid y tir tro rhwng teuluoedd y llwyth, yn ol y nifer o ychain anfonasant i aredig.

Pan oedd Tacitus yn ysgrifennu yr oedd bywyd cenhedlaethol y tylwythau Almaenaidd yn dechreu newid. Llwythau o bobl ryddion oeddynt i ddechreu; heb frenin, na chyfraith, na threth. Ond, yn narlun Tacitus, gwelwn y brenin yn codi'n raddol i fri ac awdurdod. Un math o frenin oedd yr arweinydd milwrol. Byddai'r arweinydd hwn yn dewis bechgyn ieuainc mwyaf rhyfelgar y llwyth, yn rhoddi march a tharian a phicell iddynt, ac yn eu harwain i ryfel, er mwyn dod ag ysglyfaeth yn ol. Fel yr oedd Rhufen yn gwanhau, cai'r arweinydd milwrol fwy o gyfle, ac arweiniai filwyr i diroedd cyfoethocach a mwy heulog, gan ymsefydlu yno. Arweiniai rhai o'r brenhinoedd hynny fyddin i'r môr, gan ymosod ar ynys Pryden, a chludo ei hysbail yn ol. Nid oedd y rhai hyn ond rhyw ddafnau o flaen y gawod. Tua chanol y bumed ganrif yr oedd llwythau cyfain yr Eingl a'r Saeson yn gadael eu tiroedd tlawd gwlyb, ac yn cyfeirio eu llongau tua thraethell ddwyreiniol Pryden, traeth a chaerau ar ei hyd, ond traeth a gwlad gyfoethog amaethedig y tu hwnt iddo.

Nid oes wybodaeth sier am yr ymladd fu rhwng y Saeson a'r Prydeiniaid yng nghaerau Rhufeinig traeth y dwyrain. Ymhell wedi hynny yr ysgrifennodd mynachod Seisnig hanes dyfodiad eu tadau barbaraidd. Dywedai traddodiadau'r Saeson mai yng Nghaint y glaniasant gyntaf. Dyma damaid o'u cronielau.

> 448 Yn y flwyddyn hon dadguddiodd Ioan Fedyddiwr ei ben i ddau fynach ddaethai o'r dwyrain i Gaersalem i weddio, ar y fan y safai ty Herod gynt.
>
> Ar y pryd hwnnw Martianus a Valentinianus oedd yn teyrnasu; ac ar y pryd hwnnw daeth pobl Seisnig i'r gwledydd hyn, ar wahoddiad Gwrtheyrn, i'w gynorthwyo ef, ac i orchfygu ei elynion. Daethant mewn tair llong hir, a'u harweinyddion rhyfel oedd Hengist a Horsa. Yn gyntaf, lladdasant holl elynion y brenin, a gyrasant hwy ymaith; ac yna troisant yn erbyn y brenin, ac yn erbyn y Prydeiniaid, a llwyddasant, drwy gymhorth tân a min y cleddyf."

Cyn 450, yr oedd y Saeson wedi gwneyd llawer ymosodiad penderfynol ar yr hanner cylch o gaerau amddiffynnai'r ynys, ac efallai mai trwy wahoddiad tywysog Prydeinig y cawsant eu dyfodfa gyntaf

D 30 MY 1958

drwy'r caerau hynny. Hyn sydd wir,—rhwng 450 a 516 yr oeddynt wedi gorchfygu'r holl wlad y tu deheu i'r Tafwys, o Gaint hyd derfyn gorllewinol gwastadedd Gwent. Ucheldir gwastad ydyw'r wlad hon rhwng dyffryn y Tafwys a'r môr; a chyrchodd tri llwyth o'r dyfodiaid rhyfelgar iddo. Caint ydyw ei gornel ddwyreiniol, ynddi hi ymsefydlodd y Jutiaid, wedi torri ei chestyll gwarcheidiol, a difrodi'r meusydd ffrwythlawn enillasai celfyddyd y Rhufeiniwr oddiar y môr.

Ar ol y Jutiaid, daeth un o dylwythau'r Saeson,—y South Saxons,—y creulonaf a'r mwyaf anwaraidd o'u hil. Hwyliasant heibio traethell Caint, ac ymsefydlasant ymhellach i'r gorllewin ar "draeth y Saeson." Cofiwyd yn hir am eu hymosodiad ar gaer Anderida,—"lladdasant bawb a drigai ynddi, ni adawyd un Prydeiniwr yn fyw."

Ar ol y South Saxons daeth y West Saxons, gan lanio ymhellach fyth i'r gorllewin. Cyrhaeddasant hwy ucheldir braf Gwent, lle'r oedd llawer bedd a theml a dinas ardderchog, daeth y wlad yn eiddo iddynt hyd ddyffryn y Tafwys, a gwelent ffordd Rufeinig yn eu gwahodd ymlaen i ddyffryn yr Hafren, at gyffiniau ail dalaeth Pryden, talaeth y *Dux Britanniarum*. A thra'r oeddynt hwy'n gorchfygu rhannau deheuol talaeth y dwyrain, yr oedd tylwythau o Eingl yn ymdywallt i'w rhannau gogleddol.

Ond onid oedd y dalaeth ddwyreiniol yn un,—dan un swyddog? Paham y gadewid iddi gael ei gorchfygu bob yn ddarn? Paham y gadewid i ddinas fel Anderida ymladd ei hun, heb gynhorthwy? Pa le'r oedd iarll traeth y Saeson yn amser caledi'r ddinas ffyddlon a dewr? Yr oedd amryw yn ymgeisio am fod yn olynydd i'r Comes Rhufeinig, gan ymladd yn erbyn eu gilydd yn lle amddiffyn eu gwlad. Pan ymchwalodd yr Ymherodraeth, yr oedd rhyw ymherawdr yn codi ym mhob congl iddi. A phan adawodd y Rhufeiniaid ein hynys ni, cododd rhyw Wledig ym mhob cornel o honi. Yr oedd Gwrtheyrn yng Nghaint, Emrys yng Ngwent, a rhywun arall yng Nghernyw,—pob un yn tybied ei hun yn wir olynydd i'r *Comes Litoris Saxonici*, a phob un yn edrych ar y llall fel gwrthryfelwr yn ei erbyn. Wedi gorchfygu Gwrtheyrn a meddiannu Caint, dechreuodd y Saeson ymwthio ymlaen i'r gorllewin, a gwelsant gaerau Caer Loyw a thyrau Caer Lleon ar Wysg. Ond yr oedd llwyddiant y barbariaid wedi uno'r Prydeinwyr, a chyn i'r West Saxons gyrraedd ffin talaeth y gorllewin, arweiniodd Emrys fyddin fawr yn eu herbyn. Yn rhywle ar derfyn y ddwy dalaeth ymladdwyd brwydr Mynydd Baddon, tua'r flwyddyn 516.

Yr oedd hon yn un o frwydrau pwysicaf y rhyfel. Tyfodd yr hanes am dani yn nychymyg yr oesoedd ar ei hol, a thybid mai Arthur Fawr oedd yn arwain lluoedd y Prydeiniaid ynddi. Ond prin y medrai dychymyg Cymru ei gwneyd yn fwy pwysig nag ydoedd. Rhoddodd atalfa ar y llanw Seisnig am hanner can mlynedd; gwnaeth i'r ymosodwyr chwilio am fannau gwannach yn uwch i'r gogledd; a rhoddodd ysbryd newydd yn y Prydeiniaid.

Ym mlwyddyn y frwydr, yn rhywle ar gyffiniau'r ddwy dalaeth, ganwyd Gildas,* ebai ef ei hun. Gwelodd olion y rhyfel, gwelodd yr anfoesoldeb a'r annuwioldeb oedd wedi ei dilyn, gwelodd y tywysogion Cymreig yn ymladd, fel cynt, am unbennaeth eu talaeth. Efe yw hanesydd cyntaf ei bobl, a Jeremeia eu llenyddiaeth. Taniwyd ei ddychymyg wrth ddarllen proffwydi'r Hebreaid, chwerw ydyw ei gwynfan am bechodau ei bobl. Darlunia egni'r Prydeinwyr yn adeg y frwydr, a'u difrawder yn union wedyn.

"Nid aeth destrywedigaeth yr ynys, a'r cynhorthwy a ddigwyddodd iddi heb ei ddisgwyl, byth allan o gof y rhai a'i gwelsent. Am hynny gwnaeth y brenhinoedd, a'r penaethiaid, a'r eglwyswyr, a'r cyffredin, bob un eu dyledswyddau. Ond pan gyfododd to arall na wyddai oddiwrth ddim ond y tawelwch presennol, dymchwelwyd gwirionedd a chyfiawnder, fel na welir mo'n hol mewn gradd yn y byd o ddynion, oddieithr ychydig iawn y sydd a'n bywyd yn hoff gan Dduw, ac a'u gweddiau yn cynnal ein gwendid ni."

Nis gwn a fu Gildas byw i weled pethau gwaeth na'i broffwydoliaethau'n dod i ben. Tra'r oedd tywysogion y Prydeiniaid yn ymrafaelio am yr unbennaeth yr oedd y Saeson yn ymuno ac yn ennill nerth. Yn y flwyddyn 577 yr oedd Ceawlin wedi uno tylwythau'r Saeson ymgartrefasent y tu deheu i'r Tafwys; ac arweiniodd eu llu yn erbyn y dalaeth orllewinol. Cyn i'r llu hwn gyrraedd dyffryn yr Hafren, ymladdwyd brwydr Deorham rhyngddynt a thywysogion y dyffryn goludog hwnnw. Gorchfygwyd y Prydeiniaid, a syrthiodd tair dinas,—Caer Baddon, Caer Loew, a Cirencester,—i ddwylaw yr anrheithiwr. Trwy'r fuddugoliaeth hon, estynnodd Ceawlin derfynau ei deyrnas i lan môr y gorllewin, gan wahanu Cymru a Chernyw am byth oddiwrth eu gilydd. Yr oedd dyffryn bras yr Hafren yn agored iddo hefyd,

* Y mae Gildas yn taflu llawer o oleuni ar dywysogion y gorllewin, fel y cawn weled eto. Bydd erthygl arno ac ar ei lyfr mewn rhifyn dyfodol. Y mae'r darnau ddyfynnir yma o gyfieithiad Charles Edwards.

gyda'i ddinasoedd a'i balasau. Ymdeithiodd i fyny'r dyffryn,—yr oedd ei amddiffynwyr wedi marw yn Neorham,—a gadawodd balas Cynddylan yn dywyll, wedi ei losgi a'i anrheithio. Ond nid Ceawlin oedd i orchfygu Cymru; ym mrwydr Fethanlea, yn 584, gorchfygwyd ef, a gorfod iddo gilio'n ol o ddyffryn yr Hafren.

Erbyn dechreu'r seithfed ganrif yr oedd yr holl dalaeth ddwyreiniol, oddigerth Cernyw, wedi ei gorchfygu. Dros holl wastadeddau'r dwyrain a'r canoldir, yr oedd y Saeson a'r Eingl wedi ymledaenu. Ac yr oeddynt wedi dechreu ymosod ar y dalaeth orllewinol, ar hyd ei chyffindir, o'r Hafren i Ystrad Clwyd. Yr oedd palas Cynddylan wedi ei losgi, yr oedd Bryneich a Deifr yn eiddo i'r Eingl. O flaen yr ymosodiad arnynt ymunodd y Cymry,—oherwydd Cymry y galwent eu hunain yn awr,—yn erbyn gallu unedig y Saeson a'r Eingl oedd am enill oddiarnynt goron eu talaeth orllewinol.

Ond yn awr dyma ni yn nechreu hanes Cymru. Yr ydym ym mysg rhai adwaenwn, gwelsom Gynddylan yn ymladd yn Neorham, clywsom alar Llywarch Hen. Y mae'r dwyrain yn Seisnig, y mae Cymry'r gogledd yn cilio'n ol o gam i gam o flaen y gelyn,—cyn pen y deng mlynedd bydd Cymru, ein Cymru ni, wedi ei hamgylchu gan y Saeson a'r môr.

Yn y rhifyn nesaf, wedi hyn o ragymadrodd, dechreuaf adrodd hanes Cymru ei hun. Af ymlaen yn araf a hamddenol, rhaid i mi gael dweyd fy stori wrth fy mhwys. Fy mwriad, nis gwn a fedraf ei sylweddoli, ydyw gwneyd i'm darllenwyr weled Cymru'n dadblygu, a gweled lle tywysog a bardd yn y dadblygiad hwnnw.

Hyd yn hyn, yr wyf wedi bod dan anfantais fawr oherwydd nad oedd gennyf fapiau i egluro'r hyn a ddywedwn. Erbyn y rhifyn nesaf bydd fy mapiau'n barod; ac yr wyf yn gobeithio y medraf gael cyflawnder o honynt i egluro terfynau Cymru o oes i oes.

# CYMRU A GARAF.

CYMRU A GARAF,—fy hen wlad odidog,
 Eden y Cymro yn ddiau wyt ti,
Aelwyd lle magwyd fy nhadau ardderchog,
 Cartref enwogion, ac arwyr o fri;
Erch gledd dialedd fu'n noeth yn dy wyneb,
 Gwaed dy wroniaid fu'n lliwio dy rudd;
Erys dy gestyll yn dystion trychineb,—
 Cwynfan mae'r Brython, a'i delyn yn brudd.

CYMRU A GARAF, magwrfa prydferthion
 Heirdd ei mynyddoedd, a'i chreigiau llawn swyn,—
Cestyll hen anian fu'n gwylio gelynion,
 Cartref yr awel—a gerddi y brwyn.
Caraf y Wyddfa fu'n dyst o bob gormes
 Tŵr amddiffynnol fy nghartref erioed,
Gorwedd mae'r cymyl fel plant ar ei mynwes,
 Chwery'r aberoedd o amgylch ei throed.

CYMRU A GARAF, mae natur haelionus
 Yn gwisgo pob dyffryn mor brydferth a hardd;
Dolydd meillionog, a chymoedd rhamantus
 Ennyn hyawdledd yn nhelyn y bardd.
Gloewon afonydd, a'i rheieidr ewynog,
 Ei llynnau yn dlysau addurnant ei bron,
Murmur ei nentydd sydd fiwsig cyfoethog,
 Ei chwaon perorol wna'm hysbryd yn llon.

CYMRU A GARAF,—hoff fangre y beirddion,
 Plethwyr hen gerddi godidog fy ngwlad:
Yr awen Gymroaidd a'i thlws gynghaneddion
 Leinw bob cwmwd gan swynol fwynhad.
"Gwlad y gân" ydwyt ti, Gymru berorol,
 Canu mae'th feibion cerddorol eu nwyf
Megis telynau paradwys adlonol
 Swynant fy nghlustiau lle bynnag y bwyf.

CYMRU A GARAF, nid am mai dy filwyr
 Ymladdodd dy frwydrau â'r pylor a'r cledd:
Caraf di, Gymru, yn fwy am dy arwyr
 A'th ddysgodd i *feddwl*,—*newidiodd dy wedd*.
Caraf di, Gymru, am ddeffro i'th hawliau,
 A phaham, fy mam-wlad, y cysgaist cyhyd?
Dy darian yw'th feibion dysgedig eu doniau,
 A chewri'r dyfodol sy'n awr yn dy gryd.

CYMRU A GARAF,—edmygaf ei meibion,
 Gertiant eu henwau yn uchder y graig;
Erys eu hanes ymhlith anfarwolion
 Tra berwa dialedd ar wefus yr aig.
Megis ei chreigiau yn torri'r cymylau,
 Felly aed Cymru trwy'r rhwystrau i gyd,
Bydded ei henw ar lenni yr oesau,
 Yn Gymru addolgar,—yn Eden y byd.

*Blaenau Ffestiniog.* BARLWYDON.

# CAROL NADOLIG.*

*Ar y dôn a elwir Mwyneidd-dra, neu Symlen Pen Bys.*

"Yna y daw y rhai ar ddarfod am danynt." ESAU XXVII. 13.
"A'r hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." IOAN VI. 37.

I.

YR hwn sy'd ganddo glust i wrando,
A'r sawl a garo sail y gwir,—
Cydnabyddwch ein dedwyddwch
A'n tawelwch yn y tir.
Y brenin Iesu sy'n teyrnasu,
Yn llawn o allu, oll yn oll,
Llawn trugaredd, gras, a rhinwedd,
Iawn ddigonedd yn ddi goll.
Mae fe'n gofalu dros ei deulu,
Mae'n ymgeleddu gwely'r gwan,
Mae fe'n rhoddi pob daioni
Yn bybyr inni, bawb ei ran.

II.

Creawdwr bydoedd, tir, a moroedd,
A llwyr niferoedd allu'r nef,
Y bod cynta ymhob preswylfa,
A diwedda ydyw ef;
Mae yn ehangder yr uchelder,
Mae'n tario ym meithder tir a môr,
Mae fe'n darparu haeddiant Iesu
Er diogelu'r duwiol gôr.
Mae fe yn trefnu uffern obry,
Llyn y fagddu llawn o fŵg,
I'r rhai sy'n gwrthod gwaed y cymod,
Amryw drallod mawr a drwg.

III.

Wele waelod cyflog pechod,
A'r gresyndod garw sydd
Lle mae tynfa hepil Adda
Nes eu difa, nos a dydd;
Yn awr i'n cadw o'r pydew hwnnw,
Lle mae'r meirw mawr a mân,
Rhaid ymolchi yn ffynnon Ddewi,
Ag ail eni o'r Ysbryd Glân,
A'r Tad i'n tynnu, a'r Mab i'n prynnu
A chyflawn dalu ein dyled mawr,
A Sanctaidd Ysbryd i'n hadferyd
Mewn ail fywyd nefol wawr.

BYRDWN.†

Yna deuwn yn fwy diwid
I garu rhyddid, goreu rhôl,
Ni chaiff dyfod byth ei wrthod,
Nag un aelod ei gau'n ol.

IV.

Tra'r wyt ti'n pechu heb 'difaru,
Na mynd ag Iesu yn dy gol,
Rwyt ti beunydd megis llofrudd
A'r dialydd ar dy ol;
Cwyd, ystyria, rhed, a brysia
Ir ddinas noddfa, ddawnus nawdd,
Ti gai hyfrydwch diogelwch,
A byw mewn heddwch yma'n hawdd;
Ymâd o rwyde'th hen gariade
A gwel yr eisie o gael yr Iôr,
Yr hwn sydd gytun yn dy dderbyn
Nid oes derfyn ar i stor.

V.

Cred fod ffyddlon addewidion
Oen Duw, a'i roddion, yn dy ran;
A phob sanctedd briodoledd
Yn dy goledd, enaid gwan;
Mae trugaredd a gwirionedd
Mwyndeg unwedd am dy gael,
A chyfiawnder o'r uchelder
Ar dy fater er dy fael;
Atolwg dychwel, tyrd yn isel
I gor y bigel gywir bwyll,
Pob peth sydd barod yn y cymod
Os wyt ti'n dyfod yn ddi dwyll.

BYRDWN.

Tyrd yr awron, fab afradlon,
Gwel, anffyddlon galon ffol,
Na chaiff dyfod byth ei wrthod
Nag un aelod ei gau'n ol.

VI.

Mae'r diluw'n dyfod i'th lwyr orfod,
O chware a'r pechod ni chair parch,
Na saf o gyrredd drws trugaredd,
Dewis rinwedd, dos ir arch;
Tyrd or gwastadedd cyn del y dialedd,
A phair o lygredd, ffo ir lan,
Rhaid yw dy dynnu, gan fod Iesu
Yn dy garu, enaid gwan;
Cadw dithau'th lamp yn olau
Ath holl arfau yn eu lle
Gwir ysgogiad ymarweddiad
Union alwad yn y ne.

VII.

Na fydd gyndyn, angrhedadyn,
Rwy'n daer yn erfyn, dyro'n awr
Dy holl galon â dull gole
Fel Manase i'r Meichie mawr;
Gwel fod erlidwyr a gwrthgilwyr
Ac anudonwyr, dynion cas,

* Codwyd y carol hwn o lawysgrif Rowland Huw o'r Graienyn (Gwel CYMRU I. 108—110). Cefais fenthyg y gwreiddiol gan Miss Saunderson y Bala, trwy y Parch. Ellis Edwards, M.A.—GOL.

† Y byrdwn i gyd a genir ar y rhan olaf o'r mesur.

Yr eilyn gybydd gyda'r llofrudd
A'r coel grefydd yn cael gras,
A'r erwydredig dyfodedig
Cul briwiedig yn cael braint,
Yn troi'n ffyddlon bererinion
I deulu Seion, duwiol saint.

BYRDWN.

Fe ddaeth Claudia, Mair, a Lydia,
Fe ddaeth Sela ddoeth, a Sol;
Ni chaiff dyfod byth ei wrthod
Nag un aelod ei gau'n ol.

VIII.

Pan fych di'n dyfod na chudd bechod,
Ond eu gosod yn deg oll
O flaen Iesu, efe sy'n medru
Eu dirymu a'u gyrru ar goll;
Fe drydd yr atlan ellyll allan,
Llygrwr anian, â llaw gre,
Fe esyd berffaith ras a gobaith
Iawn lywodraeth yn ei le;
Ti gai dy gyfri, mawr aneiri,
Gwedi croesi, a'th roddi'n rhydd,
Os wyt ti'n dywad gyda theimlad
Iawn hoff alwad yn y ffydd.

IX.

Mae'r tad yn barod i'th gyfarfod,
Nid i ddamnod yn dy ddydd
Unrhyw bechod; dy holl sorod,
A'th anghydfod, aeth ynghudd;
Ti gai arlwy, gwisg, a gofwy,
A mynd, a'i fodrwy ar dy fys,
I'r wledd a'r ddedwydd ganiad newydd
O lawenydd yn ei lys;
Pur goronau, gwynion ynnau,
A thelynau ethol aur,
Ty mawl, a dinas, teml daioni,
Llawn goleuni oll yn glaer.

BYRDWN.

Lle mae cynnwys ben yr eglwys
Yna gorffwys yn ei gôl,
Ni chaiff dyfod byth ei wrthod
Nag un aelod ei gau'n ol.*

ROWLAND HUGH.

*Myfi a ryfygais ollwng rhai dipthongau allan o'u priodol lythrennau, gan fy mod yn gweled yn yr oes hon awduron dysgedig yn arfer y cyfryw, a gwerin yn dyfod i ddeall pa beth y maent yn ei feddwl wrthynt. 1791

## HIRAETH.

I.

DAW meddyliau dwys a thyner
Am gyfeillion amser gynt,
Hen gyfeillion cywir galon
Pan yn groes y chwythai'r gwynt;
Rhai sy' draw yng ngwlad yr estron,
Mewn broydd pell,
Ereill anwyl wedi 'mado
Am wlad sy' well.
Ond gyfeillion cywir galon,
Pell o olwg, pell o glyw,
Ni all amser chwaith nag angau
Ysgar rhwyman cariad gwiw.

II.

Weithiau daw yr hen gyfeillion
O gysgodion angau prudd,
Safant o fy mlaen dan wenu,
Gwên o wawl sy' ar eu grudd,—
"Gad dy lafur trwm blinderus,
Tyrd atom ni!
Dianc o dy boen a'th gystudd,
Tyrd atom ni!
Brysia, brysia, dianc atom,
'Muna a ni mewn nefol wlad,
Man nad oes neb byth yn 'mado,
Man mae gwynfyd pur yn rhad"!

III.

Yna clywaf leisiau tyner,
Yn fy ymyl eiriau mwyn,
Dont yn ysgafn ar yr awel,
Cludant i mi nefol swyn,—
"Ni adewi ni'n amddifad,
Mewn anial wlad,
Heb un cyfaill, heb arweinydd,
Mewn anial wlad"?
Na, gyfeillion tyner-galon,
Glynu'n dyn wnawn hyd y bedd,
Duw sy'n anfon cariad graslawn,
Blaenffrwyth yw o wlad yr hedd.

*Aberystwyth.* R. BRYAN.

## SOBRWYDD.


Ha! Sobrwydd, mae hedd syberwyd—yn llenwi
Holl anian dy fywyd;
Dy dda naws fo yn ddinwyd
Yn hulio ar bob aelwyd.

D. TEGWEL EVANS.

## Y LLOER.

Y Loer wech mal dysgl arian—deifl ei gwrid,
A'i gwres drwy bedryfan;
Daeth hon hyd gylchdaith anian
O law Ior i'n hawyr lân.

TREBOR MÔN.



Y BONT HIR.

CAPEL Y METHODISTIAID. NEUADD Y DREF. CAPEL YR ANIBYNWYR.

TY'R MAER. YR EGLWYS. Y FFATRI LOSGWYD.

# LLANIDLOES.

> "Llanidloes, lle i anadlu
> Awyr a gwynt Cymru gu."—Ceiriog.

YM mis Gorffennaf diweddaf yr oeddwn yn teithio i fyny dyffryn yr Hafren, gan ddyfalu pa fath le allai Llanidloes fod. Ceisiwn ddarlunio ei hymddanghosiad i mi fy hun, yng nghanol mynyddoedd, lle nad yw'r Hafren ond aber; ceisiwn ddychmygu a welwn blant Siartwyr 1839, ac a oeddynt yn cofio am frwdfrydedd rhyfedd eu tadau; ceisiwn ddyfalu pa argraff adawai ei phobl arnaf. Treiais weled hanes y dref yn glir trwy droion canrifoedd, gan edrych allan ar y dyffrynnoedd ffrwythlawn y cyflymem drwyddynt; a thybiwn fod gwawr Gorffennaf, gwawr cyfoeth, darganfyddiad, a meddwl, ar hanes Llanidloes. Ond, rhag i'm meddyliau droi'n freuddwydion ofer, penderfynais beidio ffurfio syniad am Lanidloes nes y gwelwn hi, a throais i edrych ar fy nghyd-deithwyr.

Gwelais eu bod oll yn edrych, gyda gwên ddireidus, ar un o honom. Geneth oedd honno, a gwallt fflamgoch. Yr oedd yn eneth brydferth; ac fel pob un fedd wallt o liw blodau'r eithin, yr oedd wedi ymwisgo mewn lliwiau tanbaid, a'r lliwiau'n toddi i'w gilydd yn dlysaf peth welais erioed. Ond nid ei gwallt o liw'r goelcerth, ac nid prydferthwch lliwiau ei gwisg, oedd yn gwneyd i'w chyd-deithwyr wenu. Yr oedd yn ceisio rhoi edeu mewn nodwydd, ac yr oedd ysgytiadau'r tren yn ei wneyd yn beth amhosibl iddi daro pen yr edeu i'r erai. Treiai dro ar ol tro, ac yr oedd pawb yn ei gwylio, ac yn

cael rhyw hanner mwynhad wrth ei gweled mor agos i lwyddo, ac yn methu. Yr oedd yno hogyn ysgol, ac yr oedd yn mwynhau yr olygfa ymron gymaint a phe buasai ef ei hun wedi rhoi rhyw sylwedd tryloew yn llygad y nodwydd; yr oedd yno hen wraig yn edrych dros ei spectol, ac wedi gollwng ei phapur newydd; yr oedd yno hen lanc, heb weled ymgais i roddi edeu mewn nodwydd yn y tren o'r blaen, ac yn gwylio bysedd yr eneth bengoch mor ddyfal dros ei hysgwydd a phe buasai'n parotoi i drwsio'r twll oedd yn ei hosan ef; yr oedd yno hen fachgen mawr tew, a llygaid fel gwydr, a'r rheini'n llawn o chwerthin, tebyg i lewyrch haul ar risial.

Ond toc, rhoddodd y tren ysgytiad mwy nag arfer, a thaflwyd braich yr eneth heibio i'r nodwydd oedd yn ddal yn ei llaw arall, nes y plannodd yr edeu yn llygad yr hen lanc. Gyda fod yr ysgytiad drosodd, yr oeddym yn Moat Lane Junction, a disgynnodd yr hen lanc a minnau, oherwydd fod yn rhaid i ni newid tren. Yr oedd yn rhwbio ei lygad dolurus, a mynnai mai o fwriad y plannodd yr eneth yr edeu yn ei lygad. A chan enwi un y dywedir yn gyffredin fod yn rhaid cael dwy goch i'w wneyd, sicrhaodd fi fod lliw yr eneth honno yn sicrwydd mai tanio wnai ar y rhybudd lleiaf. Dan wrando ar achau merched, aethom trwy ddolydd meillionog, trwy Landinam a'i blodau, a thoc gwelsom Lanidloes a chopâu mynyddoedd lawer. Moel a llwm oedd yr olwg gyntaf ar y dref o'r orsaf, gwelwn ystryd lydan yn dechreu draw, ac yn rhedeg i lawr i gyfeiriad yr afon. Yr oeddwn wedi codi'n foreu, wedi gorfod cipio rhyw damaid cyn rhedeg at y tren, ac heb ymdrwsio mor ofalus ag y dymunwn wneyd. I fanylu, nid oeddwn wedi eillio, ac yr oedd y cadach wisgwn am fy ngwddf wedi gweld dyddiau gwell.

Troais i'r gwesty cyntaf gawn, cefais yno foreubryd blasus, ac yna eis i'r heol i brynnu rhyw fân bethenach, gan gofio, wrth i mi eu gweled hwy, y byddai pobl Llanidloes yn fy ngweled innau. Y peth cyntaf a'm tarawodd oedd Seisnigrwydd masnachwyr y lle. Yn y gwesty, ni fedrai'r forwyn Gymraeg mwy na barnwr neu eneth ysgol. A phan droais i mewn i siop haiarn, gofynnodd siopwr braf melynwallt imi yn Saesneg beth a gai werthu i mi. Ond pan ofynnais yn Gymraeg iddo am rasel, siaradodd Gymraeg mor rigil a minnau. Cerddais i lawr yr heol, gan synnu beth allasai'r adeilad coesau pren sydd ar ganol yr ystryd fod, a throais am y gornel i siop dilledydd, a gofynnais i ferch ieuanc weddus ei phryd am gadach fel y cadach wisgwn am fy ngwddf. Buom dipyn o amser yn deall ein gilydd, a chanodd rhywun direidus am y tro, gan ddychmygu deuawd fel hyn,—

"Oes gennoch chwi gadach du?"
"What is it you want?"
"Maddeuwch fy mod mor hy."
"Leave off your cant."
"Mae arnaf ei eisiau yn awr."
"The gibbering clown!"
"Mi dalaf, chostiff o fawr."
"You are a pest in the town."
"Peth fel hwn i'w roi tan hyn."
"Oh, that's better."
"Dyma i am dano ddeuswllt gwyn."
"Oh, what bother!"
"Diolch i chwi am eich mwynder."
"Boy, reach me a mourning kerchief."
"Bellach caf fy nghais ar fyrder."
"I'll watch the man, he's bent on mischief."
"Na, nid hwnnw, ond rhimin du main."
"Won't that suit you, try."
"Un gloewddu, 'r un lliw a'r brain."
"Oh, you want a black neck-tie!"
"Dyna fo! Faint yw ei bris o?"
"Thirteen pence, or say a shilling."
"Rhoi mi roi fi hynny am dano."
"Thanks, I wish you a good morning."
[*Exit.*

"Y faeden, pam na ddallte hi Gymraeg."
"Poor fellow, he must be an Africaner."
"Nid y fi yng Nghymru sieryd Saesnaeg."
"Escaped from Stanley or the asylum warder."

Ymhell wedi i mi adael Llanidloes gwelais yr uchod ar lun "ymgom rhwng gwâr ac anwar yn Scoldinall." Ond yr wyf yn protestio yn erbyn y fath ddesgrifiad, oherwydd nad yw wir. Os oedd rhywun yn ddrwg ei dymer wrth brynnu'r cadach, myfi oedd. Yr oedd y ferch ieuanc a'i gwerthodd yn siarad Cymraeg campus, ac yn un amyneddgar iawn.

Ond, o'r diwedd, dyma'r cadach newydd am fy ngwddf, a minnau'n edrych drosto ar Lanidloes a'i thrigolion. Cerddais i ddechreu ar hyd yr ystryd fawr sy'n rhedeg i lawr at yr Hafren, o dan yr hen neuadd sy'n sefyll, fel dyn ar strydfachau, wrth ben yr heol. Dyma gysgod braf i'r bobl fedr fyw'n segur, ond ychydig iawn o lerewyr welais yn Llanidloes. Gadawodd y dref argraff arnaf ar unwaith ei bod yn lle glân, a thybiwn fod gan y trefwyr wynebau deallgar iawn. Yr oeddwn newydd fod yn crwydro drwy drefydd ereill ar gyffiniau Maldwyn a'r Amwythig, a theimlwn fy mod mewn tref oedd wedi cael addysg well na'r trefydd hynny. Nis gwn a ydyw'r frawddeg ysgrifennem yn ein *copy books* yn yr ysgol, heb ei deall bid siwr, yn wir,—"Cleanliness is next to godliness;" ond gwn hyn, fod rhyw gysylltiad agos rhwng dwfr glân gloew a glendid moes. Os gadewir ffosydd drewedig mewn tref, ac os gadewir ei heolydd neu ei thai'n fudron, y mae hyn yn sier o roddi rhyw ddiogi meddwl, rhyw amharodrwydd meddwl at lanhau, i'w thrigolion. Wedi ymgynefino a gadael pethau anymunol o'i gwmpas, buan y dysgir dyn i adael llonydd i bethau anymunol ymgartrefu yn ei foes a'i feddwl. Ond am Lanidloes,—dyma hi yng nghanol y mynyddoedd, y dref

gyntaf ar yr afon Hafren, lle mae'r dwfr yn dryloew wrth lithro hyd lwybr glân o raian neu graig. Yr oedd glendid y dref wedi ymddelweddu ar y gwynebau welwn, ac ni fum mewn tref erioed lle mae'r hen bobl yn edrych mor sionc ac ieuanc.

Tan feddwl a sylwi, cyrhaeddais y Bont Fer, pont sy'n taflu dros yr Hafren lle mae erchwynau carreg gwely'r afon yn agos iawn at eu gilydd. Ac wrth edrych i fyny ar hyd yr Hafren tua'r mynyddoedd draw, gwelwn gwm yn llawn o olygfeydd y medraswn dreulio blynyddoedd i'w mwynhau. Gwyddwn fod hanes i'r cymoedd o gwmpas, gwyddwn fod Edward Morgan y Dyffryn wedi ei eni yn un o honynt, gwyddwn fod y Siartwyr wedi bod yn dadleu eu hegwyddorion chwyldroadol yn y tai o'm cwmpas. Yr oedd arnaf awydd holi, ac arhosais nes y doi rhywun hamddenol dros y bont, gan fwynhau dwndwr yr afon wrth iddi furmur yn ddedwydd tra'n troi ffatri ar ol ffatri, a thra'n torri'n ewyn o lawenydd ar graig ar ol craig. Erbyn y cyrhaedda y trefydd nesaf, bydd ei dwfr wedi colli ei burdeb, bydd hithau wedi colli llawenydd y mynyddoedd, ac yn llithro'n araf ac yn brudd ar ei chrwydriadau maith.

Ond dyma ddyn yn dod, ffatrwr bach prysur, a'i ffedog wedi ei throi i un ochr. Medrais wneyd iddo aros, a dechreuais ei holi. Ond ni wyddai ddim am Lanidloes, newydd ddod yno o Drefelawdd yr oedd, ac aeth ymaith dan wenu'n hapus. Ar ei ol daeth gŵr tal teneu, gan gerdded yn hamddenol, ac ysbio arnaf oddi tan ei aeliau. Daeth ataf, a rhoddodd ei bwys ar y bont yn f'ymyl. Dyma fo, meddwn wrthaf fy hun, yrwan am holi. "Na, welwch chwi," meddai, "fum i ddim yn Llanidloes er ys deugain mlynedd, o Ruddlan y dois ar daith i weled Cymru, a dyma fi yn Llanidloes eto, ar ol amser mor hir. Yr wyf newydd weled fy mrawd, sy'n byw yn y cwm draw, a phrin yr adnabyddem ein gilydd wedi cymaint o flynyddoedd." Dywedodd mai Anibynnwr oedd wrth ei grefydd, a thafarnwr wrth ei alwedigaeth. Gwahoddodd fi i'w dy pan awn i Ruddlan, a gwelais ef yn syllu ar dai Llanidloes nes y cuddiodd y neuadd coesau pren ef o'm golwg. Fel y gwelwn yn y man, peth pwysig iawn i deithiwr ydyw ei fod yn gofalu dweyd y gwir.

Cyn i neb arall groesi'r Bont Fer, troais o honi i lawr gyda'r afon ar hyd heol Pen y Graig. O hon rhed llawer o ystrydoedd bychain culion, gyda thai newyddi'n glân, a'r tai i gyd ar graig lâs olchwyd yn lân gan y gwlaw. Meddyliwn am dref Basel o hyd, y dref sydd ar lan y Rhein,—yr oedd dwndwr yr afon a glanweithdra'r tai a phryd y bobl yn gwneyd i mi feddwl er fy ngwaethaf fy mod yn y ddinas honno, dinas y bu ei gweithwyr yn ferthyron i ryddid a'r Beibl pan oedd tywysogion byd yn elynion iddynt. Ni welwn fawr o bobl Llanidloes ond hen bobl a phlant,—hen wyr a hen wragedd mewn amlder dyddiau, a bechgyn a genethod yn chware yn ei heolydd hi. Gwelais lawer gwyneb tarawiadol yn estyn allan o ddrysau'r tai,—llygaid duon, trwyn enfawr, a gwallt gwyn. Saesneg siaredid a'r plant, ond yr oedd pawb yn berffaith barod i siarad Cymraeg.

O dipyn i beth dois at yr eglwys, yr oeddwn wedi gweled ei thŵr anorffenedig o bell, yn ymddyrchafu o fysg coed a llwyni. Y mae'r eglwys a'r fynwent mewn lle prydferth iawn, ar fryncyn sy'n codi o lan yr afon; ac nid yw'r fynwent hon yn ddistaw fel mynwentydd ereill, eithr y mae dwndwr tragwyddol y dwfr i'w glywed o honi. Y mae'r fynwent yn llawn iawn,—bu Llanidloes yn lle pwysig, pan oedd wyth gant o beiriannau nyddu'n mynd ar unwaith,—ac y mae'r beddau wedi eu palmantu â cherrig a'u harddu â blodau. Y mae'r cerrig beddau'n dweyd hanes y dref, dengys yr enwau fod Saeson o rannau gweithfaol Lloegr wedi ymgymysgu a thrigolion y mynyddoedd i drin gwlan ac i'w wau'n wlanen. Woosnam, Hamer, Kay, Mills, Ashton, Bowen, Maypole, Marshall, Roderick,—dyna gymysgfa digon rhyfedd. Ar un bedd gwelais enw gwladaidd iawn, enw a'm hadgofiai am lawer hen ffermdy clyd,—"William Shôn."

Wedi tro o gylch y fynwent, un o'r llecynnau prydferthaf trwy Faldwyn i gyd, troais i edrych ar yr eglwys. Y mae'n anodd i unrhyw adeilad edrych yn fawreddog a hardd yng Nghymru, nis gall yr un adeiladydd ymgystadlu a'r hwn sylfaenodd y mynyddoedd; y mae mynyddoedd Cymru'n gwneyd yr eglwys uchaf fel corach, a'r castell hynaf fel creadur doe. Ond

> "Aros wnant hwy byth yn ieuanc,
>    Er eu bod mor hen a'r byd;
> Natur sydd yn cadw arnynt
>    Swyn ei chreadigol wrid;
> Engyl ar eu teithiau safant,
>    I ryfeddu gymaint rodd
> Duw o hono ef ei hunan
>    Yn eu mawredd, wrth eu bodd."*

Nis gwn ai mawredd trumau Plumlumon oedd yn gwneyd i'r eglwys edrych yn adeilad distadl a di addurn. Ond wedi mynd i mewn, gwelais yn union fod cyfoeth oesoedd o fewn i'r eglwys hon. Nid oedd, mae'n amlwg, fwy na rhyw naw mlynedd neu ddeg er pan "adnewyddwyd" hi; ond yr oedd yr hen golofnau cerrig gynhaliai ei bwâu a'r nenfwd

* Iolo Caernarfon. "Oriau yng Ngwlad Hud a Lledrith." 10.

bren ardderchog yn dangos fod gwaith oesoedd ereill yn aros ynddi. Hwyrach fod y cerrig yn aros er y seithfed ganrif, ac y mae'r derw wedi bod mewn eglwys er ys dros saith gan mlynedd. Ail adeiladwyd yr eglwys tuag amser dinistrio'r mynachlogydd, rhwng 1538 a 1542, a chariwyd coed Abaty Cwm Hir iddi, oddi tros y mynydd draw. Gwyn fyd na chadwesid holl drysorau'r mynachlogydd,—trysorau oes bur a chyfoethog wedi mynd i ddwylaw rhai amhur di-ddaioni,—yn yr un modd. Enwau crefftwyr oedd ar y beddau y tuallan, fel pe buasai'r fynwent yn un o fynwentydd yr Isel-diroedd Ellmynnig; y tu mewn yr oedd enw ambell hen deulu bonheddig Cymreig, ac ambell i deulu crefft wedi ymgyfoethogi nes bod cyfuwch a hwythau,—Lloyd Glan Dulas, Evans y Faenol, a Marsh a Woosnam.

O'r fynwent cerddais ymlaen drwy ystryd o dai o adeiladwaith canrif o'r blaen a chyda lloriau fel y beddau o gerrig mân, nes y dois at daleen y Bont Hir. Bum yno ennyd yn gwylio'r Hafren a'r Glywedog yn ymuno a'u gilydd, ac yn aros hyd nes y deuai hen ŵr welwn draw i ganol y bont. Cyferchais well iddo, a rhoddasom ein dau ein pwysau ar ganllaw'r bont, i ysgwrsio. Dyn mawr, dros ddwylath o hyd, oedd yr hen wr, un fu'n syth ac yn lluniaidd iawn. Yr oedd ganddo wyneb tarawiadol ac yr oedd yn weddol lân,—trwyn Rhufeinig a thalcen fel thalcen mur. Am dano yr oedd trowsus rips clytiog syml glân,—digon glân i ddydd gwaith beth bynnag, a sane bach; gwasgod frethyn, a chôt ddisgynnai oddiar ei gefn crymedig at ei arrau. Yr oedd blynyddoedd wedi ystwytho ei het i lun ei ben, ac yr oedd yr haiarn ar flaen ei ddwy ffon wedi treulio yn agos i'w hanner. Yr oedd yn llawn o ystraeon, ond nid oedd ganddo syniad clir iawn am amser. Bu'n byw ugeiniau o flynyddoedd yn Llanidloes, ond am ryw gwm yng nghyfeiriad Llanbrynmair yr oedd ei ysgwrs, dywedai mai yno'r oedd y fro dlysaf dan haul, a'r dynion cefnocaf.

"Yr oeddych yn ddyn cryf yn eich dydd," ebe fi.

"Oeddwn," meddai, "mi weles ddydd yr oeddwn i'n gryfach dipyn. Ond yrwan 'rydw i'n rhy hen i ddim, 'dydw i da i ddim ond i fod ar y ffordd."

"Rydech chwi'n cofio llawer iawn o bethau?"

"Ydw, ond 'mod i'n bur ddotlyd, 'rydw i wedi gadel fy nwy a phedwar igien. 'Rydw i'n cofio Llanidloes dipyn yn llai, 'rydwi'n cofio'r amser y bydde'r wlad yma i gyd yn byw ar beth dyfe ynddi hi, ac mi weles y sached gynta o fflŵr ddaeth yma erioed yn cael ei gwerthu fan acw o flaen yr Hall. Ond mae'r Hall wedi heneiddio erbyn hyn, fel y finne, dyn a'm helpo."

"I'r Eglwys y byddwch chwi'n mynd?"

"Choelia i fawr! Rydw i'n perthyn i grefydd, Methodus ydw i."

"Ond y mae yma berson da, a chiwrad da iawn?"

"Oes, medde nhw, mi glywes gamol y ciwrad lawer gwaith, ac mae'r person yn eith'r dyn, am wn i. Ond Saesneg gewch chi gennyn nhw bob gair; welwch chwi'r eglwys acw, does neb yn torri'r Cymraeg ynddi Sul na gwyl na gwaith. Mae nhw'n deyd mai un o Rydychen ydi'r ciwrad, a does neb ddaw oddyno'n medru siarad Cymraeg."

"Howld on, 'r hen bererin, un o Rydychen ydyw gweinidog capel y Methodistiaid hefyd."

"Ie, a bachgen neis iawn ydi o, a bachgen neis anghyffredin oedd yma o'i flaen o. Ond am gapel Saesneg y Methodistiaid 'rydech chi'n meddwl, ac am y capel Cymraeg 'rydw inne'n meddwl. Ma yma gapelydd braf yn Llanidloes, dene chi gapel crand iawn gen y Sentars, ond yn capel ni ydi'r nobla. Ma yma bregethwrs da iawn hefyd, ond y mae Cynhafal Jones yn un o'r pregethwrs mwya, mae o yn i handwyo nhw i gyd. Glywsoch chi am dano fo'n,"—

"Good morning, a fine day."

Yr oeddwn wedi gweled perchennog y llais main merchedaidd ddywedodd y geiriau hyn yn troi o'n cwmpas er ys meityn. Dyn byr di-farf oedd, a'i awydd am siarad a ni'n gryf, a'i swildod yn gryfach na hynny. Daeth atom o'r diwedd, ac yr oedd fel pe wedi dychrynnu wrth glywed ei lais ei hun. Yr oedd het lwyd feddal am ei ben, a'i chantel wedi ei droi i fyny un ochr; gwisgai drowsus o rips gwyn newydd ei olchi, a chôt o frethyn llwyd-goch. Yr oedd golwg di-daro arno, er ei swildod; safai'n syth, ond gan edrych i lawr, gydag un law ym mhoced ei drowsus a'r llall ym mhoced ei gôt. Ni fuasai neb byth yn dweyd oddiwrth ei ymddanghosiad beth oedd ei oed na'i grefydd na'i gyflwr bydol. A phe buasai raid penderfynu oddiwrth ei wyneb a'i lais, ni fuasai neb yn medru dweyd prun ai dyn ai dynes oedd.

"Good afternoon," ebe finne. "Can you speak Welsh?"

"Medra,'n dda," meddai'n awchus. "Mi fedra i whlia Saesneg, ond mae'n well gen i Gymraeg. Iaith fy mam ydi'r Gymraeg, ond dysgu'r llall ddaru mi. Rwan mae'r ysgolion yn gyrru'r Gymraeg o'r wlad, does dim ond ambell hen nyddwr fel y fi am siarad Cymraeg. Oeddech chwi'ch dau yn siarad am y Siartwyr?"

"Nag oeddym. A wyddoch chwi rywbeth am danynt?"

"Gwn; 'rown i yn i canol nhw."

"Yn eu canol, does dim posib eich bod yn ychwaneg na dengain oed; 'doeddech chwi ddim wedi eich geni yn 1839."

"Oeddwn, 'roeddwn i'n naw mlwydd oed yn y flwyddyn hono, ac yn i canol nhw."

A thra'r oedd gyrroedd o ddefaid a throliau gwlan a mwnwyr yn pasio dros y bont, dechreuodd yr hen wr hwn,—oherwydd yr oedd yn drigain oed,—adrodd yr helynt rhyfedd hwnnw. Darluniodd fel y canodd "corn Rhyddid" i alw'r brodyr i ymgynull ar y Bont Hir; a'r pregethu tanllyd wrth daleen y bont. Ar ganol y cyfarfod dyna waedd fod y cwnstabliaid wedi dal rhai o'r Siartwyr a'u bod yn eu cadw'n garcharorion yng ngwesty *Trewythen Arms*. Cododd swn digofus oddiwrth y dorf, a dyna bawb fel un gŵr yn troi o'r bont ac yn rhedeg i ganol y dre "i dorri ffenestri." "Ac yr oeddwn inne yn i canol nhw." Torrwyd ffenestri'r gwesty'n gandryll, rhuthrwyd i'r ty, maluriwyd y dodrefn, a diangfa gyfyng gafodd y cwnstabliaid am eu bywyd. "Mi gweles nhw'n dengid drw'r ffenest. A'r Siartwyr fu'n rheoli'r dre yma am ddyddie. 'Roedd trefen braf ar bethe'r adeg hono. Ac yr oeddwn inne yn i canol nhw."

Ond, cyn hir deallodd Lord John Russell fod perygl yng Nghymru; a gwelwyd milwyr yn cyrchu i Lanidloes o bob cyfeiriad,—o Drefaldwyn dan lywyddiaeth Charles Wynne, yr aelod dros y Sir, o'r Amwythig a Chaer a'r Iwerddon. Dylifasant i'r dref,—"ac yr oeddwn inne yn i canol nhw. Mi ddengodd y Siartwyr i'r wlad i ymguddio, a'r cavaldri ar i hole nhw i'w ffeindo nhw maes, a mi gweles nhw'n dwad i'r dre rhwng y cyffyle. 'Down i ddim yn i canol nhw pryd hynny."

Nid oedd y dyn mawr na'r dyn bach yn gwybod beth oedd Siartaeth, a cheisiais esbonio iddynt. Dywedais am swyn egwyddorion rhyfedd y Chwyldroad Ffrengig,—rhyddid, cydraddoldeb, brawdgarwch. Dywedais am y deffroad gwleidyddol y gwelodd Siartwyr Llanidloes ei fore.

> "Braint oedd cael byw y dyddiau hynny,
> A nefoedd bod yn ieuanc,"

ebai bardd oedd yn Geidwadwr selog cyn diwedd ei oes. Dywedais mai nid torri ffenestri a lluchio cerrig at gwnstabliaid oedd unig amcan hen wroniaid Llanidloes,—ond croesawu bore rhyddid oedd iddynt hwy fel bore cyntaf teyrnas Dduw. Yr oedd tlysni meddyliau am fyd heb drueni wedi eu dallu, yr oedd eu brwdfrydedd wedi dallu eu ffydd.

"Pe gwneid y Cymry mor aiddgar dros wleidyddiaeth ag ydynt dros grefydd," meddai gwleidyddwr o Sais am danynt yr adeg hono, "byddai eu sel yn gaffaeliad anmhrisiadwy." Nid dynion di-werth oeddynt, ond dynion yn pryderu ddydd a nos am gytlwr eu cyd-ddynion, bu un o leiaf o honynt yn ymladd dros y caethion yn yr Amerig, dynion diwyd a gonest oeddynt pan ddaethant o'u carchar. Ac erbyn hyn y mae eu meibion wedi cael ymron yr oll a geisient hwy. Dywedir i mi fod gwaed y Siartwyr yn Llanidloes eto. A ydyw hynny'n wir?

Yr oedd y dyn mawr a'r dyn bach yn dechre blino ar ysgwrs fel hyn, hawdd oedd gweled eu bod yn ceisio dyfalu beth oeddwn, ac y buasent yn hoffi ymgom fwy personol. A phan dewais, dechreuodd y dyn bach bysgota am wybodaeth,—

"Blonged i ffatri'r ydech chi?"

"Buasai'n dda gennyf feddu ar wybodaeth am weithrediadau llaw-weithfeydd."

"Gwerthu slêts?"

"Ni fyddaf byth yn dweyd fy hanes fy hun wrth undyn. Ar egwyddorion, nid ar bersonau y byddaf yn traethu fy syniadau."

"Dim ods, syr, dim ods yn y byd. Meddwl roeddwn i fod gennoch chi ryw newydd. Ma hi'n bur fflat yma yrwan, syr, y mae cannoedd o dai'n segur."

"Mae digon o waith, ebe'r dyn mawr, "cael dynion i'w neyd o ydi'r gamp."

"Ie," ebe'r bach, "ond rhaid mynd o Lanidloes i'w gael o. Mae pawb yn ffond iawn o'i gartre, a 'rydw i wedi treio pob peth i gael bod yma. Mi fum yn y ffatri tan losgodd hi, ac yn y gwaith mwn tan stopiodd o. Ma yma le braf, ma'n biti gorfod mynd oddyma. Cerwch chi i fynu hyd y ffordd yma, gael i chi weld brafied gwlad ydi hi."

Cerddais innau dros y bont, a dringais y bryn yr ochr draw iddi, heibio ffatri losgwyd, ffatri heb ddim ond muriau moelion a chorn simddeu uchel yn aros ar lan y dŵr. I ba gyfeiriad bynnag yr ewch o Lanidloes, byddwch yn y mynydd toc, ymysg creigiau ac eithin melyn. A daeth awel gynnes drwy'r cwm i'm cyfarfod, awel oddiar Blumlumon, yn llawn o iechyd adfywiol. Ar fy ffordd gwelais lawer ffatri ar lan aberoedd mewn hafannau dymunol, a bechgyn gyda gwynebau deallgar yn cario beichiau o wlan. Meddyliais am olygfeydd erchyll a thrueni a themtasiynau'r trefydd mawr, a gwelais mor iach a dedwydd y dylai bywyd fod yn y gweithfeydd hyn. Hwyrach y daw'r amser pan y defnyddir gallu dwfr aberoedd Cymru, ac y gwelir ochrau ein mynyddoedd yn llawn o weithfeydd prysur dedwydd. Ac erchylldra a phechod y trefydd mawrion ni bydd mwy.

Bu'm yn syllu'n hir, oddiar ben bryn, ar y mynyddoedd sy'n amgylchu Llanidloes, tarddleoedd yr Hafren a'r Wy. Cofiwn nad oes odid ardal ar lannau'r afonydd hyn heb golli eu Cymraeg, ac y mae Saesneg yn ymlid yr hen iaith yn galed i fyny hyd at ffynhonellau'r ddwy afon. Yr olaf hon i'r mynyddoedd, Llanidloes yn unig sydd wedi cadw ei Chymraeg, a rhaid fod cariad ei thrigolion at eu hiaith yn angerddol cyn y buasai wedi gwrthsefyll Saesneg cyhyd. Ni chlywir gair o Gymraeg yn ei heglwys, mi glywais,—gobeithio nad yw'r hyn a glywais yn wir; ni ddysgir Cymraeg yn ei hysgolion,—y dref wnaeth gymaint dros lenyddiaeth Cymru; ei phulpudau Ymneillduol a'i haelwydydd yw unig noddfeydd yr iaith Gymraeg.

"Peth digon pruddglwyfus," ebe rhywun, "ydyw edrych ar iaith henafol yn marw yn ei chwm olaf, ond pa golled sydd oddigerth i deimlad Cymro?" Y mae colled anhraethol. Dowch i lawr i'r orsaf obry, edrychwch ar y llyfrau Saesneg werthir yno,—llyfrau'n gwanhau meddwl, yn dirywio chwaeth, yn llygru moes,—trwyddynt hwy y mae Saesneg yn dod i Lanidloes. Nid mater o golli iaith ydyw i ardal golli ei Chymraeg,—cyll nerth ei mheddwl ar yr un pryd. Nid oes yn y byd foddion addysg fel Llenyddiaeth Cymru; dalied pob Cymro ei afael yn yr hen iaith, a dysged Saesneg hefyd.

Wrth ddod i lawr i Lanidloes yn fy ol, er mawr lawenydd i mi, cyfarfyddais weinidog Bethel. "Rhaid i chwi ddod gyda mi heno i edrych am Hafrenydd," meddai, "chwi a'i cewch yn un wrth fodd eich calon." A phenodasom awr i fynd.*

Wrth adael ty yr hen frawd mwyn, gydag adlais ei "Landinam" yn fy nghlustiau, clywais beth o Saesneg truenus y dre. Rhyw hanner Cymraeg hanner Saesneg ydyw, clywais son am "top o' town," a chlywais am un yn gofyn i'w gariad,—"Wilt thou meet me at Plwmp o' the Hall, fach?"

Boreu drannoeth, yr oedd haul ar y mynyddoedd, a phenderfynais innau dynnu llun neu ddau o brif adeiladau'r dref. Ond mor fuan ag y gosodwn fy nghamera a'i lygad ar yr adeilad, byddai tyrfa o blant o'm blaen. Ni welais gymaint o blant yn unlle erioed. Pa le bynnag y safwn, byddai tyrfa o honynt o'm cwmpas ymhen ychydig o funudau, ac nis gwyddwn o ba le y deuent, mwy nag y gwyddwn o ba gyfeiriad o'r awyr y daw brain i gae gwair yn ei ystodiau. Gwynebau plant oedd ar fy ngwydrau i gyd, ond cefais ddarluniau prydferth gan arluniwr ieuanc o'r dref.† Erbyn i mi osod fy hun ar gyfer y Bont Hir, a bod yn barod i dynnu'r mwgwd oddiar fy nghamera, yr oedd plant dan ei bwau, a thybiwn fod yr hen bont gadarn yn gwegio dan y llwyth o blant oedd hyd ei chanllaw hir. Yr oedd digon o gerrig crynion mân dan fy nhraed, ond cofiais dri pheth,—fod llygad fy nghamera yn wydr; y medr plant, yn enwedig disgynyddion y Siartwyr, luchio cerrig; a dihareb estron, "Those whalive in glass housen shouldna thraw stanes."

Yr oeddwn wedi meddwl mynd i Lan Gurig, i ddringo Plunlumon ac i holi'r dyn hysbys; ond nid oedd amser. Er hynny cefais dro i'r cyfeiriad hwnnw, a mwynhad wrth weled aberoedd mynyddig a blodau. Cefais ysgwrs hir â hen wr a hen wraig hefyd. Pan gyferchais well iddynt, dywedodd hi,—"Swmol, swmol; ffordd 'rych chi'n ymgynnal heddiw."

"Nid un o'r dre ydych," meddai'r hen wr tal, gyda gwawr cwestiwn ar ei ddywediad.

"Sut y gwyddoch hynny," ebe fi.

"Ych clywed chi'n siarad Cymraeg yr oeddwn; siaradith pobol y dre ddim Cymraeg, ond pan fyddan nhw ar glemio. O mae'n biti fod yr iaith Gymraeg mewn cimin o amharch. Mi gemson ni syndod mawr echdoe, mi ddoth brawd i mi, ac 'roeddwn i heb i weld o er's deugien mlynedd. Llawer o wahanieth sydd rhwng Llanidloes yrwan a deugien mlynedd yn ol,"—

Ie, dywedodd yr un stori'n union ag a glywais ar y Bont Fer. Peth pwysig iawn i deithiwr ydyw ei fod yn gofalu dweyd y gwir. Aeth yr hen wr a'i bladur i'r cae,—llawer ystod hir a laddodd yn ei oes,—a throais innau'n ol, heibio i lawer bwthyn prydferth a llawer cae deintyr. Toc gwelwn gurad y dref yn fy nghyfarfod, gŵr diddan, a llawer awr dreuliaswn yn ei gwmni. Temtasiwn fawr oedd troi'n ol gydag ef, ac anghofio holl alwadau'r byd yn unigedd Llan Gurig; ond, ymadawsom wedi ymgom fer, yr oedd ef yn prysuro i gladdu rhyw farw, a gwelais labedi hirion ei got yn fflapio yn y gwynt ar ben yr allt cyn mynd o'r golwg.

Drannoeth yr oedd ffair yn Llanidloes, a bum yn ymwthio drwy dyrfa ryfedd at drên bore bore. Yr oedd pobl Maesyfed yno, a'u Saesneg ysmala; porthmyn mawr a ffyn onnen ystwyth dan eu ceseiliau; mynyddwyr Plunlumon a'u cwn a'u Cymraeg,—ond nid oedd amser i ymdroi, yr oedd y tren yn dod draw, a minne i fod yn Llanfair Muallt cyn hir brydnawn.

* Oherwydd fod y bennod hon mor hir gadewir yr ymgom a gweinidog Bethel, a'r ymweliad a Hafrenydd, a hanes Llanidloes, hyd amser arall.—Gol.

† J. T. Davies, China Street. Oddiwrth ei photographs ef y tynnwyd y darluniau inc sydd uwchben yr ysgrif hon.

# GLAN LLYFNWY.

> "Ardderchol fardd anwyl fu—yn addurn
> Llenyddiaeth Cymru;
> Awdwr cân o tydrau cu,
> A gwerin yn ei garu."—DYFED.

CYNHEBRWNG hyawdl oedd cynhebrwng Glan Llyfnwy. Yr oedd tawelwch tyner y dydd yn adgof o'i dawelwch lleduais; yr oedd symledd yr arch a'r cerdded tua'r gladdfa yn dweyd yn effeithiol mai syml a di-rwysg oedd ef yn ei fywyd; yr oedd y lluoedd a ddaethant ynghyd o'r ardaloedd lle bu'n byw yn dangos ei fod yn barchus ac anwyl gan y rhai a gawsant y fantais oreu i'w adnabod, a'r rhai a ddaethant o bellach mannau yn tystio fod pelydrau ei ddawn a'i gymeriad wedi cyrraedd bannau cylch eangach; ac yr oedd calon y dyrfa fawr yn y fynwent yn adsain dywediadau cynnes ei hen gyfeillion ar lan ei fedd, a'i gwedd a'i dagrau yn dweyd ychwaneg.

Nid wyf am ysgrifennu yma y pethau a fuaswn yn ddweyd pe'n ysgrifennu cofiant iddo. Mi geisiaf gadw mewn cof beth ydyw neges a diben CYMRU; ac hefyd fod yn debyg y cyhoeddir cyfrol o'i weithiau, lle y bydd yn fwy priodol manylu ar ei hanes. Ond er mwyn y darllenwyr na wyddant fawr am dano, fe oddefir i mi roi crynodeb byr o'i hanes yn y fan hon.

Cafodd ei fagu ym Mhen y Groes, Llanllyfni. Pan oedd yng nghanol nwyf ieuenctid gafaelwyd ynddo gan Allu a'i meddiannodd iddo'i Hun, ac a droes ei wyneb yn hollol ac am byth i gyfeiriad newydd. Fe wyddai ei gymdogion cyn y troad hwn arno ei fod yn llanc o gyneddfau meddwl cryfion, ac o ddawn led rwydd; ac ar ol prawf digonol ar ei fywyd a'i ysbryd a'i fedr, cafodd ddrws agored a rhwydd hynt i ddechreu pregethu'r efengyl. Yr oedd wedi gofyn i'r Hwn â'i ddisgleirdeb a'i dygodd i lawr ger ei fron beth a fynnai Efe iddo ei wneuthur, ac yr oedd y llais wedi dweyd wrtho am gyfodi a mynd i'r pentref, ac y dywedid iddo beth oedd raid iddo ei wneuthur. A chyn pen hir fe ddywedwyd hynny wrtho. Aeth hyd ffordd pregethwyr Arfon yn gyffredin,—i ysgol ramadegol Clynog, ac oddiyno i'r Bala. Gwnaeth iddo gyfeillion edmygus o'i gyd-efrydwyr ac eraill yn y ddau le; a dysgodd gymaint ag a allesid ddisgwyl iddo ddysgu yn yr amser. Wedi gadael y Bala bu am ennyd dda yn gweithio'n egniol ymysg ei bobl ym Mhen y Groes, a chawsai aros yno o hyd, ac ychwanegu ei dâl, pe dewisasai; ond dewisodd yn hytrach fynd i gymeryd gofal deadell fechan Crist yn Nhan yr Allt, yr ochr arall i'w hoff Lyfnwy, gyferbyn â Thal y Sarn. Wedi bod yno amryw flynyddoedd, yn gweithio'n dda, a chael ei hoffi fwyfwy, priododd â Miss Margaret Jones, yr Hen Dŷ, Clynog; ac aeth i drigo yn ei chartref hi—ar lan y Llyfnwy eto. O hynny i'w farwolaeth cyflawnodd waith gweinidog ym Mryn Aeran, gydag egni a ffyddlondeb, ac mewn llwydd a pharch cynyddol. Rhy fyr gan bawb yn y lle fu'r cyfnod—rhy fyr lawer. Ac nid yw'r cwyno trist a glywid ddydd ei angladd wedi peidio yno eto, nac yn debyg o beidio'n fuan. Galwyd ef ymaith o ganol ei egni a'i ddefnyddioldeb, pan nad oedd ond tua deugain oed.

Nid oedd yn dal o gorff, ond yr oedd yn llydan a chydnerth, ac hyd o fewn ychydig flynyddoedd yn ol yn nodedig o nerthol. Yn ddiweddar tewychai yn bur gyflym, ac ar yr un pryd âi yn wannach a llesgach beunydd. Gwledig oedd yr olwg arno oddi draw; ni fuasai yn eich taro fel un arferol â'r ysgrifbin. Ond ni fuasai raid i chwi graffu llawer arno yn ei ymyl i ganfod ei fod yn llawn o feddwl ac ysbryd, na bod yn ei gwnni'n hir i ddeall mai rhodfeydd meddwl ac ysbryd oedd ei hoff rodfeydd. Yr oedd tywyllni ei bryd yn dangos nad allai fod yn fywiog iawn, ac mai lleddf oedd prif gyweirnod ei natur; ond yr oedd pelydryn yng nghil ei lygad yn dweyd y gallai fod yn llon a nwyfus ei feddwl ar brydiau, ac ambell chwerthiniad gafaelgar o'i eiddo yn tystio y gallai fwynhau digrifwch iach cystal ag undyn. Dangosai ei lygaid a'i dalcen ddyfnder dwys ac eangder tawel; dangosai ei enau fawrfrydigrwydd diofal, a thu ol i hynny, mewn hanner ymgudd, ddirmyg cryf didaro at falchder a rhodres a hunan-ddangos; ei wyneb oll a ddywedai fod o'i fewn nerth digon cryf i fod yn bwyllog a llariaidd, tynerwch allai ddal heb droi'n feddalwch ffol, ac ysbryd digon mawr i fforddio bod yn ostyngedig, a digon hoff o'i briod fyd i allu dygymod â pheidio bod yn amlwg. Yr oedd ynddo nwydau cryfion, ond yr oeddynt yn rhy ddwfn i awelon dibwys gynhyrfu odid ddim arnynt. Fel ei gorff, yr oedd ei enaid yn gadarn, yn gydnerth, ac yn syml a thawel. Ni bu llawer yn y byd o'i ddechreu, mi goeliaf, mwy dirodres a di-ymhongar na Glan Llyfnwy. Fel y dywedodd Meigant,

> "Yr oedd bri fel cerydd, braidd,
> Ar ei olwg orwylaidd."

Gallasai fod wedi cael ei weled yn amlach, yn amlycach, a chan fwy nag y cafodd; ond gwell oedd ganddo fyw mewn ymgudd a llonyddwch. "Cared doeth yr encilion," ebai rhyw Gymro gynt. Yr oedd Glan Llyfnwy yn eu caru, ac yn byw llawer ynddynt. Llawer a grwydrodd ac a eisteddodd wrtho'i hun mewn neilldufannau, gyda glan y Llyfnwy, a glan y môr, mewn dwfn gymdeithas â natur, a dychmygion, a gwirioneddau, a Duw. Mi a'i clywais yn dweyd fwy nag unwaith mai ei ddewis le am dŷ i fyw ynddo fuasai Craig y Dinas, mangre ramantus a neillduedig ar y Llyfnwy, rhwng Pont y Cim a Phont y Lleuar. Yr oedd hon yn ffansi hoff ganddo yn ei flynyddoedd diweddaf. Pe gallai Craig y Dinas adrodd ei chyfrinion, gallai roi aml ddesgrifiad dyddorol o hono mewn synfyfyrdod hurt, mewn egni digrifol o boenus gydag ambell linell anhydyn o gynghanedd, mewn gafael âg ambell angel o ddrychfeddwl, ac mewn ymdrech hefyd, mae'n bur sier, âg Angel Dwyfol Peniel. Nid âi o fodd i dai rhwysgfawr, ymgadwai hyd y gallai o gwmni dieithriaid, yn enwedig rhai uchelrâdd yng nghyfri'r byd. Ond nid oedd yn anghymdeithasgar; ni fu neb erioed mwy rhydd a boddhaus yng nghwmni cyfeillion, a chyda chydnabyddion gwledig.

Ni chlywais i ef erioed yn pregethu. Fe wrthododd bregethu yma mewn Cyfarfod Misol, fel mewn mannau ereill. Ond mi a'i clywais yn siarad cryn lawer am bregethu, a chlywais ereill yn son am ei bregethu ef. Yr wyf yn bur siwr ei fod yn pregethu'n dda, mewn llawer ystyr i'r gair. Fe wyddai beth oedd argyhoeddiad ac edifeirwch a maddeuant, a beth oedd credu ac ufuddhau a charu. Fe draethai wirioneddau wedi dyfod ato oddiwrth Dduw, ac wedi gwlychu eu hadenydd ym mhrofiad ei ysbryd. Yr oedd ganddo gyflawnder o Gymraeg da, a gwnai ddefnydd da o hono. Os arferai weithiau eirian cryfach nag a fuasai raid, angerddoldeb ei galon a barai iddo wneyd. Yr oedd yn hoff o brydyddu—yn hoff iawn; ond credaf ei fod yn hoffach o bregethu. Gellir dweyd am dano fel y dywedodd Ioan Madog am Ddafydd Ionawr,—

> Gair Naf yn bennaf beunydd oedd enaid
> Ei ddoniau ysblenydd,
> A gwir argraff seraff sydd
> Ar ei fwyn gref awenydd.

Ychydig a ysgrifennodd mewn rhyddiaeth, oddigerth pregethau. Ond y mae hynny a ysgrifennodd yn profi'n eglur fod greddf y llenydd ynddo. Fel bardd yr oedd fwyaf adnabyddus, ac fe gynyrchodd gryn lawer o farddoniaeth,—yn y mesurau caethion gan mwyaf. Fe deimlodd hoffder at farddoniaeth pan yn bur ieuanc, ac fe dyfodd yr hoffder yn ei dyfiant yntau. Difyrrai ei gyfoedion gyda darnau o waith y beirdd pan nad oedd ond bachgen, a chyn ei fod yn llanc yr oedd wedi gwneyd penillion ac englynion a mân gywyddau da ei hunan. Ymddengys iddo roi ei fryd ar ennill cadair amryw byd o flynyddoedd yn ol, ac iddo geisio am gadair amryw weithiau,—am "gadair genedlaethol" rai gweithiau. Ac nid oedd ymhell oddiwrth y goreu yr un tro; bu yn ail, ac ail agos, amryw droion. Mae'n debyg mai ei agosrwydd i'r gamp a barai iddo gynnyg mor ddiildio. Mae'n debyg hefyd mai swyn y gadair a barodd iddo ganu cymaint yn y mesurau caethion. Ond gwn fod yn y cynghaneddion ryw gyfaredd iddo o ddechreu ei ymwneyd â barddoniaeth i'r diwedd, yn annibynnol ar y gadair a'r eisteddfod. Yr wyf yn credu hefyd, nid yn unig nad oedd faws na dwys fesur o un baich i'w awen bur, ond mai mewn cynghanedd y gallai ganu oreu. Beth bynnag am hynny, yn y cynghaneddion y *canodd* efe oreu. 'Roedd hyn yn bod o herwydd arfer, fe allai. Mae'n anhawdd meddwl nad i ryddid y galwyd yr awen, ac nad mewn mwy o ryddid nag y mae hi yn ei gael weithiau y canai yr awen Gymreig oreu—ond iddi gael tyfu mewn rhyddid o'i mhebyd.

Pa un bynnag ai mewn mydr rhydd ai mewn cynghanedd gaeth y canai Glan Llyfnwy, fe ganai yn esmwyth a naturiol bob amser. Fe ganai yn chwaethus a choeth hefyd. Ni welais ddim isel na salw o'i waith. Ni byddai yn ei oreu bob amser, mwy na rhyw brydydd arall, ac fe gaffai ambell faen anewisol ac anwastad, heb orffen ei naddu, fynd i'r adeilad ganddo pan mewn brys, neu wedi blino'n curo ar ddefnydd go anhydrin. Ond wrth edrych ar yr holl adeilad, ceid fod ol llaw fedrus i ffurfio a graenuso yn bur amlwg arno, ac hefyd ol meddwl abl i ddychmygu a chynllunio'n dda, ac i wybod am y defnyddiau priodol. A gadael y gymhariaeth yna, a'r naturioldeb a'r graen, peth arall nodweddol o hono yn ei farddoniaeth, fel yr awgrymwyd eisoes, ydyw dyfnder pur wastad a dwysder tawel, lleddf. Mae meddyliau dyfnion yn ddwys a lleddf bron bob amser. Rhowch y testyn fynnoch i un o arafwch a dyfnder meddwl Glan Llyfnwy, ac os bydd mynd i ddwysder a chyffwrdd tannau lleddf wrth ganu arno'n bosibl, yr ydych yn bur debyg o gael teimlo fod hynny'n cael ei wneyd. Felly yn enwedig os bydd y meddyliau a feddylir arno yn rhai trymion gan deimlad; mae pwys yn cynyrchu dwysder a lleddfdra yn naturiol. Fe ŵyr ei hen gyfeillion yn dda fod cryn lawer o'r peth a elwir *humour* yn natur Glan Llyfnwy, er yr holl

ddwysder. Ond ychydig o'r peth hwnnw, hyd y sylwais i, a gafodd fynegiant yn ei farddoniaeth, na lliwio nemawr ddim arno. Fe ddanghosodd, er hynny, rai troion, y gallai ganu yn hanner chwareus. Dyma engraifft, yn ei englyn i Lyn Tegid mewn ystorm,—

Ysgogiad pwysig eigion—wna Tegid
 A bront agweld weithion;
A dynwaryd, yn wron,
Osgoi'i dad a rhwysg ei don.

Dyma un arall, a chymysg deimladau ynddo, i'r "Sêt Fawr oer,"—

Er siarad â gwres-eiriau—uwch y sedd
 Ni chlywch swn teimladau;
Yr oera o bob rhyw oer bau
Yw mynwent "yr hen amenau."

Ac y mae pertrwydd a *humour* yn yr englyn naturiol hwn i Garn Fadryn, mynydd uchaf Lleyn,—

O'r nef edrych Carn Fadryn—i wylio
 Tawelwch Llaniestyn;
Ei henwog, gaerog goryn
Yw uchder llwch daear Lleyn.

Ond canu dwys a difrif, canu'n llifo'n drwm ac araf, oedd ei ganu ef yn gyffredin. Fe gafodd destyn englyn wrth ei fodd gan bwyllgor Eisteddfod Genhedlaethol 1881— "Yr Ywen," ac fe enillodd er gwaethaf 117 wrth ganu arno, gyda'r englyn hwn,—

Werdd Ywen hen, arddun yw,—cysgodfa
 Cwsg-adfail dynolryw;
Wrth y bedd, fel hiraeth byw,
Dwys warcheidwad Serch ydyw.

Nid wyf yn ameu nad yn lled ddwys a difrif y buasai Glan Llyfnwy yn canu pe heb gael argyhoeddiad ysbrydol; ond fe roes yr argyhoeddiad hwnnw gyweirnod a thôn bendant, sefydlog i'w holl deimlad a'i holl feddwl. Methai beidio edrych yn ol yn fynych, ond bob tro y gwnai yr oedd yn gallu troi i edrych ymlaen. A sawl gwaith y cawn ef yn y denfor-gyfarfod o feddwl a theimlad! Ni a'i cawn yn dweyd ei brofiad fel hyn untro,—

O gorsydd afiach, lleidiog llygredigaeth
 Ymgyfyd tarth adgofion
 Am hen bechodau duon
Yn llawn o dân-elfennau'r ail farwolaeth.

Ai tybed fod gwefr-gwmwl llidiog, llwythog
 Y gosbedigaeth ddwyfol
 A'i phoenau anorffennol
Yn ymgrynhoi yn awyr f'enaid euog?

Ai ynte sugn-dyniad Haul Cyfiawnder
 Sy'n sugno llygredigaeth
 A nwyon fy annuwiaeth,
Mewn trefn i buro'm natur hyd ei dyfnder?

Mae dyfnaf, angerddolaf ddyheadau
 Fy ysbryd yn awyddu
 Am weld gogoniant Iesu,
A byw'n dragwyddol dan ei dywyniadau.

Ac meddai dro arall, pan yn canu am "Gymhorth Cyfamserol,"—

Yng ngoleu llusern cof,
 Pan fyddo'm herch orffennol
Yn llanw'm bron â braw,
 Llaw wen trugaredd ddwyfol
Dynn drosto len anfeidrol iawn,
Ac arni'n glir, "Maddeuant llawn."

Wn i ddim a gaf ganiatad y Golygydd i fynd a darllenwyr ei lyfr am dro brysiog trwy ddwy neu dair o awdlau Glan Llyfnwy. Os na bydd foddlon caiff dynnu'r llidiart i gau yn y fan hon.

* * *

Awdl ddymunol o'i waith ydyw awdl "Gobaith," gyda'r hon yr oedd yn bur agos i Dafolog y buddugwr yn Eisteddfod Genhedlaethol Caernarfon. Mae yn holi Gobaith yn bur ddeheuig a phriodol yn y dechreu,—

Obaith teg, pa beth wyt ti?—ai angel
 Yn yngan daioni,
I lanw oll fy nghalon i
Ag awyddiad a gweddi?

Yna mae yn dweyd wrtho beth ydyw,—

Arddodwr addewidion—teg ydwyt,
 A godant ddisgwylion
Ynnwyf fi, gan greu nef-aidd
Angylaidd yn fy nghalon.

Ac ymlaen wedi hynny y mae yn dweyd wrth ei ddarllenwyr beth ydyw gobaith,—

Sibrwd Duw yn ysbryd dyn
I'w galonnog gêl emyn
A gair a'i dwg ar ei daith
Aniben, yw ei obaith.

Dywed yn fedrus am waith gobaith yng nghalon byddin,—

A drwy galonnau i'w dirgel annog;
A'i ddawn a orfydd y fyddin arfog.

A thyma ddweyd naturiol am obaith yr amaethwr,—

Wedi hollol wneyd ei allu,—ei waith
 Yw gobeithiol gredu
O hyd y caiff ei had cu
Ofal dwyfol i'w dyfu.

Am wybod mai ei obaith—a gweled
 Rhagolwg yr effaith:
Allan os a, syllu'n syn
Am eginyn mae ganwaith.

Wele eto englyn tyner, tlws, a byw ei ddesgrifiad, ar farwolaeth y fun wanllyd, wyw, ag y dywedasai am dani,

A hyder edrych ymlaen trwy wydrau
Anwyl obeithion am swynol bethau,—

Hon a hunodd dan wenu,—heb wybod,
 Fel baban yn cysgu;
Diweddaf air ei dydd fu—gair gweniaith
Y dirgel obaith o draw a glybu.

Daw cyn y diwedd i son am y gobaith hwnnw sydd râs, neu am râs gobaith, ac fel hyn y dywed am dano,—

Os gwybod am râs gobaith
A fyn dyn o fewn ei daith,
Gorseddu yr Iesu raid
Yn atynnol bwynt enaid.

Y mae ei awdl ar "Noddfa" o fy mlaen, yr hon a anfonodd i Eisteddfod Dalaethol Gwynedd a gynhaliwyd ym Mhwllheli, pryd yr enillodd Dyfed y gadair, gyda Glan Llyfnwy "ar ei sodlau." Mi a glywais gyfeillion iddo ef a minnau'n dweyd fod ganddo feddwl pur fawr o'r awdl fechan hon, a'i fod braidd yn grwgnach oherwydd gwaith y beirniad yn galw sylw'n gondemniol at y ffaith fod darnau ar "obaith" yn yr awdl. Rhaid i mi ddweyd nad yw yn agos cystal gennyf fi a rhai o'i awdlau ereill, ac mai cyfiawn oedd cwyn y beirniaid. Y mae ynddi fwy nag a ddisgwyliaswn i o'i awdl ar obaith. Ar yr un pryd rhaid i bawb gydnabod ei bod yn awdl fach dda. Ond amlwg yw mai ar frys y gwnaeth efe hi, fel y clywais Ddyfed yn dweyd y gwnaeth yntau ei awdl. Wele un englyn o ddechreu'r awdl,—

Duw Iôr gawn o du'r gweiniaid,—i'w hachub
Rhag gorthrechol niwaid;
Noddfa Natur bur, heb baid,—mewn brwydrau
Egyr ei dorau i'w greaduriaid.

Ac fel hyn y dywed yn agos i'w diwedd, wrth ddesgrifio'r Cristion yn marw,—

Yn ei fynwes nef wena;—cyn ei fynd
Cana fawl ei Noddfa:
Dringo'n uwch drwy angau wna,
A dargenfydd dir Gwynfa.

Yn ol fy marn i, un o'i awdlau goreu, os nad yr oreu oll, er gwaethaf y tramynychu "hon" ag y cwynai y beirniaid o'i herwydd, yw ei awdl i'r frenhines Victoria, yr hon oedd yn ail i awdl fuddugol Berw yn "Eisteddfod fawr Caerludd." Ni ddyfynnaf gymaint o honi ag a fwriedais wneyd, rhag ehwyddo gormod ar yr ysgrif, ac am ei bod wedi ei chyhoeddi yn llyfryn chwech, na wnaeth yr awdwr odid ddim ymdrech i'w werthu.* Hawdd gennyf gredu, er ei fod yn werinol ei deimlad, fel llawer o feirdd Cymru, ei fod yn canmol hen frenhines dda Prydein yn gywir ddi-ragrith.

Gwroniaid teyrngar anian
Yw gwledig wŷr "Gwlad y Gân,"

medd efe yn nechreu yr Awdl. A thyna'r gwir, a'r gwir am y bardd Glan Llyfnwy pan oedd. Yn ei ddesgrifiad o deimlad Victoria ieuanc wrth ymgymeryd â'r frenhiniaeth dywed fel hyn,—

Ar ei henaid morwynol—y gwasga
Dwfn gysgod dyfodol
Orlwythir gan ddirlethol—fawr bryder,
Ac ofnau a hyder cyfnewidiol!

Danynt y lili dyner—wyra'i phen
Drwy ei ffydd mewn gwylder;
A'i roi a wna ar fron Nêr,—
Ar Dduwdod rhydd ei hyder!

I ddathlu ei phriodas ag Albert Dda,

Goleuo ceir y gwawl coedd
Nes di-nosi dinasoedd!

Wrth son am ei llywodraeth gartref dywed y bardd,—

O mor fwyn y mae'r fanon—trwy wên swyn
Yn trin serch gweinyddion!
Ar ei thŷ llywodraeth hon,—mae'n amlwg,
A draidd i'r golwg hyd wreiddiau'r galon.

Ar ei haelwyd rheoli—y mae hon
Yng ngrym hawl daioni;
Ei chyfiawn arch a fyn hi,
A diwygiad di-wegi.

(Gresyn na fuasai ei hawdurdod honno wedi para'n hwy!) Cyfeiria, mewn modd gwir farddonol, at hoffder ein brenhines o neillduedd,—hoffder, fel y crybwyllwyd, ag y gwyddaiyntau yn dda am dano,—

'E gâr hon gyrrau unig,—dyeithrol,
Gwlad uthredd mawreddig;
A hardd drem yr hedd a drig
Mewn neuaddau mynyddig.

Am ei byddin a'i llynges dywed wrth Victoria,—

Ti, Fuddug, wyt etifeddes—byddin
Fwyaf beiddiol hanes;
Anibynnol unbennes—eigionau,
A deheulaw angau, yw dy lynges

Ac wrth son am eiddigedd gorsedd Pryden dros gyfiawnder a barn, dywed,—

Llaw gadarn ei gallu goda—uwch ben
Teyrnach byd a'u traha;
Ei llengoedd a ollynga—fel llewod,
A grymus ddyrnod pob gormes ddarnia!

Ond rhaid brysio i gael trem cyn diweddu'r ysgrif ar ei awdl i'r haul—ei awdl olaf, ag yr aeth ymaith cyn ei gorffen. Yr oedd wedi ysgrifennu yn agos i nifer digonol o linellau, ond eu bod yn eu stâd greadigol gyntaf, yn dryblith heb ei ddwyn i drefn. Mae'n bur sier pe yn cael byw y buasai yn cynhyrchu llawer chwaneg o linellau, ac yn yn dethol a threfnu y nifer gofynnol i'w hanfon i gystadleuaeth fawr Abertawe. Gan ei fod wedi ysgrifennu cymaint, fe farnwyd yn briodol ceisio gwneyd rhyw drefn ar hynny a'i anfon i'r gystadleuaeth. Fe wnaeth hen gyfaill y bardd, Hywel Tudur, hynny o orchwyl yn y modd goreu posibl yn hynny bach o amser oedd at y gwaith. Nis gwn i amcan ym mha le y safai yr awdl anaddfed hon yn y gystadleuaeth. Y mae ynddi rai darnau

* Twy'n meddwl fod nifer da o gopiau ar law gan ei briod yn yr Hen Dŷ, Clynog.

gwir dda. Un o'r pethau cyntaf a ysgrifennodd ar y testun yw yr englyn hwn, lle sonnir am yr haul fel rhoddwr,—

Cywiraf arlun cariad—yw efe,
Rhoi a fyn yn wastad;
Bydoedd yn ei danbeidiad
A welant oll galon tad.

Pwy allasai roi hyn o anianyddiaeth yr haul yn fwy cryno a tharawiadol mewn unrhyw ddull o fynegi?—

Elfennau mwnau dymunol—gelir
Yn ei galon ysol;
Ofnadwy dyrfa nwydol
O nwyau geir yn ei gôl.

Fel hyn y dywedir yn yr awdl am yr haul yn deffro a rhyddhau natur,—

Mwyn agor dorau mân greaduriaid
Y mae â thwymnol ac esmwyth amnaid;
Ei wŷs gwyd yrroedd o gysgaduriaid,
A'i hoen fywiola yr anifeiliaid;
Difyr ddihuno'r defaid—a'r ŵyn llon
A'i bur acenion mae'r borau cannaid.

Croesaw yr adar,—

A thlysion ystwyth leisiau—y pyncia
Y penceirdd ben borau;
I'r huan sydd ar nesau, trwy'r wig werdd
Yn hwylio u cynghercdd cawn hil y cangau.

Alaw y bugail,—

Bywiog alaw'r bugeilydd,—mal asbri
Mawl-ysbryd y mynydd,
Hyd dyner dwym dannau'r dydd
Red i gwrdd â gwrid gwawrddydd.

Yr haul yn machlud,—

Mud wenu y mae dy wyneb—hoff, fel
O ffin fragwyddoldeb;
Ni roi yn wir air i neb,—
Duw a etyl dy ateb.

Anwyled yw gwên olaf
Huan yr hwyr yn yr haf!
O'r gorwel y gyr gariad
Yn aur lif hyd fannau'r wlad.

Yr wyf yn meddwl mai y pedair llinell canlynol yw y llinellau olaf o farddoniaeth a wnaeth Glan Llyfnwy yn y byd yma. Cyfeirio y mae ynddynt at ymddanghosiad yr haul yn y bore, a'i apêl dyner, sancteiddiol,—

Cusan Nâf i'n ceisio'n ol
Sy ar wefus wyryfol
Ei nef-lanaf oleuni,
A dwyfol nerth deill i ni.

Methwn a pheidio gresynu tipyn na fuasai bardd mor dda a Glan Llyfnwy wedi cael cadair deilwng, gan ei fod wedi meddwl cymaint am un. Ond erbyn hyn y mae hynny yn beth mwy dibwys yn ei olwg yn ddiau nag oedd gynt. Un rheswm—a rheswm go fawr mae'n debyg, gan y dygid ef ymlaen gan ei holl feirniaid—oedd, ei fod yn canu yn rhy wastad, dim digon o amrywiaeth o ddwfn ac uchel yn ei waith. Ac mi dybiaf fod honyna yn feirniadaeth led gywir,—y teimla pawb a sylwo ar ei farddoniaeth ei fod yn llifo ymlaen yn debycach i'r afon ddofn, lefn, dawel, nag i'r afon amrywiol a rhaiadrau ynddi.

Mi a derfynaf hyn o ysgrif gyda thri o'i englynion i'r bedd, a wnaeth lawer blwyddyn yn ol, sydd yn fwy tarawiadol erbyn heddyw,—

Yn ei fynwes caf ennyd—o dawel
Ymneilldnaeth hyfryd;
Ystafell ddistaw hefyd,
A gwely bach o glyw byd.

Ar gynhwrf bore ganu—dydd y farn
Dedwydd fydd dadebru,—
Gwrando seiniau lleisiau'r llu
Angylaidd o fy ngwely.

Ar wysiawg lef yr Iesu glân,—wele,
Daw'r marwolion allan;
Awn i gyd yn swn y gân
I'r awyr mewn goroian.

ALAFON.

---

## OS WYT BRUDD.

(Cyfieithiad o "*Art thou weary.*")

I.

"Os wyt brudd, ac yn lluddedig,
Gyda chalon flin,
"Tyred ataf Fi, ymorffwys,"
Meddai Un.

II.

"A oes nodau im adnabod
Fy Arweinydd gwiw?"
'Ol yr hoelion ym mhob aelod,
Ystlys friw!'

III.

"A oes ar ei ben urddasol
Freiniol goron gain?"
"Oes, yn wir, mae arno goron,—
Coron ddrain!"

IV.

"Os dilynaf Ef, oes gwobr
Im am gario'r groes?"
"Llawer deigryn, llawer adfyd,
Llawer loes!"

V.

"Ac os glynaf wrtho'n ffyddlon
Beth fydd 'r ochor draw?"
"Buddugoliaeth ar bob gelyn,
Poen, a braw!"

VI.


"Os gofynnaf iddo'm derbyn
A wna ef nacau?"
"Na, yn wir, tra nef a daear
Yn parhau!"

*Casnewydd.* R. L. DAVIES.

A1

# Y MARWNADAU.*

## II.



GALON llenyddiaeth Cymru ydyw cân ei chrefydd. Dyma gân ei chaniadau hi. Emynnau ei haddoldai yw emynnau gore'r byd, heb eithrio emynnau'r ffoadur Marot nac emynnau brenhines Navarre. Weithiau gwelir yr awen yn gadael yr addoldy, ac yn rhoi tro trwy'r fynwent, ymysg y cypreswydd a'r yw. Y mae tân a swyn yr emyn byw mewn llawer un o farwnadau'r Diwygiad, er fod marwnadau'r ganrif o'r blaen mor oer a'r fynwent ei hun. Nid anifyr, hwyrach, fyddai rhoi tro unwaith eto trwy'r yw. Nid ydyw'r marwnadau'n brudd-der digymysg; y mae'r gedrwydden ddu freuddwydiol yn brydferth, er mor bruddglwyfus, yng nghanol coedwig werdd.

Rhwng dechreu'r ganrif ddiweddaf a'n hamser ni, pan y mae canrif arall yn tynnu at ei therfyn, y mae'r farwnad wedi adfywio, wedi blodeuo, ac wedi dechreu ail wywo. Yn ystod y ddeunawfed ganrif ceir y farwnad gelfyddydol, rhyw ddynwarediad eiddil o farwnadau Dafydd ab Gwilym a Thudur Aled. Yn ystod ail hanner y ganrif daw marwnadau ag arwyddion adfywiad arnynt, wedi eu canu ar fesurau poblogaidd,—gwaith Morgan Rhys a Dafydd William o Landeilo Fach. Cyn i'r ganrif orffen daeth to o farwnadwyr eneiniog, i wneyd y farwnad yn fyw,—Williams Pantycelyn yn bennaf un. Yn nechreu a chanol y ganrif hon cyrhaeddodd y farwnad ei pherffeithrwydd, — priodwyd pethau gore'r marwnadwyr o'r blaen gan Sion Lleyn, Gomer, Eryron Gwyllt Walia, Alun, Eben Fardd, Ambrose, a Gwilym Hiraethog. Wedi eu marw hwy dechreuodd y farwnad ail wywo. Er fod adlais o'r hen farwnadau ynddynt, rhyddiaith wedi ei odli'n drwsgl ydyw y rhan fwyaf o'n marwnadu ni. Fel yr oedd marwnadu dechreu'r ganrif yn adlais gwan o'r marwnadu fu; felly y mae ein marwnadu ninnau yn adlais gwan o seiniau sydd eto yn ein clustiau. Mor bell ag y mae a fynnom â hanes marwnadau y ddwy ganrif hyn, gallwn bron ddweyd mai fel yr oedd yn y dechreu y mae yr awr hon.

Yn y cyfnod cyntaf a enwais nid oes llais, dim ond adlais; nid oes goleu haul, dim ond goleu benthyg ser. Y mae haul Tudur Aled wedi machlud, a lloer Huw Morus, nid oes yn yr awyr ddu ond ambell seren fach oer. Mewn llawysgrif y mae y rhan fwyaf o'r marwnadau ganwyd yn ystod hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, yn llawysgrif berffeithdlos yr oes honno; ac mewn llawysgrif y byddant hyd nes y daw rhyw gyfnewidiad mawr dros feddwl a chwaeth Cymru. Wrth glywed cleciadau undonog y gynghanedd, wrth geisio dyfalu ystyr geiriau nad oes ystyr iddynt, wrth bensynnu uwch ben geiriau llanw, anghofir yr hiraeth yn lân. Meddwl, ddarllennydd, am yr amynedd y rhaid wrtho i ddarllen tudalennau meithion o farwnadu fel hyn,—

"Nid oes yn awr, dirfawr daith,
Mewn toriad im ond hiraith;
Na mwynder na phleser fflwch,
Da fwriad, na difyrrwch;
Na llawenydd dedwydd da,
Dwys amod, nid oes yma;
Na chysur wiwbur obaith,
Na chynghorion, dirion daith;
Na chyfeillion gwiwlon gwâr,
Lles odiaeth, na llais adar;
Na hawddgarwch, clydwch clau,
Enwog adlais nag odlau;
Na miwsig na ffrolig ffri,
Na llinos yn y llwyni."

Undonog fel anialwch o gerrig mân yw'r marwnadu hwn, nid oes aber na choeden werdd yn un man. Adroddir brawddegau di ystyr am wahanol bobl, ac yr ydym yn

* *Prif Ddifyrrwch y Cymro.* O waith John Williams. 1763. MS.
*Gweithiau Rhobert Wiliam y Pandy.* 1768–1811. MS.
*Gweithiau Goronwy Owen.* Gan y Parch. Robert Jones, Rotherhithe. Longmans a Foulkes, Lerpwl.
*Casgliad o Farwnadau.* Gan y Parch T. Levi. Hughes, Gwrecsam, 1872.
*Gweithiau Williams Pant y Celyn.* Gan Dr. Cynhafal Jones. Casnewydd, W. Jones.
*Gweithiau Alun.* Foulkes, Lerpwl.
*Gardd Eifion.* Foulkes, Lerpwl.
*Hiraethus Fyfyrdodau.* Y Parch G. Williams, Talsarnau. 1871.
*Marwnad Dr. Edwards.* Huw Myfyr. Y Bala, Davies ac Evans.
*Marwnad y Parch. T. Jerman Jones.* Gan y Parch. J. E. Davies, M.A. Casnewydd, W. Jones.
*Gweithiau Ceiriog.* Hughes, Gwrecsam: Foulkes, Lerpwl.

dyhen am ryw doriad yn y gynghanedd sydd wedi eu blino'n lân. Gwneir pawb yn debyg i'w gilydd fel rhes o gerrig beddau; rhoddir yr un hanes i bawb,—y person a'r ynad, y prydydd a'r cymydog,—a dywedir fod pawb yn mynd i'r nefoedd gyhoedd gân, lwys araul i lys eirian. Anenwog ac anyddorol ydyw pawb y cenir am dano,—

"Nid oes, lle bu yn gu gynt,
Alar am un o honynt."

Yr unig fod sy'n ennyn ein dyddordeb ydyw Angau, prin yr ydym yn digio wrtho am dorri prydyddion yr oes honno i lawr,—

"Sawdwr wyd arw a sydyn,
Difrod serth yn dy fryd syn."

Byddai marw rhyw Hywel o ysgweier, dyweder. Byddai'n rhaid cynghanedd,—rhaid mawr prydyddion y ganrif,—dweyd am "Hywel odiaeth" mai "da ydyw." Ni wyddai neb ond ei gŵn hela golli Hywel, ac eto cyhuddir Angau ei fod wedi hyll wanu holl Wynedd, wedi torri muriau tir Meirion, wedi peri hyll gur i'w holl geraint a chwerw alar i'w chwaer eilwaith. Ni chlywyd erioed am Hywel y tu allan i'w blwy, ond dywedir mai oer yw dadwrdd Ardudwy, a chyhoeddir och lydan o'i fachludaw, a naw och am i fwynder byd fynd i'r bedd. Wedi dwrdio Angau am y "dwys d'rawiad i'n distrywiaw" gofyn y marwnadwr ple mae rhuddyn brigin bro, a'i tybed ei fynd heibio. Clywais am hen farwnadwr wedi nogio* ar ol ysgrifennu'r llinell gyntaf o gywydd marwnad am Syr Wateyn,—

"Syr Watcin, brigin bro."

Gofynnodd i wr o athrylith wyllt sut yr ai ymlaen; ac ebe hwnnw,—

—"un brith,
Yn brathu ac yn cicio."

Cynghaneddu oedd y peth mawr, nid oedd waeth am bwy; y mae'r bardd yn dweyd yr un peth am ei hiraeth am faban blwydd ac am hen wr cant, am ei fam ac am wr nas gwelodd erioed. Y mae yr un faint yn union o eneiniad arno pan yn dweyd ei hiraeth a phan yn ysgrifennu dyddiad marwolaeth yr un y cynghanedda am dano,—

"Mil seithgant, moliant miloedd,
A thrigain wiw gain ar goedd,
A dwyflwydd, eu wiwlwydd, cawn
Cofir am oed y cyfiawn."

Hyd yn nod wrth ddweyd yr amser, teimlir yr adfywiad yn marwnadau'r cyfnod nesaf,—

"William Williams wnaeth y gwersi,
'Roedd ef yn ei charu'n fawr;
Ddechreu'r nos, mewn fflam o hiraeth,
Rhodd ei bin sgrifennu i lawr;
Ni orffwysodd ef, ond rhedeg
Yn ddiaros yn y bla'n,
Nes oedd tri o'r gloch y bore
Yn gwneyd terfyn ar y gân."

Ni wadaf nad ydyw Rhys Jones, John Williams, Dafydd Elis a'u cyd feirddiaeth yn medru dynwared yr hen farwnadwyr yn gelfydd weithiau; ond, yng ngeiriau John Williams,—

"Mae'r adar llafar eu llais
A'u eu odlau eanadlais?
Mae'r heulwen glirwen glaerwych,
A'i thes oedd gynnes a gwych?
Mae M'redydd burffydd berffaith,
Mawr iawn wr, a'i marw wnaeth?"

Ond nid oes dim gwreiddiol yn eu cân, dim hyfrydwch i sant na phechadur. Os ydynt wedi myned "i Baradwys i brydu," y mae erbyn hyn yn sicr rywbeth newydd yn eu cân. Diolchant bob un i Dduw am yr awen, ond eu cri ddylasai fod,—

"Gwae ni yn awr gan fawr feth."

Yng nghanol y swn oer hwn clywyd llef hir aeth byw Cymro crwydredig, Goronwy'n wylo am ei blentyn Elin, ac heb fynnu ei gysuro,—

"Am anwyl eiriau mwynion—a ddywaid,
A'i heiddil gannaid ddwylo gwynion."

A raid rhestru awdwr "Beibl i bawb o bobl y byd" gyda marwnadwyr y ddeunawfed ganrif? Gyda hwynt y rhestrai Rhobert Wiliam ei hun, oherwydd dyma ei ddarluniad o fardd,—

"Ei gynghanedd rwyddedd rôl
Mewn toriad mwyn naturiol;
Plethiadau ag odlau i gyd,
Cyf'reddol mewn cyf'rwyddyd;
Ei waith sydd, wiw eitha sain,
Yn gwirio ei fod yn gywrain;
Englynion mwynion i'n mysg,
Cywyddau mewn eu addysg,
Awdlau iawn cyflawn coeth,
A'i gerddi yn gywirddoeth;
Carolau cywir eilwaith,
Sain ar goedd, synwyr ag iaith
A'i law wastad, rhediad rhydd,
Fanwl o ysgrifennydd."

Y mae yntau'n son am roi meini'r iaith mewn cerfiad mwyn cywirfaith, ac yn son am fardd fel mwyn ciliwr y manylwaith. Yr un ydyw cynnwys ei fawrnadau a'u marwnadau hwythau,—drycin oer; deffro clychau prudd; ymosod ar Angau, dirwynwr edau'r einioes, a gofyn pa waredydd y sydd siwr o ddwylaw'r hen ddialydd; darluniad o'r gŵr fu farw, a'i alw'n eryr, yn alarch, neu yn walch; ac ychydig linellau ar y diwedd i ddynwared udgyrn a thelynau. "Exit, flourish of trumpets,"—a dyna'r farwnad ar ben.

Hoff bwnc Rhobet Wiliam ydyw cydraddoldeb dynion, dywed ym mhob marwnad fel y mae Angau'n dod a phawb i'r un fan,—

"Gwyr mawrion, beilchion y byd,
Gwyrant bawb i'r gweryd,
Y cyfoethog cefnog call
A'i dynged fel tlawd anghall,

*Prin y mae'r gair hwn yn deilwng i ddarlunio bardd yn cywyddu. Am hen geffyl yn methu tynnu llwyth y defnyddir ef.—Gol.

A gwerin o bob goror
Yn feirw fydd o fôr i fôr;
Cryf a gwan yn'r un fan fydd,
Fe'u gwelir efo'u gilydd,
'R un llety, gwely gwaeledd,
I'r doeth a'r annoeth'r un wedd;
Llwch daear, fyddar foddion,
Pridd, pridd, yn cuddio pob bron."

Y mae Rhobet Wiliam yn onestach na llawer o'i gyd gynghaneddwyr hefyd. Dywed am un y galara ar ei ol,—

"Ceid ganddo win a chiniaw,
Yn ddi lid o'i ddeau law;
A'i weddus fir i'w addef
I feirdd oedd ar ei fwrdd ef."

Dywed am fardd oedd wedi ei yrru i bennyd wasanaeth,—

"Trosglwyddwyd, gyrrwyd yn gaeth,
Dros foroedd am draws fariaeth."

Canodd Rhobet Wiliam farwnadau lawer ar donau poblogaidd, ac y mae hen bobl yn hoff o'u canu eto,—Charity Mistress, Gwel yr Adeilad, Bryniau'r Iwerddon, Tincian y Gloch. Dyma un pennill ar Dincian y Gloch,—

"Clowch, clowch; fy ngharedigion dewrion dowch,
Wrth gael rhybuddion trymion trowch
I'r noddfa ffowch drwy ffydd.
Y brenin Ange, geirie gwir, sydd uwch ein penne
a'i gledde'n glir,
Mae wedi ei hogi i'n torri o'n tir,
Ni oll a fernir, felly fydd;
Gwyn fyd yr hwn a gafodd gred,
Bydd brenin Nef a'i freichie ar led,
Ac yno y rhed heb gŵyn yn rhydd."

Ni rof esiampl o'i waith ar dôn Gwel yr Adeilad, oherwydd fod Dafydd Ddu Eryri wedi canu gymaint yn well arni; ond dyma ddau bennill o farwnad merch ieuanc, ar Fryniau'r Iwerddon,—

"Y rhai sy'n hau mewn dagrau a fedant eto'n
llon;
Yr hwn sy'n myned rhagddo gan wylo'n brudd
ei fron
Gan ddyfod daw'n y diwedd, gorfoledd weddedd
wawr,
Gan gludo ei ysgubau tuag adre, modde mawr.

"Yn awr drwy ddrych y gwelwn, ac ni chan-
fyddwn fawr,
Ond gwelwn yna'n burach ddisgleiriach gwyn-
nach gwawr;
O ran yr adwaen hefyd, yn awr mewn byd
'rwy'n byw,
Ond yna yr adnabyddaf wynepryd pur fy Nuw."

Y mae adlais o'i emynnau yn hon, ac o'r ysbryd newydd; ond nid hoff gennyf farwnadau Rhobet Wiliam. Dywedaf am danynt, fel am y rhai aeth o'u blaen, ei eiriau ef ei hun,—

"Rhyw arw gân, rhy oer genni,
Fwrn tost, yw dy farwnad di."

Os trown o'r Gogledd oer i'r De, cawn ddau brydydd yn nyffryn y Tywi dan ddylanwad diamheuol yr ysbryd newydd,—Morgan Rhys a Dafydd Wiliam o Landeilo Fach. Y mae sain newydd, sain afiaethus gorfoledd, ym marwnadau Morgan Rhys,—

"Nes bai meibion hen Merari
Oll ar dannau'n peraidd ganu,
A'u traed yn chware o flaen yr arch
Yn rhoddi parch i'r Iesu."

Eto nid eneiniad sydd yn eu gwneyd yn swynol, ond eu cadernid. Felly hefyd y gellir dweyd am ei emynau,—"Cadben mawr ein hiachawdwriaeth," "O agor fy llygaid i weled," "Dyma geidwad i'r colledig," "Peraidd ganodd ser y bore," a llawer ereill,—y maent yn gadarn a chyflawn a manwl; ond ni feddant swyn a thân emynnau Williams. Y mae Morgan Rhys a Dafydd Wiliam, awdwr "Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau," bron a gadael cyfnod y farwnad sech gynghaneddol, ac ar drothwy'r farwnad eneiniedig.

Williams Pant y Celyn yw marwnadwr mwyaf swynol Cymru, efe yw cynrychiolydd gore'r farwnad eneiniedig. Wrth ddod ato ef yr ydym yn anadlu awyr newydd. Llawer gwaith y bum yn teithio drwy dynel oer, a'i ochrau undonog o briddfeini unlliw, a'r rheiliau'n adlewyrchu golen oer ar y lampau huddyglyd oleuai'r tynel, a'r un faint o bellder rhwng pob dwy lamp, a rhwng y rheiliau; ac wrth adael tynel fel hyn ymagorai gwlad ogoneddus o'm blaen, gwlad gynnes lawn blodau. Felly y byddaf yn teimlo wrth adael marwnad gynghaneddol y ddeunawfed ganrif a dod at farwnadau Williams Pant y Celyn. Y mae ynddynt ddefnydd newydd a bywyd newydd. Y mae'r gynghanedd wedi mynd, a'r geiriau llanw gyda hi; a rhes o benillion amhosibl eu hanghofio wedi cymeryd ei lle. Y mae'r geiriau mawrion geiriadur wedi mynd, a geiriau llafar gwlad wedi cymeryd eu lle. Yr oedd gwaed yr hen farwnadwyr fel pe wedi fferru, canent dan rynnu, ond y mae Williams yn canu ar fore Mai. Y mae bywyd yn y farwnad, ac nid ydyw'r bedd yn oer mwy. Yr oedd y Diwygiad wedi deffro athrylith Cymru ac wedi newid gwedd Glyn Cysgod Angau. Prin y tybir mai am y bedd y mae'r marwnadwyr yn son mwy,—y mae glyn anial marwolaeth wedi troi'n llwybr i'r nefoedd, ac y mae chwaon cynnes esmwyth bywiol yn anadlu dros y bedd.

Y mae tarawiad newydd ym marwnadau Williams, tarawiad bardd yn lle clec y cynghaneddwr sych. Mor adfywiol ydyw ei alarganu am Rufudd Jones Llanddowror,—

"Cwympodd seren oleu hyfryd,
Hynod ym mhlith ser y ne,
Nes i'r lleill o'r ser i synnu,
*Ac mae t'wyllwch yn ei lle!*"

Pan gofiwn bryder Gruffydd Jones am y plant addysgai, ac am ffrwyth ei ysgolion a'i Feiblau, beth well fedrir ddweyd uwch ben ei fedd tawel na hyn,—

"Tra yn gorwedd yn y beddrod,
Fe addfeda'r meusydd ŷd;
Ac fe gesglir dy gynhauaf.
Erbyn delo'th lwch ynghyd."

Ac yn lle clusen brin rhyw yswain bach, yn lle desgrifiadau ystrydebol o hagrwch Angau, yn lle sierwydd fod pob ynad meddw a phob offeiriad di waith yn y nefoedd, cawn destynau newyddion,—

"Arfaeth fore tragwyddoldeb,
Ethol etifeddion ffydd,
Concwest Iesu ar Galfaria,
Hedd y saint, a'r farn a fydd."

Ond prif nodwedd marwnadau Williams ydyw yr eneiniad, y mynd, yr hwyl sydd ynddynt. Wrth siarad ag ysbryd gweinidog Anibynnol oedd wedi marw'n ieuanc, y mae hwyl ei bregethu yn ei alarnadu,—

"Grym y gwyntoedd, gwres y tymor,
Stormydd ar y bryniau mawr,
Wnaeth i'n crwyn ni'n llyn telynau,
Wnaeth i'n 'sgwyddau grymu i lawr."

"Ni chest ti na'r rhew na'r eira,
Ni chest ti na môr na bryn,
Gwynt o d'ochor heb ddim tonnau,
O'r dechreuad hyd yn hyn;
Awel beraidd ar y ddaear,
Haul yn t'wynnu'n hyfryd iawn,
O'r pryd gwawriodd goleu arnat,
Nes it orffwys hir brydnawn."

Nid cyfyngu cydymdeimlad wnaeth y Diwygiad, ond creu awydd am wasanaethu Cymru yn lle gwasanaethu plwy. Un o hoff bethau Williams ydyw daearyddiaeth Cymru,—

"Daeth y swn dros fryniau Dewi,
Megis fflam yn llosgi llin,
Nes dadseinio creigydd Tywi,
A hen Gapel Ystrad Ffin."

Edrych gyda hiraeth ymhellach na Chymru, "o'r Rheidol wyllt i Hafren dir," ymhellach na'r India fawr gyfoethog; dywed am un,—

"Yn ei llaw yng ngrym y dyfroedd,
'Roedd spienddrych gloew clir,
Trwyddo 'roedd hi'n gweld yn oleu
Wastad maith y bywyd dir."

Nid cuddio prydferthwch y ddaear wnaeth y Diwygiad chwaith, ond ei ddangos. Nid oes enw blodeuyn yn yr holl farwnadau cynghaneddol; ond yn awr,—dyma'r pinc, a thraw'r carnasiwn, dyma'r tiwlip hardd ei liw, dacw'r lili bereroglaidd, a braf mor ffrwythlawn ydyw'r yd.

Marwnad oreu Williams ydyw'r farwnad am Howel Harris. Y mae hon yn orlawn o deimlad, erfyniad plentyn ar ei dad oedd wedi ei adael. Rhoddir llais i'r mawr ofal calon oedd ym mysg y Methodistiaid adeg ymneillduad Harris,—

'Pan y llechaist mewn rhyw ogof,
Castell a ddyfeisiodd dyn,
Ac anghofiaist y ddiadell
Argyhoeddaist ti dy hun?

"Ai bugeilia cant o ddefaid,
O rai oerion, hesbion, sych,
Adeiladu iddynt balas,
A chorlannau trefnus gwych,—
Eteb seinio pur Efengyl,
Bloeddio'r iachawdwriaeth rydd
O Gaerlleon bell i Benfro,
O Gaergybi i Gaerdydd?"

Ond dywedir, mewn dagrau poethion teimlad brwd, fod y cwbl wedi ei faddeu, ac na sonir mwy ond am y Diwygiad trwyddo lanwodd Gymru lâs.

Llais y Diwygiad, yn holl amrywiaeth rhyfedd y teimladau cymysg ddeffrôdd, ydyw Williams Pant y Celyn,—

"Yno darfu taran Sinai,
Llais yr udgorn aethus cry,
Tân yn fflamio'n byst drwy'r wybr
Dew i entrych nefoedd fry;
Llais y delyn twyn ddihunodd,
Heddwch, heddwch, ydyw'r dôn,
Cariad mawr heb derfyn arno
At y croeshoeliedig Oen."

Nid ydyw eneiniad Williams ym marwnadau Thomas Jones o Ddinbych, er fod hwn yn dynwared iaith y Deheuwr yn aml. Ysgolhaig, nid bardd, oedd Thomas Jones: y mae ei ddarluniadau'n gywir ac yn fanwl, ond nid yn rhyw brydyddol iawn. Y mae gwirionedd rhyddiaeth yn ei farwnad am Williams,—

"Do, fe ganodd hymnau nefol,
Yn dra melus a phroffiadol;
Nid wrth fanwl drefn prydyddiaeth,
Ond trwy rin ysbrydol archwaeth;
Ysbryd nef oedd yn anadlu
Ar ei enaid er ei ddysgu; [feddu,—
Goleu ddawn, peraidd iawn, a gafodd lawn
'Nawr mae'n destun prudd i ganu,—
Claddwyd per Ganiedydd Cymru."

Y mae adlais gwan o awen Williams mewn llawer marwnadwr arall. Medd yr hen Ddafydd Cadwaladr newydd-deb ei ddawn,—ceisia dremio i ryfeddodau byd arall; a dywed, pan fu farw Charles o'r Bala,—

"Mae Affrica, yn swn y newydd syn,
A'i dagrau bron a gwneyd ei grudd yn wyn."

Mae myfyrdodau Richard Jones o'r Wern, wrth fyned heibio bedd Charles yn Llanecil, yn darawiadol iawn,—treio deffro'r cysgadur trwy ddweyd fod torfeydd newyddion yn canu am angau'r groes a fod nerth efengyl gras yn dryllio eilunod hyd eitha'r India'n wir, ond

"Rhy fach! rhy fach i agor dorau'r bedd,
I'n wên nid oes, mi welaf, ar dy wedd."

Ond tebycach i Williams ydyw Thomas Williams Bethesda, drowd oddiwrth y Methodistiaid at yr Anibynwyr am ei "Sabeliaeth." Pur ysgafn y sieryd am feibion Lefi; ac y

mae ei ysbryd wedi chwerwi, er y gofyn yn ei farwnad am Ddafydd Jones Llan Gan,—

"Fy hen frodyr, pam yr oeroedd
 Eich twymn gariad ataf ñ,
Sy'n eich caru yn helaethach,
 Er eich caru primnach chwi?"

Pan yn hen wr, wedi goroesi chwarter cyntaf y ganrif hon, canodd farwnad sydd fel marwnadau Williams ei hun,—adlais o hwyl a gorfoledd y Diwygiad. Yr oedd y testun wrth ei fodd, y Peter Williams wrthodwyd, fel yntau, ar gam,—

"Plant ei fam edrychai arno
 Fel rhyw estron dieithr iawn."

Y mae eneiniad rhyfedd, a chydymdeimlad byw, yn y desgrifiad rydd o'r erledigaeth ddioddefodd Peter Williams, pan siglwyd *urn* yr hen Sabellius yn ei wyneb lawer gwaith,—

"Gwelais ef ar amser hyfryd,
 Megis Job ym more 'i oed,
Llewyrch parch yn t'wynnu arno,
 Heb un cwmwl ar ei glod;
Ieuenctid iddo yn ymgrymu,
 Henaint iddo yn rhoi lle,
Pawb atalient eu 'madroddion,
 Tawent pan lefarai fe.

"Gwelais wedyn rai oedd iengach
 Nac efe o lawer iawn,
Llai mewn dysg a llai mewn profiad,
 Llai mewn deall, llai mewn dawn;
Rhai anenwog yn ei watwar,
 Fe eu gwatwar, fe eu cân
Yn lle'r parch, yn lle'r anrhydedd,
 Yn lle'r enw gâs e o'r bla'n."

Cyn i lawer o'r marwnadwyr a enwais dewi, clywyd sain newydd. Y mae'r eneiniad yn y farwnad fel o'r blaen, a'r tân hefyd; ond y mae rhyw goethder ynddi hefyd, rhyw brydferthwch ffurf. Ac arwydd ydyw hyn fod y Diwygiad a'r Deffroad,—y crefyddol a'r llenyddol,—yn ymbriodi. Ym marwnad Sion Lleyn am Robert Roberts Clynog y clywir y sain newydd gyntaf,—yr hen gynghanedd sech wedi ei hireiddo gan ysbryd cyfnod yr eneiniad,—

"Weithiau trwst taranau cryfion
 At arferion plant y llawr,
Nes bod torf yn gwyneb lasu
 O flaen mellt y Beibl mawr;
Dull y farn oedd yn ei eiriau,
 Barnwr wedi ymwisgo â llid,
Ei ysprydol ddarluniadau
 Lyncai i mewn y bobl i gyd.

"Ef yn chwys a'r dorf yn ddagrau,
 A swn telynau yn ei lef;
Er taranau, bu trueiniaid
 Mewn gwên yn yfed gwin y nef."

Y mae'r sain yn wannach yn Ifan Rhys wrth iddo ddarlunio Ebenezer Morris,—

"'Roedd ei lais fel udgorn arian,
 'Roedd fel taran ar ryw bryd,
'Roedd fel tannau telyn Dafydd,
 Nes yn ufudd fynd â 'mryd."

Dywed Dewi Ddu am lais udgorn arian yr un gŵr fod Sinai a Chalfaria'n llefaru bob yn ail; ac yn y farwnad ceir ysbryd byw barddoniaeth,—

"Ti ddaearen gadd y ddeurudd rodd angeu tan ei droed,
 A pheiriant yr ymadrodd rhyfeddaf fu erioed,
 'Rwy'n anobeithio gweled na chlywed neb o'r fath,
 Tr'wy'n croesi brig y tonnau, nes tiriwyf ar y tra'th."

Ym mysg y marwnadwyr llenyddol hyn clywir Eryron Gwyllt Walia'n galaru am ei fam, a Gomer yn torri ei galon ar ol ei fab Ieuan Ddu. Galarnad Gomer ydyw'r felusaf yn yr iaith, a'r lawnaf o deimlad,—

"Ow mor oer yw dy wefusau,
 Rhewa'th fysedd meinion mâd,
Gynt fu'n chware'r fwyn chwibanou
 I siriolion ty dy dad.

"Llama'r hydd dros froydd a bryniau
 Ffy'r cymylau gyda'r gwynt,
Hwylia'r llongau dros y weilgi,
 Llifa Tawy megis cynt;
Prynnu, gwerthu, adeiladu,
 Ymbriodi'n llon eu gwedd,
Wna trigolion ein byd bychan.
 Er bod Ieuan Ddu mewn bedd."

Yn y man daw tant siriolach,—

"Gwenau barai gwawr y borau,
 Hyfryd flodau gerddi Mai,
Purlwys addurn lili'r dyffryn,
 Rhosyn Saron purwyn crai;
Holl ogoniant a mawrwychedd
 Anian hafaidd, eurwedd, gu,
Arnynt oll rhagora, credaf,
 'N awr f'anwylaf Ieuan Ddu.

"Er distewi'i fwyn chwibanou
 Yn y fro anhylon hon,
Tannau'i delyn fyth a seinir
 Ganddo 'mrodir Canan lon;
Buddugoliaeth pen Calfaria
 Seinia'r dyrfa fawr ynghyd,
Pawb dan goron, pawb ar orsedd,
 Pawb ar agwedd Prynwr byd."

Cryfach, ond nid mor fwyn, ydyw galargan Eryron Gwyllt Walia am ei fam; teimla nad oes niwed iddi yn y glyn,—"am dy lwch mae llw'r cyfamod."

Gormod o hanes, peth ddylasai fod mewn rhyddiaeth ar waelod y ddalen, sydd ym marwnad Gwilym Hiraethog am Williams o'r Wern. Ond y mae rhyw nerth a naturioldeb rhyfedd trwy'r alarnad,—

"Dyma'r fan mae'r tafod hwnnw
 Gynt roi Gymru oll ar dân,
Wedi gloi yn fudan heddyw
 Yn isel fro y tywod mân;
Ar y wefus fu'n dyferu
 Geiriau fel y diliau mel,
Mae hyawdledd wedi fferru,
 Clai sydd arni, mae dan sel!"

Ac mor debyg i Hiraethog ydyw hon,—

"Nid oes genny ond gair i'w ddwedyd
 Wrthyt, Angau creulon mawr,

Hen anghenfil brwnt a gwaedlyd,
Ceir dy gopa dithau i lawr;
Dydd sy'n dod cawn weled claddu
Dy ysgerbwd hyll ei wedd,
Minnau ddeuaf yno i ganu
Haleliwia ar dy fedd"

Nis gallaf adael y cyfnod llenyddol heb enwi dwy farwnad arall,—marwnad Eben Fardd am John Elias, a marwnad Ambrose am Fichael Roberts Pwllheli. Ni fedr neb ddarllenno farwnad Eben Fardd anghofio'r desgrifiad o le gwag John Elias gyda'r gwylwyr ar y mur. Er iddo gael ei roddi ddegau o weithiau, nis gallaf beidio rhoddi'r darluniad o John Elias yn y pulpud,—

"Pan esgynnai i'r areithfa
Tawai myrddiwn ger ei fron,
A'i ddistaw wên yn creu teimladau,
Pob amrywiau, prudd neu lon;
Edrychai dro yn fud o amgylch
Ar y dyrfa fai ger llaw,—
Saethai 'i drem y fath ddylanwad
A roddai liaws yn ei law.

"Dwedai'r gair,—tynerai anian,
Lawr ai law,—ac wylai myrdd;
Gwrol wgai,—beilchion grynnent,
Gwelwai'r coegddyn ffol ei ffyrdd;
Ei law codai,—bloedd gorfoledd
A ddadseiniai trwy y llu
'Roedd hyd yn nod ei *atal dwedyd*
Yn gyfwng o hyawdledd cu."

Ambrose ydyw'r olaf o farwnadwyr yr oes aur. Ei farwnad am Fichael Roberts ydyw campwaith ei fywyd; ynglyn â hi y bydd ei enw byw. Rhydd sen i Awen Cymru am adael y bedd cyhyd,—

"Cenaist alarebau llyfnion
I rai dinod yn eu dydd,
Gwelaist gladdu Seraph Cymru
Heb un deigryn ar dy rudd."

Ac yna darlunia swyn a grym y pregethu rhyfedd hwnnw,—

"Drychfeddyliau yn disgleirio
Drwy'r ymadrodd treiddiol mwyn,
Nid oedd creigiau hen galonnau
Yn ymollwng dan y swyn."

Ni phaid a chrybwyll y cwmwl ddaeth dros feddwl y pregethwr,—y tad yng Nghrist yn troi'n blentyn, adeilad mor wych yn troi'n adfeilion. Wedi cystudd cymaint, y mae Ambrose yn llawenhau fod profiad orian prudd wedi darfod, er fod yr addewidion fel y mêl wedi distewi hefyd. Gwell oedd iddo gael gorffwys, ond mwyn i'w gyfeillion yw edrych ar ei fedd a chofio ei rym,—

"Nid oes niwed mewn taranau,
Y mellt distaw sydd yn lladd;
Yr oedd swn ei ddoniau esmwyth
Fel awelon rhwng y dail,
Medrai ysgwyd teimlad plentyn,
A'i gydwybod bob yn ail."

O farwnad gynghaneddol sech hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif daethom i farwnad eneiniedig hanner olaf y ganrif, ac o'r farwnad eneiniedig honno i farwnad lenyddol hanner cyntaf y ganrif hon. O farwnad dlos ei ffurf ond heb enaid, daethom i farwnad sy'n llawn enaid ond heb berffeithrwydd tlysni ffurf, ac o honno daethom at farwnad yn meddu enaid a ffurf. O fân feirddiach daethom at Williams Pant y Celyn, ac oddiwrth Williams Pant y Celyn at Ambrose ac Eben Fardd. O gysgadrwydd marw'r ddeunawfed ganrif daethom i'r Diwygiad, ac o'r Diwygiad i'r Deffroad.

Ac yn awr yr ydym mewn cyfnod newydd, ein cyfnod ein hun. Y mae teimlad y Diwygiad wedi oeri,—nid oes ond ffurf y farwnad lenyddol yn aros. Rhaid dweyd am farwnadau hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg,—o fanylwaith marwnad Huw Myfyr am Ddoctor Edwards i lawr at gyffredinol bethau odlog marwnad Onllwyn Brace am Henry Richard,—mai rhyddiaith wedi ei odli ydynt. Y mae pethau tarawiadol ym marwnad Gruffydd Williams Talsarnau am Edward Morgan y Dyffryn, ond pethau tarawiadol pregeth ydynt. Y mae pethau tarawiadol ym marwnad y Parch. J. E. Davies am Thomas Jerman Jones, ond pethau tarawiadol erthygl ydynt. Fel y darfyddodd marwnad Tudur Aled mewn cynghaneddion, y mae marwnad Williams Pant y Celyn yn darfod mewn rhyddiaeth.


A raid i'r Farwnad ddarfod, felly, cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Na, nid y farwnad ryddieithol fydd y farwnad olaf. Y mae bywyd i ddod eto iddi, pan ddechreuir canu'r farwnad wladgarol. Galared a alaro, llawenhaed a lawenhao, gwleidyddol a gwladgarol fydd bywyd Cymru gyda hyn.* A rhaid i fardd ganu cân ysbryd ei oes. Dyhead Cymru'n awr ydyw gwybod hanes ein hynafiaid; hoff beth Cymru ydyw canu, a chanu yn y cywair lleddf. Beth, felly, mor gydweddol ag ysbryd yr oes â marwnad wladgarol? Y mae Ceiriog wedi dechreu, y mae beirdd ereill yn dilyn ei ol, gan ganu am Lywelyn. Daw'r farwnad eto'n fyw, bydd canu gyda'r awel a wylo gyda'r awel eto,† a bydd bardd yn cyhoeddi mai tir sanctaidd ydyw pob glyn yng Nghymru,—

"Os caru cofio'r wyd
Am ddolydd Dyffryn Clwyd,
O cofia gofio'r dewr sy'n gorwedd dan dy droed."

* Gwel erthygl ragorol yn profi hyn gan W. Lewis Jones ar "Anghydffurfiaeth a'r Dyfodol yng Nghymru" yng *Nghenhinen* Gorffennaf 1891

† Gwel "Cwm Llywelyn" gan Edward Jenkins yng *Nghymru Fydd.* Cyf. iii.

# MYNYDDOEDD LLANBERIS.



BWLCH LLANBERIS.

SAIF Llanberis yng nghanol mynyddoedd Eryri. Treflan o gryn faintioli ydyw, wedi cyfodi megis mewn undydd unnos. Chwarelwyr gan mwyaf sydd yn byw yn y lle.

Nant neu ddyffryn ydyw'r ardal tuag wyth milldir o hyd,—o bont Pen y Llyn i Ben Pass; ac yn rhyw dri chwarter milldir o led yn y man lletaf. Saif y pentref tua naw milldir o Gaernarfon. Wrth deithio i fyny o'r dref honno, ar hyd y ffordd, denir i bentref Cwm y Glo, neu, yn ol esboniad y chwarelwyr, Cwm y Clo ar y fynedfa i'r nant y mae Llanberis ynddi. Tua hanner milldir yn uwch i fyny na'r cwm hwn, y mae Pen y Llyn, sef pen Llyn Padarn, yr hwn sydd yn gorwedd yn llabwst afrosgo ar waelod y Nant, am tua dwy filldir o hyd. Yn gymharol ddiweddar y gwnaed y bont sydd yn croesi pen y llyn yn y fan hon; felly, yr oedd y fynedfa gynt yn gul ac anhygyrch iawn. Yn wir, peth diweddar ydyw y ffordd hefyd, gan fod hen ffordd y plwyf yn cychwyn o waelod Coed y Ddol, y fan lle y saif Llanberis arno yn awr, heibio Ty Du, a thrwy y Clegyr hyd Gastell Bryn Brâs. Rhydio yr afon y byddis yn y dyddiau gynt, os byddai angen croesi hefyd. Ychydig gannoedd o latheni o'r bont yng nghyfeiriad Llanberis y saif Craig yr Undeb,—y fan y safai y gweithwyr gynt, pan yn eu hymdrech i sefydlu Undeb y Chwarelwyr yng Ngogledd Cymru.

Ymgyfyd y ddau Glegyr gyda'u creigiau ysgythrog o bob tu i'r Llyn. Copa yr un ar y chwith ydyw "Y Bigil." O'r ochr ar y dde i'r bont, ceir golygfa ardderchog. Y mae yn anhawdd meddwl am ddim byd tlysach. Yn misoedd yr haf ar ambell brydnawn, pan y bydd y llyn yn berffaith lonydd, heb un don ar ei wyneb, y mae yr olygfa o'r ffordd sydd yn yr ochr draw yn syfrdanu dyn â'i thlysineb. Gwelir y creigiau sydd yn ymgodi yn igam ogam uwch ben y llyn, megis fel pe yn ymgladdu ynddo, gan ymffurfio yn un corff rhamantus, tebyg i un o greaduriaid afrosgo y cyfnod cynddiliwiaidd. Ymestynna ymlaen hyd i ben yr Elidir, gan gymeryd yr Allt Wen i fewn gyda'i mân goedydd llawn dail amryliw. Y mae yr olygfa hon yn llawn o farddoniaeth gyfriniol i galon dyn,—od oes ganddo lygad i ganfod prydferthwch.

Yn yr ochr arall, gyda godreu yr hon y mae y ffordd sydd yn arwain i Lanberis, ymddengys y creigiau yn gilwgus, fel pe yn anfoddlon i'r llyn brydferthu a gogoneddu yr hen Elidir, a'i phlant fryniau, yn ei ddyfroedd. Y mae yr hen Gefn du, copa yr ochr hon, yn cyfateb yn llawn i'w enw. Ceir ei aeliau duon yn

llawn gŵg, a theifl ei gysgodion trymaidd dros yr holl diriogaeth.

Felly, ar y naill law, ceir y llyn, megis yn ail eni hen greigiau digroen y Clegyr, hyd nes y cyrhaeddir cernau gwyrddion yr Elidir; tra y mae yr ochr arall yn llawn o hagrwch rhamantus, ac yn anfoddog ei hymddanghosiad; a phan y daw bron gyferbyn a Llanberis, yn union uwch ben yr hen Dy du,—cartrefle yr hen Esgob Goodman gynt, pan ydoedd ar ffo rhag milwyr Cromwel, ac wedi hyny, cartrefle Dewi Arfon, prif englynwr Cymru, a'r byd o ran hynny,—try i lawr yn fygythiol yn y fan a elwir Y Dinas, fel pe am wneyd ymosodiad dialeddol ar y lle, ond nid ydyw eto wedi gwneyd hynny, er ei fod yn bygwth er cyn cred. Talp o graig rhamantus iawn ydyw Y Dinas, uchel a serth iawn, yn arbennig gyferbyn a'r hen Dy du, a gwae i'r hen aneddle esgobol, os rhydd ei fwriad mewn gweithrediad.

Pan saif y teithydd yn ymyl gwesty Glyn Peris, caiff olwg ar y Nant yn ymledu yn sydyn, ac y mae y pellder o ben yr Elidir i grib Moel Eilio, a'i gymeryd ar ehediad aderyn, yn gryn ffordd; ond yn llawer mwy, pe y gorfodid dyn i'w gerdded. Yna, y mae yn culhau yn sydyn gyferbyn a hen Gastell Dolbadarn, yn gymaint felly, fel nad oes yno ond prin le i ffordd gyda glan Llyn Peris, neu "y llyn uchaf," fel ei gelwir ar lafar gwlad. Darn sydd yn orlawn o brydferthion ydyw y gesail hon; y mae ei gwaelod yn llawn o goed, ac yn gymysg a hwy ceir tai y preswylwyr.

Ar y dde, fel y dywedwyd, ymestyn Moel Eilio, a chyda chymorth Moel arall, y mae yn cau pen y Maesgwm, ac wedyn yn gorffwys ei phen ar un o ysgwyddau y Wyddfa fawr,—brenhines ardderchog mynyddoedd Eryri. Y mae y Foel Eilio yn ymgesilio cyn cyrraedd y Maesgwm, ac yn troi ei thrwyn Rhufeinig i gyfeiriad y Derlwyn, fel pe wedi penderfynu unwaith croesi Cwm Brwynog ac ymuno a hi; ond safodd cyn rhoi y bwriad yn weithred, ac felly y mae hyd y dydd hwn. Yng nghesail yr Eilio y mae toriad sydyn serth, a dwfn, yn disgyn i waelod Cwm Dwythwch; yn y gesail ar y gwaelod y gorwedd Llyn Dwythwch, yn dawel yn ei gryd oesol. Lle pruddglwyfus ydyw hwn, tawel, unig, a llwm; ond er hyn, y mae rhywbeth yn ddymunol ynddo, yn enwedig, fel lle i fyfyrio. Y mae mor unig fel na chlywir dim ynddo, ond brefiadau y defaid. Oddiyno i lawr, graddol ddisgynna'r tir, ac weithiau'n lled serth, hyd nes y cyrhaeddir gwaelod Dyffryn Padarn.

Daew'r Clogwyn Coch yn y pellder, yn dangos ei ddannedd miniog. Y mae rhywbeth yn dywysogaidd yn ei ymddanghosiad, fel pe yn gwylio y fynedfa i fyny i goryn y Wyddfa; a saif yn derfyn i'r lawnt hirfaith sydd o drwyn y Derlwyn hyd ato. Wrth ei sawdl, ac o dan ei wyneb hagr, y gorwedd y Llyn Glâs, ac amryw fân lynnoedd ereill. Yn ffurfio erchwyn chwith y Maesgwm, ceir Moel y Cynghorion, y fan, meddir, y byddai hen dywysogion Cymreig y dyddiau gynt yn ymgynghori a'u gilydd, ac yn penderfynu eu cwerylon, yn gystal a chynllunio pa fodd i weithredu yn y dyddiau cynhyrfus hynny. Ar ben y Foel, ceir lle gwastad, o gryn faintioli, gyda chryn lawer o hen olion. Heibio i drwyn yn ochr chwith y Foel hon y llifa y dwfr sydd yn cronni yn y Llyn Glâs, a'r mân lynnoedd ereill, a threigla i lawr i waelod Cwm Brwynog, gan ymddolennu yn afonig o gryn faintioli, am ryw filldir o ffordd trwy y Cwm; yna cyferfydd a'r afon Hwch, yr hon sydd yn rhedeg o Lyn Cwm Dwythwch, ac yma ymunant a'u gilydd, gan dreiglo i lawr drwy y nant ddofn, er ffurfio y rhaiadr prydferth a rhamantus a elwir y Cennant Mawr. Y mae y rhaiadr hwn yn un o'r rhyfeddodau penaf a geir yn y cylch hwn. Daw y dyfroedd i lawr gyda'r fath gyflawnder a nerth o gymoedd y Wyddfa, yn arbennig pan y bydd y gwlawogydd wedi bod yn drymion, nes llenwi y Nant hyd yr ymylon, ac yn ei gwymp cuddia y graig uchel, a serth sydd yn ffurfio y dibyn dychrynllyd, fel pe byddai gorchudd ariannaidd, o faintioli anferth, yn cael ei ddodi ar ei gwyneb du, garw, a mwsoglyd. Y mae yr olygfa hon, o dan belydrau disglaer haul Mehefin, yn arddunol mewn gwirionedd. Disgynna corff y dwfr i'r llynclyn yn y gwaelod, gan ymferwi yn grychias gwyn ac ewynog, tra mae y gweddill yn disgyn yn orchudd teneu dros wyneb y graig gan ei hariannu yn odidog. Yna ymddyrchafa y grychias ferwedig yn fân wlith, gan ddisgyn eilwaith, a gwlychu y ddaear am latheni o bellder oddiwrtho. Ar yr ochr agosaf i'r Derlwyn, ceir lluaws o fân dwmpathau o frysglwyni, yn tyfu yn namedd y graig uchel a serth, a'r afon yn y gwaelod yn ymruthro allan, fel pe yn dianc o'r grychias ferwedig ofnadwy; gan brysuro i fynwes Llyn Peris, yr hwn a warchodir yn ofalus, ddydd a nos, gan hen Gastell Padarn. Y mae y gesail o'r rhaiadr i'r Castell yn ffurfio un o'r golygfeydd prydferthaf, a thyneraf a geir yma. Llenwir hi a choed i fyny hyd lwynau y Derlwyn, yr hon sydd yn barhaus yn syllu yn synedig arni.

Y mae y ddau lyn,—y Padarn a'r Peris,—yn cael eu gwahanu gan y ffordd a wnaed i'r Chwarel. Yn yr ochr bellaf, ceir pont, a

elwir Pont y Bala, i groesi, o dan yr hon y llifa dwfr y llyn uchaf i'r isaf. Tlws iawn,—yn wir, anisgrifiadwy felly,—ydyw yr olygfa o sawdl yr hen Elidir i'w choryn, ac y mae ei gwyneb anrheithiedig, yn arbennig yn ymyl y bont yn y gwaelod, wedi ei fritho a lliaws o fân frysglwyni o goed. Ychydig ymhellach ymlaen yng nghyfeiriad y Nant y mae y chwarel, a'i thomennau mawrion yn ymwthio i'r llyn. Yma, trwy chwys a lludded, yr ennill llu mawr o feibion llafur eu bara beunyddiol, gan gasglu cyfoeth lawer i goffrau y perchennog. Y mae yr hen Elidir yn gyforiog o gyfoeth, yn ffortiwn i unrhyw un a ddigwyddo ei meddiannu, a dian y pery ei hadnoddau i gyflenwi anghenion cenhedlaethau lawer ar ol hon.

Wrth sefyll ar y ffordd rhwng yr hen gastell a'r bont, ceir golygfa ramantus heb ei hail,—y fath na cheir yn unman arall yng Nghymru. Ar y chwith, fel y dywedais, ceir yr Elidir a'r hen Chwarel fel craith fawr ar ei gwyneb rhadlon. Ymlaen yng nghyfeiriad y Pass, y mae y Garn yn drum uchel, a'r Glyder fawr, yr hon a estyn ei thraed i gyfyngu ar y Nant, fel mai ychydig o le a geir yn y fynedfa i'r Pass, heblaw digon i'r ffordd a'r afon fechan sydd yn murmur yng ngwaelod y cennant. Y mae golwg honiadol iawn ar yr hen Glyder fawr. Tremia yn dalgryf, gwyneb agored, hagr, herfeiddiol, a llwm, fel un o hen gewri yr oesoedd gynt, gan benderfynu creu arswyd ac ofn ar bawb a feiddiant neshau ati. Fel yr eir ymlaen, ceir yr un nodweddion, os nad mwy rhamantus, yn y talpiau ysgythrog o greigiau bygythiol sydd yn crogi ar ochr y Glyder, ac fel pe ar ymollwng i lawr. Ceir amryw ddarnau eisoes wedi ymollwng, ac wedi treiglo i'r gwaelodion, gan ymffurfio yn gromlechau anferth, bron yn ddigon eang i fod yn ystafelloedd i fyw ynddynt. Golygfa arswydol yw hon; ond awn yn ol i gymeryd ail drem.

Ar yr ochr dde, y mae Bryn y Castell, gyda'i fangoed swynol, a thonnau y llyn yn golchi ei draed yn feunyddiol. Ar ben y bryn, saif gweddillion hen Gastell Padarn, yr hwn a adeiladwyd ar y cyntaf, medd Hanes, gan Peris, mab Idwal frenin, i fod yn amddiffynfa i'w dad. Galwyd ef ar y cyntaf yn Gaer Peris, ac felly yr adnabyddid ef hyd ddyddiau Padarn Sant, yr hwn, yn y drydedd ganrif, a adeiladodd eglwys fechan ym mur y Castell, a galwyd y lle wedi hynny yn Gastell Padarn. Y mae wedi herio ystormydd am fwy na deunaw canrif, ac y mae yr hyn sydd weddill o hono mor gadarn ag erioed. Dywedir i Owain Goch fod yn garcharor ynddo am fwy nag ugain mlynedd gan ei frawd Llywelyn. Y mae yn eglur oddiwrth yr olion a geir yma ei fod unwaith yn lle o fri mawr.

Wedi pasio cern y Derlwyn, yr hon sydd yn llawn o goed mân, grug, eithin, ac aml glwt o dir glâs, ceir cesail eang, serth, a llom, a elwir Cwm Eilir, neu Gwm Ael hir. Yn y pen uchaf iddo ymddyrcha y graig ysgythrog ei phen yn uchel, serth, a gwyneb ddu, gan droi i gyfeiriad y llyn, a graddol ostynga ei phen i'w ymyl, i syllu yn wgus arno; yna try yn ol i gyfeiriad y Nant, gan ymestyn yn greigiau anffurfiol tua Chraig y llan, ac ymunant gan ymffurfio megis un o esgeiriau cyhyrog y Wyddfa. Ymlaen ceir trum ar ol trum yn ymgodi, pob un megis ar ei eithaf, a gwg oesol i'w weled yn wyneb pob un. Y mae yr olygfa ramantus yn cynhyddu fwy-fwy,—y naill drum fel pe yn ymryson ymddyrchafu yn uwch na'r llall, gyda hafnau culion, dyfnion, a noethion rhyngddynt, ac o'r diwedd y mae y truman duon, beiddgar, megis ellyllon, yn ymffurfio yn ysgwyddau cedyrn, ansigledig y Wyddfa. Ar hyd y llethrau geirwon, am gannoedd o latheni o'r gwaelod, ceir meini anferth yma ac acw, y rhai a gludwyd yno gan y *glaciers* yn eu teithiau gynt. Ceir rhai o honynt wedi aros ar y dibyn serth, ac yn ymddangos fel pe byddent yn rhyddion; ond nid yn hawdd y diorseddir hwynt. Yn uwch i fyny, ceir marion mawr yn ymlochesu wrth draed y creigiau talgryfion a gwynebddu.

Y mae y golygfeydd hyn yn dangos natur yn ei hagweddau mwyaf rhamantus, arddurnol, ac ofnadwy. Y maent yn peri i ddyn, yng nghanol yr unigrwydd syfrdanol, ofni, a chrynnu, os nad llewygu; ond er hyn, y maent yn arddanghosiad o fawredd yn ei agweddau mwyaf rhyfedd a dwyfol. Os nad yw dyn yn alluog i weled Duw yng nghanol y fath fawredd, rhaid ei fod yn gydymaith priodol i gydfyw yn unig a'r anifail.

Yn awr ni a ddychwelwn yn ol. Y mae Llyn Peris yn gorwedd yn llonydd yn y gwaelod,—un pen iddo yn ein hymyl, a'r llall yng nghwr isaf y Nant. Cwsg ei hun oesol yn dawel, oni bae fod y gwynt, fel hogyn drwg ar adegau, yn neillduol yn y gauaf, yn ei ddeffro; a phan y gwneir hynny, y mae ei wylltineb yn ddiarhebol, chwydda ei donnau ewynog yn uchel, gan eu cyrlio yn frigwyn, ac yn y diwedd gwna iddynt ymffurfio yn golofn o faintioli aruthrol, yn debyg iawn i'r desgrifiad a roddir yn yr Hen Lyfr o ystorm ar Fôr Galilea.

Ond yn yr haf, ambell hwyrddydd ym Mehefin a'i frodyr tesog, ceir golygfa anghydmarol oddiar y lleeyn hwn. Nid oes yn awr don ar wyneb y llyn, am fod y gwynt

wedi syrthio i gysgu ar ol dioddef gwres tanbaid yr haul trwy dydd. Ust! O, y mae natur yn ymhyfrydu yn chwareus a hamddenol mewn prydferthu ei hunan,—y mae arddangosfa i fod. Ai dyma drefn anian i gyflwyno mawl i'r Duw a'i gwnaeth? Mae wyneb y llyn yn ddisglaer fel y grisial, ac yn llyfn fel gwydr gloew.

A fuost, ddarllenydd, erioed yn sefyll ger Pont y Baia, fel ei gelwir, ar y ffordd gyferbyn a chanol Llyn Peris, gan wynebu tua'r Pass, ar fin nos dawel ym Mehefin neu Orffennaf?

> "O! ddistawrwydd ystyriol!
> Anian gu luna'n ei gôl."

Y mae yr awel mor wan a thyner ag anadl baban; a natur drwyddi yn gwenu yn foddhaus. Prysura yr haul tua'r gorwel, ac nid oes gwmwl gymaint a chledr llaw gŵr yn ei meini rhyddion, y creigiau talgryfion a geisient gusanu y ser,—rhai yn dywyll, ereill yn olau, o dan effeithiau pelydrau yr haul sydd yn graddol ddisgyn i'w wely llaith, y marion hirfaith, ac ambell dwmpath o rug blodeuog yn eu canol.

Dacw Gwm Glâs, y fan y bu yr "hen Gatrin," o hynod goffa oblegid ei nherth cawraidd, yn byw hanner canrif a mwy yn ol. Ysgytiai hon unrhyw un i angau a feiddiai sangu ar ei hawliau fel brenhines y lle. Yno yn swn brefiadau y defaid y treuliodd oes faith, a llawn o wrhydri. Mor dlws ydyw y llanerchau bychain gleision sydd o gwmpas y fangre; ie, y maent oll yn y llyn, —a dacw bont y gromlech hefyd, a'r afon fechan drystiog yng ngwaelod y Pass, yn ewynu yn grychias yn ei hymdrech i lifo i lawr rhwng y meini mawrion, i gyrraedd



Y WYDDFA O LANBERIS.

awyr las. Daw hithau y lleuad i'r golwg yn ddistaw, gwelaf hi yn "dyfod a'i myrdd defaid mân" i'w chanlyn, ac O mor wylaidd y gwna ei hymddangosiad urddasol,—a

> "Hithau'n gron fel torth o gai,"

chwedl yr anfarwol Eben Fardd, yn ei englyn swynol iddi.

Y mae y mynyddoedd sydd ar yr ochr dde, aelodau cylyrog y Wyddfa fawr, wedi dod i lawr i'r llyn heb i ni glywed eu trwst o gwbl. Yr Elidir, a'i chyfeillion oll, sydd yno hefyd, ar y chwith. Y chwarel,—ei phonciau, a'i chabanau,—i'w gweled ynddo; y llwyni coed yn llawn o ddail amryliw, y grug, yr eithin, y drain, a'r mwsog—oll yn gyflawn yno; ac erbyn i ni ddal i syllu, gwelem y Pass yno hefyd, yn ei holl ogoniant rhamantus, y mynyddoedd, y cromlechau, y mynwes Llyn Peris. Y mŵg yn esgyn yn syth o simddenai y tai, y gwartheg ar y ddôl, ac ambell fugail a'i gi yn brasgamu i annos y defaid,—ac mewn gair, y mae'r Pass yn gyflawn yn y llyn, ac i'w weled yn fwy eglur nag y mae yn bosibl ei ganfod ganol dydd goleu. O! y mae yr olygfa yn wefreiddiol yn wir. Pwy all ei desgrifio?

Dyma y rhamantus a'r tlws, yr ofnadwy a'r tyner, yn ymgofleidio yn y llyn mewn distawrwydd llesmeiriol, a'u holl liwiau gwahanol yn cadw eu neilltuolion, ac eto yn ymdoddi i'w gilydd gan ymffurfio yn un olygfa arddunol. Eisteddai yma i syllu ar natur yn gogoneddu ei hunan, a thrwy hynny yn gogoneddu y Duw ai gwnaeth,—y fath amrywiaeth, bron yn ddiderfyn, y llyn yn prydferthu y mynyddoedd a'r mynyddoedd yn

ardduno y llyn, y naill yn gogoneddu y llall mewn ceinder anghydmarol. A oes golygfa yng Nghymru a ddeil ei chydmaru a hon, o ran tlysni, ac arddunedd, y naill a'r llall wedi eu cyfuno yng nghyd ynddi?

Dywedir mai arlun o'r byd ysbrydol ydyw y byd naturiol; os ydyw yr arlun mor swynol a phrydferth, pa mor ogoneddus y rhaid fod y byd hwnnw? Os ydyw golygfeydd y byd naturiol yn swyno calon dyn i syllu arnynt, pa faint mwy dymunol fydd cael aros yn dragywyddol i syllu ar sylweddau diddarfod y byd ysbrydol?

Ond, er holl dlysni ac arddunedd y golygfeydd hyn, ni welsom eto fawredd y mynyddoedd ar ei eithaf.

Arddunedd ydyw y nodwedd amlycaf yn y golygfeydd y soniwyd am danynt; ond arddunedd ydyw wedi ei dyneru â rhyw gymaint o dlysni; ond yn Y Wyddfa yr ydym yn cael eithaf gogoniant y mynyddoedd. Ynddi hi y ceir yr amlygiadau uchaf o fawredd ac arddunedd, nid yn unig yn Llanberis, ond yng Nghymru benbaladr. Nis gall ei choryn moel hi ymffrostio mewn tlysni. Y mae yn rhaid iddi hi gyfeirio pob ymwelydd a'i chopa ym mro y cymylau, i chwilio am y tlws a'r tyner yn nes i lawr, yn y dyffryn wrth ei throed, gan ddechreu ym Mryn Eglwys, a dilyn ymlaen gydag ymylon y Dreflan hyd y fynedfa i'r Cennant Mawr, ac oddiyno hyd Westy'r Frenhines a godreu Bryn y Castell a'r Allt Wen,—yn y lleoedd hyn y ceir hynny o dlysni a feddwn, yn arbennig yn y fynedfa i'r Cennant Mawr. Ond os am fawredd, yr ofnadwy sydd yn peri iasau o ofn, pangfeydd o bryder, syndod hanner gwallgof ac edmygedd cyfareddol sydd ym meddiannu holl enaid dyn,—Y Wyddfa yw y fan am y mawredd hwnnw. Gwelais ddynion ym mhresenoldeb y golygfeydd yn crynnu fel deilen yr aethnen, ac ereill yn cael eu llwyr orchfygu gan y golygfeydd rhamantus, nes hanner llewygu. Y mae byd o ryfeddodau wedi ei grynhoi gan ei Chreawdwr ynddi hi ei hun. Pwy all eu nodi yn eu manylion? Heria ddesgrifiad, am fod ei hadnoddau a'i hamrywiaeth yn ormod i un arlunydd geiriol allu ei bortreadu. Dymunwn ddatgan yn wylaidd yn ei phresenoldeb — "Ni fynegwyd mo'r hanner." Ymddyrchafa ei choryn mor uchel, fel y gall y teithydd blinedig a ddringodd yno, sefyll a chael trem arni hi ei hun, o'i choryn i'w sawdl megis ar darawiad amrant, ac y mae yr olygfa yn wefreiddiol, yn

"Synnu pensyfrdanu dyn."

Ond, nid yn unig y mae yn ddigon tal i ddangos ei hun i bawb ddymuna ddringo i'w choryn; ond y mae yn llanw yr enw Gwyddfan, i gael trem ar fyd o ryfeddodau sydd o'i hamgylch, yn agos ac ym mhell.

Dylai pob Cymro esgyn i ben y Wyddfa unwaith o leiaf yn ei oes, er cael y fantais i syllu ar banorama gogoneddus natur yn ei fri cynhennid, a

"Moli Naf yn ymyl nefoedd."

*Llanberis.* TECWYN.

# AIL SYPYN O HEN LYTHYRAU.

DYMA sypyn eto o hen lythyrau. Llythyr Cymraeg o waith Howel Harris ydyw'r cyntaf, wedi ei anfon ganddo adref at y teulu i Drefeca. Llythyr at Howel Harris, esiampl o lawer o'r un fath ag ef, ydyw'r ail.

Y mae dyddordeb neillduol yn perthyn i'r trydydd llythyr. Yn ol a wyddis, dyma'r unig un o lythyrau Ann Griffiths sydd ar gael yn ei llawysgrif ei hun; a'r unig un, felly, y gallwn fod yn sicr ein bod yn ei gael fel yr ysgrifennodd hi ef. Y mae'r copi gwreiddiol yn llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, wedi ei roddi gan John Jones, U.H., Llanfyllin. Ar ei ddiwedd y mae pedair llinell o un o'i hemynnau; wedi eu rhoddi fel ol-ysgrif. Nid oes gennym linell arall o'i gwaith wedi ei hysgrifennu ganddi hi ei hun. At Elizabeth Evans Bwlch Aeddon,—os wyf yn darllen yr ysgrifen yn iawn,—y cyfeiriwyd y llythyr. Nid wyf wedi rhoi dim at y llythyr ond ei atalnodau, ac ambell lythyren neu air i wneyd y meddwl yn eglur. Nid oes un atalnod yn y llythyr; ac y mae pob llythyren neu air ychwanegais wedi eu hargraffu mewn llythrennau Italaidd. Y mae'r darn emyn yn union fel y mae yn y gwreiddiol.

Llythyr Ioan Tegid at Robert Oliver Rees ydyw'r pedwerydd, flwyddyn cyhoeddi gweithiau Dafydd Ionawr. Y mae'r gwreiddiol yn eiddo i Edward Griffith, U.H., Dolgellau.

I.

Fy anwyl Frodyr,

Y mae clywed am eich helynt chwi yn llonni ein calonnau ni. Cofiwch mae Mab Duw yw pob peth i'r Eglwys; a thra fo chwi, ymhob cyflwr a phrofedigaeth a chyfyngder yn edrych arno, ac yn ymaflyd ynddo, ni lwydda'r diafol ddim.

Nag edrychwch i'r ddeddf a'ch calon oddiwrth y cyfamod newydd. Yno mae pechod a marwolaeth yn colli ei grym. Nag ofnwch, ni chyfnewid ef ddim. Fe wyr am danoch, a'ch sefyllfa chwi. Mae allweddau uffern a marwolaeth gantho ef. Fe fu farw, ac yn awr y mae yn fyw, a byw a fydd. Am

hynny ewch yn hyderus i gyfarfod Angau. Cofiwch iddo ef ddwedyd,—"Am mae byw ydwyf fi, byw fyddwch chwithau hefyd." Efe a barodd y'r merthyron i ganu a gorfoleddu yn y tân. Efe a'ch dug chwi hyd yna, ac efe a*ch* dug i ben eich taith. Byddwch ymarhous wrth eich gilydd, a thrugarog, a maddeugar; gan aros yn rhwymyn yr yspryd a chwlwm tangnefedd. Byddwch lawen yn yr Arglwydd yn wastadol.

Eich tad, eich Brawd, a'ch gwas yn yr Arglwydd,

How. Harris.

---

II.

Bala, Ionawr 12ed 1740.

Mr. Harris,

Fe a fynegwyd imi gan un ag a aeth gida Jenkin Morgans i Sir Garnarvon fod galwad taur i chwi o'r lle hynu ag y mae ef yn dysgu'r ysgol. Ag y mae ef yn deusuf arnoch wneuthur pob brys ag sudd bosibl i chwi i ddyfod yno yn awr tra y mau'r dymuniad yn y bobl. Fe a ddymunodd arnaf fi neu'r ffrind hynu ag ai danfonodd ef yno scrifenu attoch ich gwneud yn gydnabyddus or galwad. Os byddwch yn 'wyllysio danfon atto ef sef Jenkin yn gunt nag y deloch yno y mau ef yn dysgu'r ysgol mewn lle ag a elwir y Glasfryn ymhlwyf Llangybi yn Sir Garnarvon. Enw gwr y ty hynu ydiw William Pritchard. Y mau dymuniad mawr genom nine yn Llaniwllyn ar i chwi ddyfod attom nine yn eich ffordd i Sir Garnarvon. Y mae achos mawr i ni fendithio Duw am eich dyfodiad i Laniwllyn y tro diwaetha canus y mau yno amriw o eneidc wedi cael ei deffroi ar yr amser hynu. Myfi a scrifenais lythyr attoch chwi ychydig o flaen Dudd nadolig os daeth ef ich llaw. Yr oedd yn ynddo ef ruw faint o gyfri am ein helunt ni yn y parthau hun. Yn y cyfamser yr wyf yn taer ddymuned eich gweddiau trosof fi canus y mae hi yn o dowill arnaf fi yn achos fy enaid. Os y gwelwch yn dda scrifenu attaf, fe fudd yn dda iawn genif glowed oddiwrthuch.

Yr hwn ydwyf eich cywiraf ffrind, ach gwasnaethr. anwiw.

Robt Griffith.

Please to direct to Robt Griffith att Bron Veyno near Bala Merioneth Shire
North Wales.

---

III.

Anwylaf Chwaer yn yr Arglwydd,

Yn ol eich dyminiad y ysgrifenais yr ychydig leiniau hyn atoch, a da iawn genyf gael cyfle i wneyd fy helynt yn adnabyddus i chwi. Garedig chwaer, y peth mwyaf neillduol sydd ar fy meddwl yn bresenol fel mater yw mewn perthynas i dristan yr Yspryd Glan. Gair hwnw ddaeth im meddwl,—"Oni wyddoch chwi fod eich cyrph yn demlau i'r Yspryd Glan sydd yn trigo ynoch;" ac wrth dreiddio gronyn i mewn i ryfeddodau y person, ai fod yn trigo neu yn preswylio yn y credadyn, rwif yn meddwl yn symul na chefais erioud fy meddiaun i'r un graddau ac ofnau parchus rhag dristau, ac ynghyd a hynu cefais weld *mai* un achos, ar achos penaf o fod y pechod mawr hwn yn cael mor lleied o argraff wasgedig ar y meddwl *yw* o herwydd fy meddwliau isel cableddus am berson mor fawr.

Dyma oedd rhediad fy meddwl am bersonau yr drindod. Rwyf yn clywed fy meddwl yn cael ei ddal a chywilydd, eto dan rwyman i ddweud o herwydd y niwaid o hono. Meddwl am berson y Tad a'r Mab yn ogufyweh; ond am berson yr Yspryd Glan, ei olwgu fel swyddog islaw iddynt. O feddwl dychmygol cyfeiliornus am berson dwyfol, hollbresenol, holl wybodol, a holl alluog i ddwyn yn y blaen a gorffen y gwaith da a ddechrauodd yn ol trefn y cyfamod rhad a chyngor tri yn un ar rhan gwrthrychau yr cariad horau. O am y fraint o fod o'i nifer!

Anwyl chwaer, rhwif yn teimlo gradd o syched am ddod i fynu yn fwy mewn cred-iniaeth am breswiliad personol yr Yspryd Glan yn fy ngyflwr; a hynu trwy ddatguddiad, nid yn ddychmygol, gan feddwl amgyffred y dull a'r modd y mae, yr hyn sydd eulunaddoliaeth. Anwyl chwaer, wrth edrych gronyn ar y pechadyrusrwydd ynddo (real) ei hun o dristau yr Yspryd Glan, ac o'r tu arall edrych i mewn i ddyfnderoedd y codwm mawr a fy mod wedi fy llwyr ddifeddiaun o bob gallu i ddim ond yw dristau, mae yn o wasgedig yn wir. Ond y gair yma sydd ar fy meddwl,—"Gwiliwch a gweddiwch;" fel ped fau yr Arglwydd y dweyd,—"Er mor halld yw yr gorchymun, a thithau mor analluog i gyflawni un peth o fil yn y fan yna ar y tir yna o ran dy feddwl, tyred i'r maes, treia di yr orsedd, canys llawer a ddichon taer weddi yr cyfiawn; digon i ti fy ngras i, fy nerth i a berffeithir mewn gwendid." Diolch byth am Dduw yn llond ei addewidion.

Anwyl chwaer, mi a ddymunwn ddweud llawer am rinwedd gweddi ddirgel, ond chwi a wyddoch fwy nag a allaf fi ddweyd am dani, ond rwyf yn gwbl o'r farn ei bod yn rhagori llawer i wynebu gelunion ar fyddin o wŷr arfog. Mi a wn trwy brofiad am gael fy roundio gan elenion na feddwn ddim yw wneud ond hynu,—"A minau a arferaf weddi;" a hynu yn ateb y diben iddynt syrthio ynwysg ei cefnau. O am y fraint o

fod dan orichwiliathau manwl yr Ysbryd Glan, rwif yn meddwl yn symul na ffitia gorichwiliaeth llai manwl nar gair hwnw byth mo nghyflwr i,—"Ar bob moment y dwfrhaf hi." Diolch byth am Fibl yn ffitio cyflwr wedi mynd mor ddyfn. Anwyl chwar rhiw fraint fawr yw bod cyflwr ar gael yngwyneb gair Duw. O am ei ddal yn y drych sanctaidd i'r diben i wneud usc o gyfryngwr.

Un peth neillduol ar fy meddwl neithiwr mewn perthynas i feindio cyflwr yn y gair. R. J. yn llefaru'n werthfawr iawn o ran mater, a minau mor sych, mor bell o ran fy mhrofiad, nid oedd na deddf nac efengil yn gweithredu dim arnaf a hynu a weithiodd fesur o ddychryn ar fy meddwl, ffaelu meddwl cael fy nghyflwr yn y gair o ran fod deddf ac efengil megis yn . Gair hwnw ddaeth im meddwl,—"Dos allan rhagot ar hyd ol y praidd;" a minau ffaelu gweled ol y praidd yn yr amgylchiad hwnw. Ond y gair hwnw ddaeth im meddwl gyda golau a gwres,—"Deffro di ogledd wynt, a thyred ddehau wynt." Diolch byth am graig y gair i roi troed arni i gychwyn, a'r amosiblrwydd o gychwyn heb hynu.

Anwyl chwaer rwif yn gweled mwy o angen nac erioed am gael treilio y rhan sy yn ol dan rhoi fy hyn yn feunyddiol ac yn barhaus, gorff ac enaid, i ofal yr hwn sy yn abal i gadw yr hyn a roddir ato erbyn y dydd hwnw. Nid rhoi fy hun unwaith, ond byw dan roi fy hun, hyd nes ac wrth roi yr tabernacle hwn heibio. Anwyl chwaer mae meddwl am i roi o heibio yn felus neillduol weithiau, gan ddweyd mai hyn sydd yn fy lloni fwyaf o bob peth y dyddiau hyn,—nid marw ynddo ei hun, ond yr elw mawr sudd yw gael trwyddo. Cael gadel ar ol bob tueddiad croes i ewyllis Duw, gadel ar ol bob gallu i ddianrhydeddu deddf Duw, bob gwendid yn cael ei lyncu i fynu gan nerth, cael cydymffurfiad cyflawn o'r gyfraith yr hon sudd eusoes ar ei calon a mwynhau delw Duw am byth. Anwyl chwaer byddaf yn cael fy llwngu gimaint weithiau i'r pethau hyn fel y byddaf yn misio yn deg a sefyll yn ffordd fy nyledswydd gyda phethau amser, ond disgwil am yr amser i gael fy natod a bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydiw, er ei bod yma yn dda iawn trwy ddellt, a bod yr Arglwydd yn datgyddio gymaint o'i ogoniant weithiau trwy ddrych mewn dameg a all fy ngyneddfau gweiniad i ddal.

Anwyl chwaer, mae yn dda genyf ddweyd hyn wrth ddibenu,—mi a ddymunwn ei ddweud gyda diolchgarwch,—er fy holl lygredd, a dyfais uffern, byd ai wrthrychau, rwi o ddaioni Duw yn unig heb newid gwrthrych fy serch hyd heno ond yn hytrach o galon am ymlonyddu yn ei gariad ac ymhyfrydu ynddo byth dan ganu, er nas caf hynu ir graddau lleiaf tu yma i angeu ond trwy drais.

Anwyl garedig chwaer, dymynaf anoch yn neillduol anfon ataf gyda brys; na omeddwch fi, nis gallaf beidio ai gymeryd yn angharedig arnoch os gwnewch. Mae Ruth yn dymuno ei chofio yn garedig atoch. nid oes genyf ddim neillduol yw anfon atoch fel newydd ond hyn,—mae rhiw yspryd gobeithio bob dim i weld arwyddion adferiad Rachel Pugh. A hyn oddiwrth eich gredig chwaer yn cyflum deithio trwy fyd o amser i'r byd mawr a bery byth.

ANN THOMAS.

Er mai cwbwl groes i nattur yw fy llwybur yn y byd
I deithio wnaf a hynu yn dawel yngwerthfawr
wedddy wyneb-pryd wrth godi yr groes ei chyfri yn goron
Mewn gorthrymderau llawen fyw ffordd yn iniawn.
Er mor ddyrus i Ddinas gyfaneddol yw—

———

IV.

Nanhyfer, Penfro,
25ain o Chwefror, 1851.

Anwyl Syr,

Wele fi yn anfon i chwi gywydd o gyfansoddiad Rowland Hugh, o'r Graienyn, ger y Bala; yr hwn a gyfansoddwyd ganddo yn ei 78 flwyddyn o'i oed, sef yn y flwyddyn 1793,—y flwyddyn y cyhoeddwyd Cywydd y Drindod. Enwawd y cywydd ydyw "Diolchgar gydnabod i Mr. David Richards am lyfr Cywydd y Drindod."

Brawd i'm nain, o du fy mam, oedd Rowland Huw. Mae ei waith genyf mewn ysgrifen yn ei law ei hun, oddieithr y gân ddiweddaf a gyfansoddodd pan oedd yn 87 oed, A.D. 1802, yr hon sydd yn llaw y diweddar fardd, ei ddisgybl, Robert William, o'r Pandy isaf, Trerhiwedog. A'r Robert William hwn oedd fy athraw i yn fy nysgu yn rheolau Barddoniaeth. Y mae ei waith ef ar glawr yn meddiant ei ferch.

O bydd i chwi lwyddaw i gyhoeddi gwaith Dafydd Ionawr, yn ddigolled i chwi eich hun, gwnaech ddaioni ychwanegol i lenyddiaeth Gymreig pe y cyhoeddech bigion o waith Rowland Hugh, Robert William, a Robert Thomas, o Goedladur, plwyf Llanuwchllyn, y rhai oeddent yn gyfoedion, yn byw yn Mhenllyn; ac o Benllyn hefyd o ran eu genedigaeth.

Ydwyf, anwyl syr,
Yr eiddoch,


TEGID.

D.S. Mae barddoniaeth bardd Coedladur yn fy nghadwraeth i.

# EMYN NADOLIG.

## EPHRATA. 8. 7. D.

Cywair E. H. Brython Hughes, Walsall.




II.

Cenir fyth drwy'r goruchafion,
Mawl i'r Iôn a amlhâ,
Ac ymadsain ar y ddaear
Mewn llais dengar,—"'Wyllys da,"
Uno'r *Duwdod* mawr â *dyndod!*
Gyrrai'r bennod hon, i'r byd,
Feibion Duw i orfoleddu.
Sêr y bore i ganu i gyd.

III.

Taflwyd drysau'r cynfwriadau,
Y drefn foreu uchel fri,
Ddigon llydain, nes yn eglur
Gwelem yn ein natur ni
Wrthrych serch, a mawl y miloedd,
Teulu'r llysoedd tu draw'r llen,
Yn Wr mwyach o'n cyfathrach,
Ein mawl bellach ar ei ben.

IV.

Ddiwiau dinod, i'r ystlumod
Ffowch o wyddfod Brenin nef;
Hwn, genhedloedd, wasanaethwch,
Deuwch ac addolwch ef;
Bloeddiwn, llamwn o lawenydd,
Gwnawn gân newydd iddo'n awr;
Trem ac uchder dyn fo'n darfod,
Dyma'r Un sy' i fod yn fawr.

V.

Os bu i fasnach nef a daear
Ddrysu er ein galar gynt,
"Crist ein bywyd" a'i rhydd bellach
Ar dir sicrach, hawddach hynt;
Aed ar wyfrau'r newydd hyfryd
Drwy y byd i'w bedwar ban,
A rhed ato'r holl genhedloedd
Yn fil miloedd yn y man.

Hugh Derfel Hughes

# GOFYN AC ATEB.

## GOFYN.

### VI.

Y MAE hen wraig yn byw yn y plwy yma, yr hon sydd ar fin gorffen ei phymthegfed flwydd a phedwar ugain. "Glywsoch chi son am flwyddyn y rhew mawr," meddai wrthyf un diwrnod. "Wel, yr oedd fy nhad-cu yn saith oed y flwyddyn honno, ac mi clywais o yn deyd iddo fo ddyrnu bwsiel o geirch, a dysgu *Cerdd y Winllan* mewn diwrnod y flwyddyn honno, pan nad oedd o ond saith oed. Ranta eich bod chi yn medru *Cerdd y Winllan*," meddai hi, ac yna dechreuodd fwmial canu,—

"Pam y sefwch yma'n segur,
A chymaint sydd o eisiau gweithwyr?
Mawr eich bod, yn nydd cynhaua,
Yn segurwyr yn segura."

Methodd a chofio dim rhagor o honi y pryd hwnnw.

A ydyw *Cerdd y Winllan* ar gael yn awr? Os ydyw, ym mha le, a phwy yw ei hawdwr?

*Llanbrynmair*: RICHARD BENNETT.

### VII.

Clywais ddweyd y danghosir bedd Owen Glyn Dŵr ym mynwent Mornington. A fedrai rhywun roddi inni ddarluniad o'r fynwent honno, ac o'r fan lle y dywed traddodiad fod Glyn Dŵr yn huno? R. M.

---

## ATEB.

### II.

Wedi gweled gofyniad Clerwr Cymreig parthed yr alawon, gelwais gyda chwaer Llywelyn Alaw ym Mountain Ash. Dian gennyf fy mod wedi cael gafael ar gopi o'r casgliad a anfonwyd i Eisteddfod Llangollen yn 1858.

Y mae'n debyg fod yn y copi anfonwyd i'r gystadleuaeth y geiriau arferid ar yr hen alawon hyn, ynghyd a chyfeiliant, ond nid oes yn y copi y daethum o hyd iddo ond yr alaw yn unig. Y mae 112 o honynt; anfonaf y rhestr i'w chyhoeddi yng NGHYMRU. Ab Ithel a Charn Ingli oedd ysgrifenyddion yr Eisteddfod.

*Ysgoldy y Bwrdd, Treorci.* D. EVANS.

### III.

Glyn Egwestl, ger Llan Gollen, ydyw glyn Guto'r Glyn. Ceir hanes llawn am dano yn llyfr Gweirydd ab Rhys ar Lenyddiaeth Gymreig o 1300 i 1650, lle y dywedir fod pedwar ugain a deg o gywyddau o'i eiddo ar gael. Bu'n canu tuchan i Ddafydd ab Edmwnd. Y mae ateb Dafydd ab Edmwnd yn y Piser Hir, a darlunnir Guto yn hwnnw fel

"Y bwrdiwr na chais bardwn,
Was byr-dew, ond ias burdan."

Y mae yn fy meddiant gywydd byr o'i waith i "gorn bundwr." Gwelir oddiwrth hwnnw fod ganddo allu i ddesgrifio, er ei fod ymhell ar ol beirdd mawr ei oes.

HEN HANESYDD ARALL.

### IV.

Mae'n debyg nad oes *darluniad* o fenyw hagr gan un prydydd Cymreig, mwy na chan un prydydd mewn unrhyw iaith arall, er fod ambell i grybwylliad am un felly. Mae gan Ddafydd ab Gwilym, fel engraifft, wrach neu ddwy a'i rhwystrodd ef i weled neu i fwynhau cymdeithas ei gariad, nad ydynt yn hoffus eu gwedd,—

"Gwrach anhygar ni'm caref,
Ewinog grafangog gref,"

ond nid yw efe, hyd yn nod yn ei gasineb a'i lid tuag atynt, yn iselhau barddoniaeth i'w desgrifio yn fanwl. Ond mewn rhyddiaeth, gallaf roddi esiampl. Ac hwyrach nad oes ar gael fenyw hagrach na'r Forwyn Ddu a ymddanghosodd yn Llys Arthur yng Nghaerlleon ar Wysg i geryddu a rhybuddio Peredur. Mewn Cymraeg diweddar, mae y desgrifiad fel hyn,—

"Ar hynny hwy a welent yn dyfod i mewn forwyn a chanddi wallt du crych; ar gefn mul melyn yr ydoedd, ac yn ei llaw gareiau geirwon i'r gyrru y mul; a golwg garw anngharuaidd oedd arni. Duach oedd ei gwyneb a'i dwylaw na'r haiarn duaf wedi ei bygu Ac yr oedd ei llun yn fwy hagr na'i lliw:—Gruddiau uchel; gwyneb hir ar i waered; trwyn byr, ffroen-lydan; y naill lygad yn frithlas greulawn, a'r llall yn ddu fel y muchud, a'r ddau wedi suddo yn ddwfn yn ei phen; dannedd hirion, melynion—melynach na bloden y banadl; ei gwisg yn dechreu yn asgwrn ei dwyfron ac yn cyrraedd hyd ei gên; a'i chefn ar lun bwa; ei dwy glun yn fwaog ac esgyrniog; a chulfain a theneu ydoedd oll oddieithr ei thraed a'i gliniau, y rhai oedd o faintioli anferth."

Ond wedi'r cwbl, er eich boddhad, gallwch ddweyd mai cefnder Peredur ydoedd yn rhith morwyn ddu, ac, fel y dywed yr hanes, gwas melyn oedd efe yn briodol. Ac yn wir digon hagr yw dyn wedi ei wisgo fel dynes, onide?

Dyddorol, efallai, fyddai chwanegu fod "bloden y banadl" yn cael eu defnyddio fel cyffelybiaeth yn nesgrifiad yr eneth harddaf yn y Mabinogion, sef Olwen, yn ogystal ag yn y desgrifiad hwn o'r hagraf; ond *pen* Olwen oedd "melynach na bloden banadl";—mae hyn yn gwneyd gwahaniaeth mawr.

H. J. EVANS.

*Ysgol Kingswood. Caer Baddon.*

### V.

Simon Lloyd o Blas yn Dre, y Bala, ydyw'r Simon Lloyd y cyfeiria Evan Moses ei lythyr ato. Bu am rai misoedd gyda Howel Harris. Priododd Sarah Bowen o'r Tyddyn, yn Sir Drefaldwyn. Mab iddo ef oedd y Parch. Simon Lloyd, ysgrifennydd yr "Amseryddiaeth" a'r "Esboniad ar y Datguddiad."

Yr un teulu yw Llwydiaid Plas yn Dre a Llwydiaid Rhiwaedog.

*Bryn uchaf, Tach.* 17, 1891.

# LLYFRAU NEWYDDION.

XV.

Cronfa o Adgofion. Gan John Davies, Salford. Ar werth gan yr awdwr,—3, Lord Street, Broughton, Manchester. Yr elw at gapel Pendleton. 276 tud. 3s.

Y MAE y llyfr dyddorol hwn wedi ei argraffu a'i rwymo yn brydferth a chwaethus. Y mae'r adgofion drwyddynt yn hynod o ddifyr, ac nis gall neb ddarllen y llyfr heb fod lawer yn well. Wrth ei ddarllen chwarddais yn uchel droion; a mwy nag unwaith teimlais leithder yn fy llygaid. Y mae'r arddull yn seml a di-addurn, ond yn gref ac yn ddarluniadol iawn. Teimlwn mai gŵr yn dweyd ei feddwl yn eglur a gonest ydyw'r gŵr fu'n dynwared y cwn hela llwynog, yn hiraethu am ei wedd a'i gi yn Nyffryn Clwyd, ac yn ymgeisio am wybodaeth a lle anrhydeddus ym Manceinion.

XVI.

Australia Revisited in 1890. By Josiah Hughes. Bangor: Nixon & Jarvis. 500 tud. 5s.

Dyma lyfr llawn o adgofion eto, llyfr teithiwr o'r iawn ryw, llyfr y medrir treulio oriau lawer yn ddifyr gydag ef. I'r hwn sydd a'i fryd ar ymfudo, ac i'r hwn sy'n hoff o grwydriadau meddwl, bydd y llyfr llawn a manwl hwn yn drysor. Dengys beth ydyw Awstralia mewn gwirionedd, a dengys droion gyrfa un daflwyd o don i don am flynyddoedd meithion. Wedi cymaint o deithio a blinder, mwyn, feddyliwn, ydyw gorffwys yng Nghymru.

XVII.

The History of the Early Nonconformists of Cardiff. By J. A. Jenkins, B.A. Cardiff: W. Jones. 100 tud. 1s.

Treuliodd Mr. Jenkins lawer o'i oriau gorffwys,—er nad llawer awr orffwys sydd gan weinidog,—yn y llyfrgelloedd; ac y mae wedi dod a hanes llawer un enwog i'r golwg. Mewn llyfr bychan destlus ceir hanes William Erbery a Walter Cradoc a Christopher Love, hanes erlid y Crynwyr, a hanes ymweliadau Howel Harris a Whitfield a John Wesley. Y mae'r llythyrau a'r dyfyniadau'n rhoddi gwerth hanesyddol i'r llyfr, ond nid ydyw yr un o'r darnau'n anyddorol i'r darllennydd cyffredin. Dylai fod gan bob tref yng Nghymru lawlyfr fel hyn,—y mae Mr. Jenkins wedi gwneyd cymwynas fawr i Gaer Dydd.

XVIII.

Sylwadau ar Lyfr y Pregethwr. Gan y Parch. David Rees, Bronant. Tregaron, Jenkin Thomas. 208 tud. 2s.

Y mae llawer o ddywediadau tarawiadol yn y llyfr hwn, a chynghorion buddiol a chall. Esbonnir y Beibl yn ei oleuni ei hun, ac yng ngoleuni profiad y gŵr doeth o Fronant.

XIX.

Ceinion y Cwm. Gweithiau barddonol, &c., Carneddog. Tremadog, R. I. Jones. 128 tud. 1s.

Dyma weithiau barddonol, caeth a rhydd, bardd ieuanc o fugail o ardal Rhys Goch Eryri a Dafydd Nanmor. Y mae llawer o'r cyfieithiadau a'r efelychiadau'n dda iawn; ac y mae ysbryd gwladgarol byw drwy'r llyfr i gyd.

XX.

Harlech, a cantata by Joseph Skeaf. Welsh Words by Isaac Foulkes. Hen Nodiant, 3s. 6c. Tonic Sol Ffa, 1s. Cyhoeddir gan M. J. Skeaf, 53, Grove St., Liverpool.

Yr oedd y diweddar Joseph Skeaf yn hoff iawn o alawon cenhedlaethol, ac ynglyn ag alawon Cymru y gwyddis oreu am ei enw. Bu farw yng ngyfnod nerth bywyd, chware'r emyn "Aros gyda mi" oedd y peth olaf wnaeth. Bydd yn dda gan gerddorion Cymru glywed am yr argraffiad destlus hwn.

XXI.

Gwerthir ad-graffiad o erthygl y Parch. H. Cernyw Williams ar William Carey gan W. Williams, Llangollen,—ar ddathliad canmlwyddiant cenhadaeth y Bedyddwyr.

Y mae adroddiad cyflawn o gynhadledd canmlwyddiant yr Ysgol Sabothol ym Manceinion ar werth gan W. Jones, 192, Hulm Hall Lane, Miles Platting, Manchester.

XXII.

CYLCHGRONAU RHAGFYR.

Y mae'r *Cennad Hedd* yn ddyddorol iawn,—trem ar ryfeddodau'r ser, ymweliad a Llangeitho, a'r adgofion am Rowlands Aberaman yn enwedig. Y mae'r *University College of Wales Magazine* yn dal ei dir yn dda, ond gresyn ydyw torri ei ddalennau, ac argraffu hysbysiadau ar yr un ddalen a'r erthyglau. Y mae ysgrifau cerddorol a hanesyddol o gryn werth yn y *Cerddor*, gan David Jenkins, D. Emlyn Evans, a J. H. Roberts. Rhydd y *Solffaydd* ddarlun o Tom Price, a hanes ei fywyd. Carreg y Sarff, Swyn, a Chaneuon Llydaw ydyw prif destynau *Mélusine*. Tipyn yn bolitieaidd eglwysig ydyw'r *Haul;* addewir mwy o lenyddiaeth y flwyddyn nesaf.

# TUDALENNAU'R PLANT.

## HANES CYMRU.

### Gwers IV.

PAN oedd y Rhufeiniaid yn rheoli'r byd y ganwyd Iesu Grist. Y Rhufeiniaid oedd yn uno'r byd; yr oedd eu llengoedd yn tramwyo o wlad i wlad ar hyd eu ffyrdd. Ac ar hyd eu ffyrdd hwy daeth newyddion am Fab y Dyn. Buasai'n dda gennyf gael dweyd wrthych pwy ddywedodd am yr Iesu gyntaf yn ein gwlad ni. Dywed rhai mai brenin da, o'r enw Lles ab Coel, a glywodd am dano o bell, ac a anfonodd am efengylwyr i ddweyd am dano. Dywed rhai ereill mai Joseph o Arimathea, yr hwn a gladdodd yr Iesu yn ei fedd newydd ei hun, a ddaeth a'r efengyl i Bryden. Dywed yr hanes fod Joseph ac ereill wedi eu dal gan yr erlidwyr, ac wedi eu rhoddi mewn llong foel, heb lyw na hwyl, a'u gollwng i'r môr mawr. Ac wedi crwydro'n hir wrth ewyllys y gwynt a'r tonnau, daeth y llong i'n gwlad ni. Pregethodd Joseph yr efengyl yma,, ac yna bu farw, a chladdwyd ef yn Ynys Afallon, ar gwr Gwlad yr Haf, ymhell bell o'r bedd newydd hwnnw a wnaethai iddo ei hun.

Dywed rhai ereill mai fel hyn y bu. Pan awd a Charadog yn garcharor i Rufen, awd a phendefiges o'r enw Gwladus gydag ef. Priododd hon bendefig o'r enw Pudens yn Rhufen. Clywodd y ddau bregeth Paul, a chredasant. Yr oedd Paul yn hoff iawn o'r bendefiges Gymreig, y mae'n cofio ati hi a'i gŵr yn ei ail lythyr at Dimothi; ac ar ei chais taer hi, croesodd y môr, a phregethodd yr efengyl yn ei hynys.

Ond nid oes sicrwydd am yr hanesion hyn. Hwyrach mai nid brenin, hwyrach mai nid gŵr goludog, hwyrach mai nid apostol y cenhedloedd, a ddaeth a'r efengyl i ni. Hwyrach mai rhyw hen filwr gwalltwyn, hwyrach mai rhyw wraig dyner galon ddywedodd am yr Iesu gyntaf yng Nhymru,—a hwyrach mai plentyn bach.



## LLENYDDIAETH CYMRU.

Rhan o broffwydoliaeth Jeremeia ydyw y dernyn cyntaf roddais i chwi i'w dysgu ac i chwilio am dano y mis diweddaf. Gwelodd Jeremeia lawer o ofid ac anrhaith; yn yr adnodau hyn y mae'n darlunio gwlad wrth ei fodd,—gwlad lawn o heddwch, gwlad lawn o hen bobl, a gwlad lawn o blant yn chware.

Galar Llywarch Hen ydyw Rhif xviii.,—yr hen filwr yn cwyno wrth ei ffon, pan oedd ei feibion oll wedi eu lladd yn y rhyfel.

O Ddrych y Prif Oesoedd y codais Rif xix. Dywedir yno mai llythyr ydyw oddiwrth "bendefig urddasol at y pen gymanfa o wyr mawr yn Rhufen," yn darlunio Iesu Grist.

Darluniad Ieuan Glan Geirionnydd o helyg yr Euphrates ydyw Rhif xx; a darn o awdl Eben Fardd ar "Ddinistr Jerusalem" ydyw Rhif xxi. Ceiriog ysgrifennodd xxii, pan oedd ei fam wedi dod i edrych am dano i Fanceinion o Ddyffryn Ceiriog.

Darn o un o ganiadau Islwyn (Caniadau Islwyn, Hughes Gwrecsam, tud. 128) ydyw xxiii.; Dr. Cynhafal Jones ydyw awdwr xxiv; o Ganeuon Elfyn (Ffestiniog, Lloyd Roberts) y cymerais y darn olaf.

### XXVI.

I ba le yr af oddiwrth dy Ysbryd, ac i ba le y ffoaf o'th wydd? Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti; os cyweiriaf fy fy ngwely yn uffern, wele di yno. Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr, yno hefyd y'm tywysai dy law ac y'm daliai dy ddeheulaw.

### XXVIII.

Fel addfed faes o haidd
Ymdonnai'r dyrfa,
Mewn duwiol nefol aidd
Ar Green y Bala;
Fel trwy addolgar reddf,
Pan chwythai corwynt deddf,
Neu'r awel dyner leddf,
O ben Calfaria.


### XXVIII.

Y ddaear a'i gruddiau'n dduon;—y graig,
Er mor gref, yn yfflon;
Awyr brudd yn curo'i bron,
Ag haul yn torri ei galon.

---

Yn y fan yma rhoddir terfyn ar "Dudalennau'r Plant." Nid oherwydd fod neb yn cwyno na ddylai'r plant gael dwy tudalen o wyth a deugain, gydag ambell erthygl heblaw hynny, y gwneir hyn. Ac yn sier nid oherwydd nad oes ar y plant awydd i wybod am hanes a meddwl eu gwlad. Os edrychwch ar y tudalen nesaf, gwelwch fy rheswm dros droi'r plant o ddalennau Cymru. O hyn allan bydd gennyf Gymru cyfan iddynt hwy eu hunain,—hanes, meddyliau, ystraeon, dychymygion, darluniau.

PRIS CEINIOG.]




Nid wyf yn sicr y medraf esbonio yr holl wyneb ddalen i chwi. Dacw un o tynyddoedd Cymru,—yr Aran, yn ol pob tebyg,—yn uchaf. Dacw hefyd eglwys henafol Llanbeblig, Caernarfon, ac un o gapelydd Llanidloes. Dacw goleg Aber Ystwyth a choleg y Gogledd; methodd yr arlunydd gael darlun o goleg Caer Dydd. Cyn hir, bydd mynyddoedd ac eglwysi a chapelydd newyddion ar y wyneb ddalen hon. Dacw athraw yn dysgu Hanes Cymru i blant, ac yn dangos rhyw fan iddynt, y fan y ganwyd Dafydd ab Gwilym hwyrach, neu'r fan y bu Llywelyn farw. Ac wrth eu pennau dacw angylion bychain yn taflu blodau i lawr, ac y mae pob blodeuyn yn arwydd o rywbeth,—megis purdeb, cariad, sel, cyfeillgarwch, amynedd, mwynder. *(Gwel Hysbysiad yn niwedd y rhifyn hwn*

# CATHLAU HEINE.

Er pan gyflwynais o'r blaen i ddarllenwyr Cymreig gyfieithiadau o Gathlau Heine, dywedodd Mrs. Mary Davies wrthyf fod prif gerddorion yr Almaen wedi cyfansoddi miwsig i'r cathlau hyn; a thrwy garedigrwydd Mrs. Davies cefais hyd ymysg ei chaneuon i fiwsig y rhan fwyaf o'r rhai yr ymddanghosodd eisoes gyfieithiadau o honynt. O'r rhai a gyflwynir yma'n awr nid wyf eto wedi cael miwsig ond un—yr olaf, a hwnnw gan Franz (*Franz-Album* Band II., tud. 70). Y mae gennyf ymysg fy ysgrifau rai eto o'r cathlau; ond fe allai, Mr. Golygydd, fod un tudalen yn ddigon ar unwaith.

I.

*Seit die Liebste war entfernt.*

Er pan aeth f'anwylyd i,
Aeth a gwenu gyda hi;
Diddan eiriau, clywaf hwy—
Ond nis gallaf wenu mwy.

Er pan gollais f'anwyl i,
Collais wylo gyda hi;
Mae fy nghalon fach yn ddwy—
Ond nis gallaf wylo mwy.

II.

*Wo ich bin, mich rings umdunkelt.*

Ymgrynhoi y mae'r tywyllwch
Dudew trwm o'm hamgylch i,
Er pan na thywynna arnaf
Olen teg dy lygaid di.

Pallodd imi wawl fy hyfryd
Seren serch—enhuddwyd hi;
Dan fy nhraed yr egyr diffwys,—
Nos gynhenid, derbyn fi!

III.

*Im Walde wandl' ich und weine.*

Drwy'r coed yn drist y rhodiwn,
A'r fronfraith yn y gwŷdd
Yn llamu 'n llon a chanu,
"Paham yr wyt mor brudd?"

"Dy chwaer, y wenol," meddwn,
"All ateb hyn i ti—
Hi drig mewn nyth bach cywrain
Wrth ffenest f'anwyl i."

IV.

*Wie dunkle Träume stehen.*

Fel rhyw freuddwydion tywyll
Y sai rhes tai'r ystryd;
A minnau'n ddwfn i'm mantell,
Heb sôn, af heibio'n fud.

Mae'r gloch yn taro deuddeg
O'i chlochdy uchel hi;
A swynion a chusanau
Y disgwyl f'anwyl fi.

Y lleuad yw fy nghwmni
A'i theg oleuni glân;
A thyma dŷ f'anwylaf,
Mi ganaf yma gân—

"Mil diolch, hên gydymaith,
Am roddi'th gwmni c'yd;
Yn iach! tywynna eto
Heb beidio ar y byd.

"Os gweli fachgen serchog
Yn cwyno'i unig hynt,
Rho iddo'r cysur roddaist
I minnau ganwaith gynt."

V.

*Dass du mich liebst, Das wusst' ich.*

Mi wyddwn i ti'm caru,
Mi wybum hynny'n hir;
Ond pan addefaist imi,
Daeth arnaf fraw yn wir.

Dringais y bryn a chenais
Yn orfoleddus iawn;
Eis at y mor ac wylais
Wrth fachlud haul prynhawn.

Mae 'nghalon fel yr huan
A elai'n dân i lawr,
Mewn môr o serch y sudda
Mor brydferth ac mor fawr.

VI.

*Ein schöner Stern geht auf in meiner Nacht.*

Yn seren wen tywynni yn fy nos,
Gwasgeri fwyn gysuron, seren dlos,
A bywyd im addewi di—
Na thwylla fi.

Fel môr yn chwyddo tua'i loer uwchben,
Y llifa'm henaid innau, seren wen,
Tua'th oleuni anwyl di—
Na thwylla fi.

*Coleg y Gogledd.* J. MORRIS JONES.

Dywedir yn yr "Hanes" fod yr hen Gymry yn aberthu dynion! A gredwn ni yr hen Rufeiniaid digllon o flaen pob tebyg sydd yn ein hen farddoniaeth, yn ein hen ddiarhebion, ac yn ein tiroedd ni ein hunain? Cafodd teithwyr Seisnig ac Ysgotig yr oesoedd diweddaf well manteision o lawer i ddeall ein gwlad a'i phobl nag a gafodd yr hen Rufeiniaid hynny, ac eto, pwy yn ei synwyr a gredai yr hyn a ddywedir am danom gan "Deithwyr trwy Gymru," megis na fedr Cymro wenu, a'i fod yn barod i wanu pob estron a ymwelo a'i wlad, ac mai ein hiaith ydyw yr hyn a roddir fel esiamplau o honi gan rai nad oeddynt yn ei deall fel George Borrow, Catherine Sinclair, ac ereill, er eu bod hwy yn honni eu bod yn ei deall, ac fod rhywrai yn cymeryd yn ganiataol fod eu haeriadau yn gywir. Beth meddwch chwi am yr esiampl ganlynol o Gymraeg, yn cael ei roddi fel gwir sobr a digellwair?

> "Gwrymlch y Llandrygynth wydfrizigg brelch
> Slumwaer cwrwynddmawr dywreoed rwrelch."

Prin y gellir deall fod awdwr yr ysgrif ar "George Borrow" wedi darllen erthygl ragorol y Parch. William Williams, Abertawy, yn y *Traethodydd* flynyddoedd yn ol,—"Cymru trwy lygaid Saesonig"

Wrth gyffwrdd a'r "Teithwyr trwy Gymru," y rhai sydd i gael eu parhau, yr wyf yn gweled, yn y rhifynnau nesaf yr wyf yn cofio y diweddar Dr. Owen Thomas, mewn ymddiddan, yn adrodd unwaith am dano ei hun gyda rhyw gyfeillion, yn ymweled, os wyf yn cofio yn iawn, a chymydogaeth Llanberis. Ar lan llyn yno daeth bachgennyn atynt, a dechreuodd ddywedyd wrthynt am bethau hynod a rhyfedd y llyn hwnnw, a'i amgylchoedd. Ar ol gwrando arno am ychydig, cynhyrfodd Dr. Thomas, a thorrodd ar ei draws yn y Gymraeg gryfaf,—"Fachgen," meddai, "paid a dywedyd celwydd." "O'r brenin," atebai y bachgen yn ol, "ai Cymry ydych? Yr oeddwn i yn meddwl mai Seison oeddych. Chwi ellwch ddywedyd beth a fynnoch wrth yr hen Seison yma; y maent yn credu pob peth."

Y mae yr hyn a ddywedir yn yr Hanes am faint cyrff a lliw gwallt yr hen Frytaniaid yn peri i mi gofio y dysgid fi gan rywrai pan yn blentyn i gredu fod pob Gwyddel yn fyr, ac mai llwydgoch oedd lliw ei wallt, ac hefyd, fod holl bobl "godrau'r wlad,"—y rhan isaf o Sir Aberteifi,—yn ddynion mawrion iawn, ac yn enwedig fod menywod "godrau'r wlad" felly. Yr wyf fi, fel llawer ereill, ysgwaethyroedd, heb fod yn gwybod fy "*size*" yn iawn, ond yr wyf yn credu fy mod ychydig dros bump a saith. Yr oeddwn yn Llanwrtyd lawer o flynyddoedd yn ol, a daeth i letya i'r un ty a mi ffermwraig o Ferthyr Cynog, yng nghanol Brycheiniog, ac heb fod ei hun o Frycheiniog erioed. Yn fuan, cefais yr ymholiad cyffredin ganddi,—cyffredin yn y "Ffynhonnau,"—"Dyn o le i chi?" Pan atebais fy mod yn dyfod o Sir Aberteifi, dywedodd yn dra diseremoni yn fy wyneb, nad oeddwn; ei bod hi yn adnabod pobl Sir Aberteifi yn rhy dda i gymeryd ei thwyllo felly; "Y chi," meddai, "yn dwad o Shir Byrteifi, dyn bach fel y chi!" Yr unig rai oedd hi wedi eu gweled o Sir Aberteifi o'r blaen oedd porthmyn gwartheg a moch, y rhai a ddygwyddent fod yn llawn chwech troedfedd, neu fwy, o daldra. Onid ein dieithrwch ni i'n gilydd sydd yn peri i ni gredu fod llawer iawn o wahaniaeth rhyngom a'n gilydd? Cymhwyser hyn at yr hen Frytaniaid, a pha beth fydd y casgliad y deuir iddo?

Oni ddylai Ieuan Brydydd Hir fod yn y "Deffroad Llenyddol?" Yr oedd ef, yn sicr, yn fwy ym mhob ystyr na Lewis Morris, ac yn well. Yr oedd ef yn fwy na chyfieithydd. Pa un ai efe, neu ynte Goronwy Owen oedd y bardd mwyaf? Darllenner gwaith y ddau yn fanwl, a gwelir nad yw y cwestiwn yn un y gellir ei ateb yn rhwydd. Rhoddir y Prydydd Hir gennych mewn cyfnod sydd yn diweddu yn y flwyddyn 1730, y flwyddyn y ganwyd ef ynddi

Yn y "Deffroad Crefyddol," chwithig nad yw Rowland a Harris i mewn. Pa fodd y rhoddwyd enwau John Thomas, Dafydd William, a Morgan Rhys, o *flaen* enw Williams Pantycelyn; ac enw Morgan John Rhys *ar ol* enw Christmas Evans? Pa fodd y daeth enw M. J. Rhys i'r rhestr hon o gwbl? Yr oedd ef yn fwy o lenor nag oedd o bregethwr. Y mae enwau Ebenezer Morris ac Ebenezer Richard allan.

Dywedai Rowland Hill am Nathaniel Rowland mai efe oedd y "*proudest devil*" a adnabu efe erioed; mor agos i hyn yw y cymeriad a rydd Golygydd CYMRU i'r un gwr—"Nathaniel Rowland ysgoegaidd, drahausfalch."

Ond dyna, y mae yn bur debyg eich bod yn barod i ofyn pa hawl sydd gan y Prysur heb ofyn hwn i'ch blino fel hyn Ni wnaf eto.

Mewn gobeithion am lwyddiant CYMRU, a'i Olygydd, y dymunaf barhau, Anwyl Mr. Edwards,

Yr eiddoch yn gywir,

D. DAVIES.

---

## Y CORN HUNDWR.

"Sion Gutyn sy'n dymunaw
Llun dôl ych, llonnaid ei law;
Clau gorn a chic hel a gâr,
Clariwn helgwn i haelgar;
Corn mawr ymysg y cyrn mân,
Cafn crwm, fel cefn cryman;
Coedwr a'i waedd yn cadw'r wyn,
Cloch ceirw, hanner cylch cerwyn;
Minci anadl, min cynnydd,
Mal tarth pan fai'n ymlid hydd;
Melus yw yn malu sain,
Megis bol enfys blaenfain;
Bwmbard i wr a'i bumbys,
Bric llef hyd ar barc y llys;
Bwa genau bygunad,
Bôn trwmp a'i ben tua'r iad;
Gwiber dolef, ac wbain,
Ac enau mawr, ac un main."

GUTO'R GLYN.

---

## BROL AC ATEB.

"Mi garia dre Llunden
Mewn cwd, ar fy nghefen,
I ben y Garneddwen yn llawen, er llog;
Mi stopiaf Dryweryn,
Er gwyllted ei gwelltyn,
Ataliaf ei gaflyn am gyflog."

"Taw, brydydd angbyson,
Gad yna 'th benillion;
Tra byddo ser gloewon yr afon a red;
Mi wn nad oes undyn
A wisgodd ddilledyn
All rwystro Tryweryn i waered."

# CYMRU.

## CYFROL I.

DAN OLYGIAETH OWEN M. EDWARDS, M.A., RHYDYCHEN.

I GODI'R HEN WLAD YN EI HOL.

1891.

CAERNARFON, ARGRAFFWYD DROS Y GOLYGYDD, GAN D. W. DAVIES A'I GWMNI.

# RHAGYMADRODD.

NI FREUDDWYDIAIS, wrth gychwyn cylchgrawn i "godi'r hen wlad yn ei hol," y cawn gefnogiad mor frwdfrydig ac mor eang. Yr wyf yn credu nad oes dim gryfha gymaint ar gymeriad Cymro a gwybod hanes ei wlad ei hun; yr wyf yn credu nad oes gystal moddion addysg i Gymro a'i lenyddiaeth ei hun; yr wyf yn credu mai trwy gadw ei Gymreigdod y bydd Cymro gryfaf, a pharotaf i wneyd daioni, a mwyaf llwyddiannus, a dedwyddaf, ac agosaf at Dduw. Ac nid cyhoeddi hyn i rai na fynnant wrando a wneir yng Nghymru. Tybiais, wrth adrodd fy neges gyntaf, y byddai fy llais fel llais un yn llefain yn y diffaethwch, ond clywais adlais ateb braidd o bob cwm. Y mae cewri, cewri mewn meddwl a gwaith, wedi llafurio dros Gymru, ac nid aeth eu llafur yn ofer. Y maent hwy, lawer o honynt, wedi gorffwys; huna llawer un yn Ystrad Fflur neu Aber Conwy, yn Nhy Ddewi neu Lanecil. Ond y mae Cymru'n fyw.

Yr wyf yn cael llawer o lythyrau,—nid i gondemnio ac nid i ganmol,—ond i holi ac i ofyn am gymorth. Dyma lythyr oddiwrth un o arweinwyr Cymru, a byrdwn ei dudalennau hyawdl ydyw,—"Rhoddwch i ni hynafiaid, codwch yr hen wlad yn ei hol." Dyma lythyr oddiwrth eneth o Fan Euraidd New Zealand, yn holi am draddodiadau a mabinogion prydferth gwlad ei mam. Dyma lythyr oddiwrth fachgen sy'n "gyrru'r wedd" hyd un o fynyddoedd Maldwyn,—

English History,' wrth gwrs, a ddysgid i ni yn yr ysgol ddyddiol. Y cwbl a ddywedid wrthym am y Cymry oedd fod eu henafiaid yn 'barbarians' yn amser Cesar, ac nad oeddynt nemawr amgenach yn amser Edward I; ddarfod i'r gŵr da hwnnw roddi iddynt y fath gystwyad ag a gyfiawn haeddent, ag i hynny adael argraff ddymunol iawn arnynt oll, oddigerth un adyn o'r enw 'Owen Glendower.' Diolch i chwi am roddi cyfleustra i mi a'm cyfoedion i wybod hanes ein gwlad."

Amcan CYMRU ydyw gwneyd yr ychydig allaf fi a'm cydweithwyr,—rhai prysur gyda goruchwylion ereill ydym i gyd,—i adrodd hanes Cymru, i adrodd ei thraddodiadau, i roddi llafar eto i'w beirdd a'i llenorion, i godi arwyr ein hen wlad yn eu hol. A gwnawn hyn oherwydd mai cyfnod addysg Cymru ydyw'r cyfnod hwn. Yng nghyfnod ei haddysg, ni ddylid anghofio beth fu Cymru, trwy "godi'r hen wlad yn ei hol" y rhoddir cryfder i gymeriad Cymro, purdeb i'w enaid, dysg i'w athrylith, a dedwyddwch i'w fywyd.

Ceisir gwneyd CYMRU 1892 yn llawn iawn. Adroddir ei hanes, o ganrif i ganrif. Bydd y gyfrol yn llawlyfr Llenyddiaeth Gymreig. Rhoddir pigion o farddoniaeth ein beirdd goreu, gan ddechreu gyda Dafydd ab Gwilym. Darlunnir cartrefi Cymru, ardaloedd Cymru a'u pobl, beddau Cymru. Parheir yr ysgrifau ar feirdd anadnabyddus, ar yr ysgolion, ar deithwyr, ar gredoau; ac ychwanegir cyfres ar hen ysgolfeistri, hen bregethwyr, hanes gwledydd ereill. Bydd yn y gyfrol doraeth o hen lythyrau, o hen ystraeon, o benillion telyn, o hen emynau.

Ni cheisiaf gelu f'ymdrech i wneyd CYMRU'N ddyddorol. Hoffwn i'w holl erthyglau fod, nid yn unig yn glir a sylweddol, ond hefyd yn fyw ac yn ddifyr. Gwn y tybia llawer, oddiwrth hyn, mai arwynebol a brysiog ydyw'r ysgrifau. Yr wyf yn credu nad oes wirionedd nas gellir ei ddweyd yn ddigon clir i blentyn ei ddeall, ac yn ddigon deniadol i wneyd i blentyn adael ei chware i wrando arno; yr wyf yn credu hefyd fod tuedd yng Nghymru i feddwl mai dysg ydyw tywyllwch ymadrodd, ac na fedrir gosod meddwl dwfn allan ond yn glogyrnaidd a thrwy eiriau celfyddyd. Ni waeth gennyf os dywedir fod erthyglau CYMRU'N "ysgeifn ac yn boblogaidd," os llwydda eu hysgrifenwyr i osod y gwir allan ym mhurdeb tryloew ei dlysni.

Bydd mapiau, darluniau, a llaw-ysgrifau yng NGHYMRU 1892. Bydd amryw o'r erthyglau'n ddarluniedig ymhob rhifyn; ac o dipyn i beth yr wyf yn disgwyl i'r cyfrolau gynnwys darluniau o gymaint ag sydd yn bosibl o'r rhai wnaeth Cymru y peth ydyw. Y mae S. M. Jones yn parotoi darluniau o gartrefi Cymru, ac o'r golygfeydd o'u hamgylch. Yn ysgrifenwyr, arlunwyr, ac argraffwyr,—gwnawn ein goreu i wneyd y cylchgrawn yn deilwng o'i amcan ac o'i wlad.

Os tybia rhywun fod ei amcan yn dda a'i fod yn allu er daioni, yr wyf yn ddigon hyf i ofyn iddo ei ledaenu,—trwy ddweyd am dano, a thrwy ofyn i rywun ag amser ei ddosbarthu yn ei ardal.

*Rhydychen.* OWEN M. EDWARDS.

# CYNLLUN CYFROL I.

(CYFROL O RAGARWEINIAD.)

HANES CYMRU.

Llyfr I. Rhagymadrodd.

Pennod I. Daearyddiaeth Cymru .. 1
II. Blynyddoedd Cymru .. 49
III. Edrych yn ol .. 97
IV. Y Rhufeiniaid .. 147
V. Y Saeson .. .. 193

BYWGRAFFIAETH.

Y Parch. E. Herber Evans, D.D. .. 3
Owen Thomas .. .. 56
Howel Harris ... .. 117
Glan Llyfnwy .. .. 205

LLENYDDIAETH CYMRU.

Blynyddoedd Llenyddiaeth .. 53
Beirdd Cymru,—Iolo Goch .. 62
Lewis Glyn Cothi 115

Beirdd Anadnabyddus Cymru,—

William Jesus .. .. 23
Tudur Llwyd .. .. .. 62
Rowland Huw .. 108, 197
Siarl Marc .. .. .. 150

Y Marwnadau,—

Marwnadau'r Tywysogion .. 177
Marwnadau'r Bobl .. .. 210

Hen Farddoniaeth,—36, 37, 48, 61, 85, 104, 116, 197

Hen Lythyrau, — Lewis Rhys, Howel Harris, Williams Pant y Celyn, Richard Tibbot, Evan Moses, Ann Griffiths, a Ioan Tegid ... .. 28, 220

Penillion Telyn,—13, 72, 81, 114, 161, 167, 168

Barddoniaeth,—60, 124. 161, 171, 187, 196, 198

Cyfieithiadau,—5, 62, 140, 159, 209, 228

Llyfrau Newyddion,— 45, 86, 139, 188, 225

HANES CREFYDD CYMRU.

39, 43, 72, 104, 117, 135

ADDYSG CYMRU.

Prifysgol Cymru .. .. 6
Addysg y Bobl .. .. 14
Ein Hathrofeydd a'n Hysgolion,—
Coleg Aberystwyth .. .. 101
Coleg y Gogledd .. .. 155
Pynciau,— 32, 68, 131, 130, 133

CERDDORIAETH.

84, 125, 160, 172, 223

CARTREFI CYMRU.

Dolwar Fechan .. .. 8

ARDALOEDD CYMRU (a'r Gororau).

Abertawe a'r Eisteddfod .. 73
Caer Lleon Fawr .. .. 91
Llanidloes .. .. .. 199
Mynyddoedd Llanberis .. .. 216

TEITHWYR TRWY GYMRU.

I—IV. George Borrow .. .. 15

POBL RYFEDD.

Shon Catrin .. .. .. 111

GOFYN AC ATEB. 192, 224

TUDALENNAU'R PLANT.

89, 128, 165, 173, 183, 226

GWAITH Y GOLYGYDD.

44, 45, 82, 83, 126, 127, 185, 186, 231

PYNCIAU'R DYDD.

20, 26, 32, 33—36, 71, 88, 130, 133—135, 140, 162, 182

LLYTHYR AT Y GOLYGYDD. 229

RHAMANTAU.

Ymdaith yn Annwn .. .. 46
Y Fun o Eithinfynydd .. 141, 189, 232



## AT OHEBWYR

O hyn hyd y rhifyn nesaf cyfeirier pob gohebiaeth i Owen M. Edwards, Llanuwchllyn, y Bala. Ar ddiwedd blwyddyn hoffwn ddweyd wrth y cyfeillion caredig sy'n anfon erthyglau a nodion a thonau imi,—"Caffed amynedd ei pherffaith waith." Ni fedraf, er gwneyd fy ngoreu, roddi'r erthygl yn y rhifyn cyntaf ar ol ei chael. Yr wyf yn ceisio gwneyd pob rhifyn yn ddyddorol i lawer o wahanol ddosbarthiadau o ddarllenwyr, ac felly y mae llawer o waith trefnu a phigo. Heblaw hyn yr wyf yn ceisio gwneyd y tudalennau'n brydferth trwy ddechreu erthyglau ar ben y tudalen, eto heb adael lle gwag. Rhwng popeth, bydd cynnwys pob rhifyn yn cael ei benderfynu lawn fis ymlaen llaw. Gwelais ganeuon anfonasid i mi, ac a fwriadaswn gyhoeddi, yn ymddangos mewn cylchgronau ereill. Y mae digonedd o fater llenyddol yng Nghymru, a gresyn cyhoeddi dim yn afraid.

Anfonir llythyrau o awgrymiadau a gwybodaeth fuddiol imi. Gwel fy ngohebwyr caredig fy mod yn gwneyd peth gwell nag ateb eu llythyrau,—derbyn eu cynghorion. Gwn ei fod yn llawenydd iddynt weled tudalennau CYMRU'n ymgyfoethogi oherwydd eu hawgrymiadau.

Sylwer fy mod yn gwneyd yr hyn a allaf, yn y tudalen sydd at fy ngalwad, i roddi cyhoeddusrwydd i lyfrau newyddion teilwng ac i gylchgronau. Nid adolygiadau manwl sydd i'w disgwyl, ond dwyn y llyfrau i sylw. Eithr gwneir defnydd o lawer o'r llyfrau drachefn, trwy ddyfynnu o honynt,—os caf ganiatad yr awduron,—a chyfeirio atynt.

Dymunwn ddiolch yn wresog i'r rhai wnaeth gymwynas a mi drwy anfon Dychmygion eu hardal imi. Y mae yn fy llaw Ddychmygion Llandecwyn, Capel Bangor, a Chaernarfon. Yr wyf yn disgwyl toraeth eto. Ymddanghosant yng NGHYMRU'R PLANT. Bydd erthygl arnynt, yn dweyd eu hanes, ac yn eu cydmaru â Dychmygion Seisnig a Lladinaidd, yng NGHYMRU cyn hir.

Yr wyf yn gofyn am gymwynas arall. Er mwyn "codi'r hen wlad yn ei hol," hoffwn gael cymhorth i gyhoeddi llawysgrifau Cymreig. Os oes rhywun yn meddu ar lawysgrifau, byddwn yn hynod ddiolchgar am eu benthyg am ysbaid byr. Neu, os oes rhywun yn barod i'w gwerthu, cynhygiwn bris rhesymol, neu gwnawn fy ngoreu i ddweyd beth fuasai'n bris rhesymol am danynt. Llawysgrifau o weithiau Dafydd ab Gwilym, Dafydd ab Edmwnd, neu Ddafydd Nanmor fuasai'n fwyaf derbyniol; ond y mae llnoedd o feirdd Cymreig y dylid rhoddi eu gweithiau i'r cyhoedd.

CHARLES ASHTON.—Dymuna Mr. Ashton hysbysu mai pump a chwech, ac nid coron,—fel y cam hysbysais,—ydyw pris ei lyfr ar yr Esgob Morgan. Cofier dweyd pris pob llyfr anfonir i'w adolygu.

BOOTLE.—Bydded hysbys mai "mustered" ddylid ddarllen yn y llinell gyntaf o gyfieithiad Owen Thomas o emyn Hiraethog, ac nid "numbered,"—fel y mae yn y rhifyn diweddaf.

H. J. E.—Nis gallaf ddweyd, ac nid wyf yn sier a all neb ddweyd, pryd y gorffennir cyhoeddi Geiriadur Silvan Evans. Spurrell, Caerfyrddin, ydyw'r cyhoeddwr, ac arno ef y mae'r amser yn dibynnu. Y mae dros 1100 o dudalennau wedi ymddangos, ac nid ydys eto wedi gadael y llythyren C. Y mae mwy o eiriau Cymraeg yn dechreu gyda'r llythyren hon na chyda'r un lythyren arall. Cyhoeddir y Geiriadur yn rhannau, rhan i bob llythyren. Buasai'n llawer gwell ei gyhoeddi'n rhannau swllt neu ddeuswllt, unffurf unbris. O fân eiriaduron, y mae'r un gyhoeddir gan Hughes Gwrecsam am swllt a deunaw mor gyfleus a'r un.

B. A. (Lond).—Nid oedd gwaed Cymreig yn Thomas Cromwell, hyd y gwn i. Ond priododd Gymraes,—gwraig weddw o'r enw Elizabeth Williams, un y mudasai ei theulu o ardal Caer Dydd i gyffiniau Llunden. Yr oedd gwaed Cymreig yn Oliver Cromwell yn ddi-ddadl. Anwybodaeth a rhagfarn Carlyle wna iddo wawdio yr ymgais i wneyd Cromwell yn Gymro. Cyhoeddaf yn y rhifyn nesaf hen lawysgrifau rydd sicrwydd terfynol ar hyn o ddadl.

MOTUPIPE (New Zealand).—Bydd hanes cestyll Caernarfon a Chonwy yn rhifynnau'r flwyddyn hon. Ceisir chwilio am bob traddodiad a berthyn iddynt.

D. E. S.—Dywed hen ysgrif mai Lincoln ydyw Caer Lwydcoed, mai Lancaster ydyw Caer Hirfryn, mai Hull ydyw Caer Ffynidwydd, ac mai Gladstonbury ydyw Caer Wydring. Edrychwch yr ail gyfrol o'r *Brython.*

# Y FUN O EITHINFYNYDD.

## PENNOD III.

### Y CYFF CLER.

DRANNOETH wedi'r wledd ymadawodd Dafydd a Phrys o Lan y Blodwel.

"I ba gyfeiriad yr ydych ym myned heddyw, mistar?" gofynnai Prys.

"I Lanfaglan. Yr wyf yn bwriadu aros heno yn llys Ieuan ab Lleision," atebai Dafydd.

"Agos i ddeugain milldir. Wel ni gyrhaeddwn yno yn brydlon 'rwy'n tybied, yr ydym wedi teithio milldir eisoes, dyna garreg" ——

"Beth sydd fan acw? Y mae rhyw gynhwrf yn bod," meddai Dafydd, gan gyfeirio a'i chwip at ffermdy bychan oedd yn sefyll ychydig allan o'r ffordd. "Awn i weled."

"Na, mistar, ewch chi yn ara' ar hyd y ffor', ac af fi i weld beth sy'n bod; gwyddoch na fyddai yn ddiogel i chi fynd yna; ac os cawn anhap eto, ys gwn i pa bryd y cyrhaeddwn Ynys Mon, ac" —

"Wel dos ynte, Prys."

Aeth Prys at y ffermdy, gan adael y ceffyl gyda'i feistr yn y ffordd. Gwelodd na buasai yn ddiogel i Ddafydd fod yno. Yr oedd y prif-feirdd yn cael rhyddid i ymweled a phalasau a chestyll y mawrion, o'r rhai y ceuid y mynachod a'r clerwyr allan; a chan hynny byddai y rhai hyn yn eiddigeddus iawn os deuai prif-fardd i dy cyffredin, am yr ystyrient mai eu heiddo arbennig hwy ydoedd y mân ffermdai ar hyd y wlad. Y mae yn sier pe buasai Dafydd wedi myned at y ffermdy hwn na ddaethai oddiyno heb ei glwyfo. Ni bu Prys yn hir heb ymuno a'i feistr.

"Yr oedd yn dda iawn nad aethoch yno," dechreuai Prys wedi iddo esgyn ar gefn ei geffyl, "y cyntaf a adnabyddais oedd Eilir, a daeth ataf gan edrych yn ffyrnig iawn, a dywedodd—'Dywed wrth dy feistr y lladdaf ef pan gaf afael ynddo. Gwell iddo ef gadw at ei farddoni, ei foneddigion, a'i ferched, nac ymyrryd â'r hyn sydd yn perthyn i bobl ereill.' 'Arnat ti dy hun 'roedd y bai,' meddwn innau. 'Pam 'roedd eisie' i ti roi her gyhoeddus os oedd arnat ofn cael dy orthrechu?' Ni atebodd Eilir, ond aeth yn ol at y terfysgwyr. A dyna lle 'roedd tyrfa gymysg o fynachod a chlerwyr, a rhai ereill oedd yn y campau ddoe, yn ymladd a'u gilydd, gan luchio cerrig a phob peth a allent gael gafael ynddo, nes yr oedd llawer yn gorwedd ar lawr wedi eu clwyfo,"—

"Beth oedd dechreu yr ymrafael?" gofynnai Dafydd.

"Feddyliwn mai cyd-gyfarfod wnaeth tyrfa o fynachod a thyrfa o glerwyr yn yr un ty, a chan fod y lle yn rhy gyfyng, ceisiai y clerwyr, y rhai ddaeth yno gynta', fwrw y mynachod allan, ac yna aeth yn ymrafael rhyngddynt, ac o'r diwedd yn ymladd."

"Ymaith a'r mynachod! Er fod llawer o'r clerwyr yn rhai digon gwageddus, eto, y maent yn well ganwaith na'r mynachod anfad. Dafyddai eu hysgymuno hwy o'r wlad."

Cyrhaeddasant i Faglan yn y prydnawn, a chawsant dderbyniad cynnes gan Ieuan ab Lleision, a hysbysodd Ddafydd fod yno amryw feirdd,—yn eu plith Gruffydd Grug a Rhys Meigen,—a'u bod yn bwriadu cynnal cyff clêr drannoeth.

"Holo! beth wyt ti'n wneyd yn y Gogledd ar hyn o bryd?" gofynnai Gruffydd Grug, pan ddaeth Dafydd i mewn.

"Dilyn fy amcanion fy hunan," atebai Dafydd dan wenu.

Gyda hyn daeth Rhys Meigen i mewn a'i fraich wedi ei rhwymo.

"Beth a ddigwyddodd i Rys Meigen?" gofynnai Dafydd.

"Cael anafu ei fraich a wnaeth rywfodd," atebai Gruffydd Grug. "Nid ydyw yn egluro yn iawn sut y bu'r anffawd. Ni welais ef er pan oeddwn ym Maesaleg hyd heddyw."

"Myn Sant Antwn! mae'n ddrwg gennyf glywed am yr anffawd," meddai Dafydd mewn llais lled uchel, gan edrych i gyfeiriad Rhys, yr hwn a gododd ei olwg, ac a welodd Dafydd yn edrych arno. Gwyddai fod Dafydd wedi arfer y llw fyddai ef yn arfer, er mwyn rhoddi ar ddeall iddo ei fod wedi ei adnabod wrtho, pan yr ymosodwyd arno ef a Iolo Goch ar y ffordd i'r Ddôl Goch. Yr oedd Rhys yn welw o dan effaith edrychiad llymdreiddiol Dafydd; ond ni fuasai raid iddo ofni unrhyw gosp gorfforol oddiar law Dafydd, gan na wnai y bardd ymostwng i ymliw ag un o fath Rhys, nac ychwaith i wneuthur sylw o hono ond yr hyn oedd ofynnol ynglyn a'u galwedigaeth farddonol. Yr oedd Dafydd yn rhyfeddu at natur genfigennus, ddialgar, Rhys Meigen; nid oedd ddigon ganddo daflu y diystyrwch mwyaf arno mewn cyff clêr yn Emlyn, ond yr oedd ei elyniaeth tuag ato wedi myned mor bell ag i wneyd ymgais am ei fywyd ar y ffordd fawr. Penderfynodd Dafydd, os disgynnai i ran Rhys Meigen i fod yn gyff clêr drannoeth, y canai iddo gân nad anghofiai yn fuan, ac y gwelai mai bod yn dawel oedd y doethaf iddo rhagllaw.

Cododd Dafydd gyda'r wawr drannoeth, ac aeth allan i'r goedwig gerllaw i fyfyrio yn dawel, ac nid aeth yn ol i'r ty hyd adeg y cyff clêr. Eisteddai y beirdd yn gylch, a safai Rhys yn y canol yn barod i wneyd ei oreu i amddiffyn ei hun gyda'i awen yn erbyn eynhyrchion ei gyd-feirdd. Heblaw y beirdd yr oedd yno lawer o gyfeillion Ieuan wedi dyfod i wrando ar yr ymryson canu. Yr oedd tro amryw o feirdd cyn Dafydd, a phan ddaeth ei adeg, cododd ar ei draed, a dechreuodd adrodd ei duchangerdd* a gyfansoddodd yn y goedwig y boreu hwnnw. Fel yr elai ymlaen gwelwai gwyneb Rhys yn raddol, ac yr oedd distawrwydd yn teyrnasu drwy'r llys; a phan oedd yn adrodd yr ugeinfed englyn yr oedd y cyff clêr druan wedi myned i grynnu fel deilen, ac yn amlwg bron a syrthio; ac ar yr eilfed ar hugain disgynnodd yn drwm i'r llawr. Ar hyn yr oedd y lle yn gynhwrf i gyd, a gwelwyd fod Rhys mewn gwasgfa. Yn ffodus yr oedd ymhlith cyfeillion Ieuan un o feddygon Myddfai, a daeth ef ymlaen i wneyd archwiliad ar Rys, ac wedi gorffen dywedodd na welai neb Rhys Meigen yn fyw drachefn. Rhoddodd hyn ben ar y cyff clêr, ac nid oedd neb yn fwy gofidus oherwydd yr amgylchiad galarus na Dafydd ab Gwilym. Er hynny, gwelai ei fod yn debyg i faru yn dal drwgweithredwr; yr oedd Rhys wedi ceisio ei ladd yn ddisymwth ar y ffordd yn y nos, ac ni wnaeth ond adrodd cerdd mewn cyff clêr, peth hollol gyfreithlawn. Arhosodd Dafydd ym Maglan hyd gynhebrwng Rhys, yna aeth ef a Phrys i Gaernarfon er mwyn croesi drosodd i Fôn. Nid oedd Dafydd erbyn hyn yn teimlo y fath gariad angherddol at Angharad ag a deimlai cyn cychwyn o Faesaleg, pan glywodd gyntaf ei bod wedi ei hanfon ymaith. Ei amcan yn awr ydoedd, nid datgan ei serch tuag ati, ond ceisio ganddi ddychwelyd i dŷ ei thad, gan addaw y gwnai yntau egluro i Ifor nad oeddynt ond cyfeillion. Yn y rhagolwg o ddiwedd cysurus i'w ymdaith a'i ddychweliad gydag Angharad i Lys Ifor, parotodd gân o ymddiheurad† i'w chyflwyno i Ifor ar yr amgylchiad hapus, ymha un y mae yn gwadu yr hyn a ddygwyd gan y werin gelwyddog i'w erbyn ef ac Angharad, ac yn tyngu,—

> "Hyn i gyd, henwn un gair,
> A dyngaf myn y Dengair;
> Myn Arglwydd yr Arglwyddi,
> Coch yw'r ais na'm coelir i!"

Ni soniodd Dafydd na Phrys am enw Angharad yn ystod eu hymdaith o Faesaleg. Ond wedi cyrraedd i Borthaethwy, dechreuodd Dafydd son am dani.

"Ti a wyddost beth yw fy neges yn yr Ynys, Prys?" gofynnai Dafydd.

"Ceisio gweled Angharad, onidê? A phwy a ŵyr ymha ran o'r Ynys y mae, bydd raid i ni chwilio yn ddyfal o'r naill ben i'r llall, ac feallai y deuwn o hyd iddi cyn hir."

"Yr wyf yn meddwl mai y cynllun goreu ydyw i ni ymwahanu, ac i ti fyned un ffordd a minnau ffordd arall, a gadael y ceffylau yn nhy fy nghyfaill Gwilym Llwyd yn Aberffraw hyd nes y dychwelwn o'n hymchwilfa."

"A awn ni i'r Aberffraw heno?"

"Na, arhoswn yn y gwesty acw hyd y boreu, yna cei di fyned a Hywel a Bleddyn i dy fy nghyfaill, a dechreuaf finnau ar fy mhererindod."

Drannoeth, yn blygeiniol, ymadawodd Prys â'i feistr, ar ei ymdaith i'r Aberffraw, ac wedi i'r gwas gychwyn rhoddodd Dafydd ei fantell am dano a'i gap am ei ben, ac aeth allan. Nid y fantell wych frodiedig ac ymyl o fanflew, a'r cap wedi ei addurno a phlu a arferai wisgo, a roddodd am dano y boreu hwn; ond mantell syml o frethyn llwyd, a chap o'r un defnydd. Yr oedd gan Ddafydd ddau reswm dros gadw ei hun mor ddieithr ag oedd modd. Un oedd, y dybiaeth y gallai y rhai yr oedd Angharad dan eu gofal ei hanfon ymaith o'r Ynys os daethent i wybod ei fod ef yno yn chwilio am dani; a pheth arall, ofnai fod rhai o drigolion Mon yn edrych arno fel achosydd marwolaeth ddisyfyd Rhys Meigen, yr hwn a hannai o'r Ynys, ac yr ymddygent ato fel y cyfryw.

Cychwynnodd Dafydd yn araf ar hyd y brif-ffordd oedd yn arwain o Borthaethwy i gyfeiriad Llandegfan, ac aeth heibio i amryw o leiandai gan wneyd ymholiadau yn eu cylch yn y gwestai cyfagos iddynt, neu i fforddolion a ddigwyddai gyfarfod. Fin yr hwyr daeth i Langoed ac at fynachlog perthynol i'r Brodyr Llwydion. Curodd yn y porth, a daeth hen borthor i agoryd iddo, ac arweiniodd ef i mewn i'r cyntedd.

"Ai ymofyn llety, neu ymborth yr ydwyt, fy mab?" gofynnai'r hen borthor.

"Nid hynny ychwaith, ond deisyf cael gweled y sanctaidd Abad, a chael rhyddhad oddiwrth fy mhechod yn y gyffesgell."

"Y fendith oreu ar y ddaear hon, gwell na bwyd na diod! Aros yma ennyd hyd nes yr hysbysaf y Sanctaidd Dad o'th ddyfodiad," meddai y porthor, gan fyned allan o'r ystafell.

Er fod Dafydd yn dirmygu llawer o arferion ynglyn ag Eglwys Rufen, ac yn eashau y mynachod crwydrol a chardotlyd oedd yn cyflawni erchyllderau dan rith

* Rhif 230. Cân D. ab G.
† Rhif 12. Cân D. ab G.

crefydd, ac yn bla ar bobl gyffredin y wlad, eto, nid oedd yn byw fel pagan, ac yn esgeuluso ei grefydd yn llwyr, ond cyd-ymffurfiai a gofynion rhesymol yr eglwys. Yr oedd hefyd yn oleuedig mewn pynciau mawrion duwinyddiaeth, athrawiaeth y Drindod, yr Ymgnawdoliad, yr Iawn, a Rhagluniaeth.*

Wedi i Ddafydd gael yr ystafell iddo ei hun, aeth at y ffenestr i wylio gweithrediadau tri o fynachod, y rhai oedd yn trin yr ardd berthynai i'r lle. Tra yn edrych drwy y ffenestr canfyddodd fintai yn dynesu yn araf o ben draw i'r ardd, a deallodd yn fuan mai mynachesau oeddynt yn dyfod o'r Lleiandy cyfagos. Mewn munud yr oedd yn llawn bywiogrwydd a disgwyliad, ac edrychai yn bryderus ar bob wyneb fel yr elai heibio y ffenestr, ac o'r diwedd, gwelodd yr hon y daeth i chwilio am dani ymysg y rhai olaf yn y fintai. Aeth heibio i'r ffenestr a'i llygaid tua'r llawr, ac yr oedd ei hymddanghosiad yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd yn nhy ei thad; er hynny yr oedd Dafydd yn rhy gyfarwydd a'i gwynebpryd i wneyd camgymeriad, ac adnabyddodd hi yn y fan, er ei diwyg ddieithr. Mawr oedd ei lawenydd am ei lwyddiant anisgwyliadwy; ac yn ei orfoledd neidiodd o amgylch yr ystafell, gan daflu ei gap i fyny, ac adrodd—

"Gwelais wyneb glwys waneg,
A phen dyn, rudd ffuon deg;
Ni weles neb wyneb iach,
Drud fudd deigr, nid oedd degach"†

Yr hyn a ddaeth ag ef ato ei hun, oedd gweled y porthor yn sefyll yn nrws yr ystafell, ac yn edrych fel be buasai yn ameu a oedd yn ddiogel iddo ddyfod i mewn ai peidio, gan ei fod yn ofni dyfod i wrthdarawiad a dyn wedi colli ei synhwyrau. Ond rhoddodd Dafydd ei ofnau ar chwâl drwy ofyn a oedd yr Abad yn barod.

"Wr ieuanc, nid wyf yn dy weled mewn ysbryd gweddus i fyned i wydd y Tad, nac ychwaith yn ymddwyn yn deilwng o'r ty crefyddol yr wyt ynddo yn awr," atebai yr hen wr yn ddifrifol.

"Fy llawenydd a dorrodd allan wrth weled fy nymuniad yn cael ei gyflawni," atebai Dafydd.

Edrychodd y porthor yn graffus ar y bardd; ni wyddai ef am un dymuniad arall o'i eiddo ond yr un o gyffesu ei bechodau.

"Y mae arnaf ofn fod dy natur wageddus yn dy arwain ar gyfeiliorn. Ond tyred yn awr, y mae fy meistr yn disgwyl, a bydded i Fab y Forwyn Fair faddeu i ti am dy gamymddygiad heno."

Daeth Dafydd allan o'r gyffesgell, wedi cael maddeuant o'i bechodau, ac hefyd wedi ei gyflogi yn was i'r Abad; ac fel hyn y digwyddodd. Wedi i Ddafydd ddarfod cyffesu, dywedodd ei fod yn ddieithr yn y wlad ac yn dymuno cael rywbeth i'w wneyd i ennill ei fara.

"Nid ydyw y dwylaw yna yn ddwylaw gwas," atebai yr Abad, "a phe buaswn heb ddigwydd gweled y dorch aur sydd am dy wddf,—sydd yn cael ei chuddio gan y fantell lwyd yna,—yr oeddwn yn deall wrth dy iaith a'th ymarweddiad dy fod o haniad boneddigaidd. Y mae gennyt ti reswm dros ymddieithrio fel hyn, ond nid wyf am dy holi yn ei gylch, ychwaneg na gofyn ai unrhyw ddrwg weithred o'th eiddo dy hun sydd yn dy orfodi i wneyd hyn?"

"Ar fy ngobaith am y nefoedd, yr wyf yn eich sierhau mai yr unig achos o hyn ydyw ofni cael fy rhwystro i wneyd cymwynas i fy noddwr a'm câr," atebai Dafydd.

"Digon yw, fy mab. Ac yn awr y mae gennyf gynhygiad i'w roddi i ti. Y mae fy ngwas wedi ymadael, a wnei di lenwi ei le?"

"Gyda'r parodrwydd mwyaf," atebai Dafydd.

"Cymer galon, ni bydd dim caledwaith yn disgyn i'th ran, ni raid i ti ond gweinyddu ar fy angenrheidiau personol."

"Un peth a ddeisyfaf gennych cyn cwbl ymrwymo, sef, cael caniatad i fyned i Borthaethwy ymhen dau ddiwrnod. Fel y dywedasoch, yr wyf o haniad boneddigaidd, a daeth fy ngwas a minnau o'r Deheubarth i'r Ynys hon i chwilio am fenyw deg, merch fy noddwr, gyda'r amcan o'i dychwelyd i dŷ ei thad. Dywedais wrth fy ngwas y cyfarfyddwn ef ymhen dau ddiwrnod ym Mhorthaethwy, i adrodd fy llwyddiant yn yr ymchwiliad. Os caniata eich parchedigaeth i mi fyned, yr wyf yn addaw dychwelyd yma yr un diwrnod."

"Yr wyf yn foddlawn i ti fyned. Beth yw dy enw?"

"Gwilym."

Ni ddywedodd Dafydd wrth yr Abad mai mewn Lleiandy yr oedd yr hon a geisiai. A thybiodd y Tad mai cael ei dwyn drwy drais a wnaeth y feinir, gan ryw edmygwr galluog, ac mai Gwilym ydoedd ei chariadfab, yr hwn oedd yn bwriadu gorthrechu ei gyd-ymgeisydd drwy ddwyn y fenyw oddiarno. Byddai y Tadau Sanctaidd bob amser yn rhy barod i esgusodi pechodau o'r fath, yn enwedig os byddai hynny yn dod a thrysor i'w coffrau, a danteithion ar eu byrddau.

* Gwel Rhif 239—246. Can D. ab G.

† Rhif 8 Can D. ab G.

NATIONAL LIBRARY

**Cyhoeddiad Newydd Misol Darluniadol i'r Plant.**

IONAWR 15FED, 1892.

CYHOEDDIR Y RHIFYN CYNTAF O

# "Cymru'r Plant,"

DAN OLYGIAD

**O. M. EDWARDS, M.A.,**

RHYDYCHEN.

BRAS GYNHWYSIAD O'R RHIFYN CYNTAF:—

At y Plant.
Hanes Cymru. (Gyda Map.)
Llenyddioeth Cymru.
Adgofion Mebyd. (Gyda Darlun.)
Cartrefi Cymru. (Gyda Map.)
Bechgyndod Cymry Mawr. I. Charles o'r Bala. (Gyda Dar-luniau.)
Lludd a Llefelys.
Dychmygion Llandecwyn.
Dafydd ab Gwilym.
Bedd y Cenhadwr.
Cân Newydd.
Ystraeon, Manion, Llythyrau, &c.

AR WERTH GAN HOLL LYFRWERTHWYR A DOSBARTHWYR LLYFRAU DRWY GYMRU A THREFYDD LLOEGR.

Pob archebion yn ddioed i

**D. W. DAVIES & CO.,**

ARGRAFFWYR, CAERNARFON.

# CALVINISTIC METHODIST OR WELSH PRESBYTERIAN THEOLOGICAL COLLEGE.

BALA, NORTH WALES.

PRINCIPAL:—REV. T. C. EDWARDS, D.D

(LATE PRINCIPAL OF THE UNIVERSITY COLLEGE OF WALES, ABERYSTWYTH).

THIS College, first established in 1837 for the training of Ministers among the Welsh Calvinistic Methodists, will be opened next September as an Exclusively Theological College, into which ALL will be admitted whether candidates for the ministry or laymen. A fee of £5 for the Session will be charged in the case of Students not candidates for the ministry among the Calvinistic Methodists.

## CANEUON I DENOR NEU SOPRANO:—

"GORPHWYS AR Y RHWYFAU." Y Geiriau a'r Gerddoriaeth gan AP GLASLYN. Yn y Ddau Nodiant. Pris 6ch.

"CANWYLL FY LLYGAD WYT TI!" Y Geiriau gan GLAN PADARN. Yr Alaw gan AP GLASLYN. A'r Cyfeiliant gan EOS BRADWEN. Yn y Ddau Nodiant. Pris 6ch.

"PA LE MAE'R AMEN." Y Geiriau gan GWYROSYDD, allan o "Drysorfa y Plant," a'r Gerddoriaeth gan AP GLASLYN. Yn y Ddau Nodiant (Y Seithfed Argraphiad yn awr yn barod). Pris 6ch.

CAN A CHYDGAN—"BOED YSBRYD EIN CYNDADAU." Y Geiriau gan TALHAIARN, a'r Gerddoriaeth gan HUGH JONES, Caernarfon. (Buddugol yn Eisteddfod y Bedyddwyr, Caernarfon.) Yn y Ddau Nodiant. Pris 6ch.

*Y mae y Gân hon yn cael cymeradwyaeth arbenig yn mhob man y cenir hi.*

## CANIG:

Y GWLITHYN." Gan y diweddar R. ROBERTS, Ysw. (Organydd Eglwys Gadeiriol Bangor). Y Geiriau gan R. J. DERFEL. Pris, Hen Nodiant, 3c.; Sol-ffa, 2g.

## ANTHEMAU:

CHWECH O ANTHEMAU BYRION A SYML,

AT WASANAETH CREFYDDOL,

GAN R. S. HUGHES, R.A.M.

Yr oll yn yr Hen Nodiant, SWLLT; Sol-ffa, 6ch.

GELLIR EU CAEL YN RHIFYNAU AR WAHAN:—

1. ANTHEM ANGLADDOL—"MAE NGHYFEILLION ADRE'N MYNED," a "MOLWCH YR ARGLWYDD." Hen Nodiant, pris 6ch; Sol-ffa, 4c.
2. "CLYW, O DDUW, FY LLEFAIN." Hen Nodiant, pris 6ch.; Sol-ffa, 1½c.
3. "CADW FI, O DDUW." Hen Nodiant, 3c.; Sol-ffa, 1½c.
4. "YR ARGLWYDD YW FY MUGAIL," a "DUW SYDD NODDFA." Hen Nodiant, pris 6ch.; Sol-ffa, 1½c. yr un.

# D. W. DAVIES & CO., BRIDGE ST.

CAERNARFON.

# IONAWR 1af, 1892,

*Cyhoeddir y Rhifyn Cyntaf o'r WYTHFED GYFROL A DEUGAIN o'r*

# TRAETHODYDD:

CYLCHGRAWN CENEDLAETOL CYMRU.

---o---

*Amcana ymhob ffordd at ddiwylliad uchaf y Cymry, a chyfoethogir ei dudalennau gan ein hysgrifenwyr galluocaf.*

---o---

CYNHWYSA RHIFYN IONAWR:—

"Diffyniad Aristides, gan Athronydd o Athen, i'r Ffydd Gristionogol, a gyflwynwyd i'r Ymerawdwr Hadrian, O.C. 125." Gwaith a ddarganfyddwyd yn ddiweddar yn Llyfrgell Mynachlog St. Catharine, ar Fynydd Sinai.

"Yr Epistol at y Galatiaid;" y gyntat o bedair o Erthyglau Eglurhaol, gan y Parch. Abel J. Parry.

"Jiwbili y Tonic Sol-ffa." Gan Mr. Eleazer Roberts.

"Cristionogaeth Bersonol." Gan y Parch. Llewelyn I. Evans, D.D.

"Addysgiaeth Amaethyddol yng Ngogledd Cymru." Gan y Proffeswr Dobbie, M.A., D.Sc.

"Rhesymau am Ddadgysylltiad yng Nghymru." Gan y Parch. Evan Jones.

"Trefnidedd Gwladol y Deon a Dadwaddoliad." Gan y Parch. W. O. Jones, M.A.

---o---

*DAW ALLAN YN DDAU-FISOL.* PRIS SWLLT.

TELERAU ARFEROL I DDOSBARTHWYR.

CYHOEDDWYR:—D. W. DAVIES & CO., CAERNARFON.

# RHESTR O LYFRAU

(RHAI AGOS ALLAN O BRINT)

CYHOEDDEDIG NEU AR WERTH

GAN

## D. W. DAVIES & CO.,

CAERNARFON.

---

ESBONIAD Y PARCH. T. C. EDWARDS, D.D., AR YR HEBREAID. Ychydig gopïau ar law, haner rhwym cryf (lledr). Pris cyhoeddedig, 3s. 6c. Anfonir y cyfryw yn rhad drwy y post ar dderbyniad 2s. 6c.

---

ESBONIAD AR LYFR GENESIS (Trydydd Argraphiad), gan y Parch. RICHARD HUMPHREYS, Bontuewydd, Caernarfon. Pris mewn lliau, 3s. Haner rhwym cryf, 4s. Telerau arferol i Lyfrwerthwyr a Dosbarthwyr. Telerau neillduol i Ysgolion Sul.

---

GWEITHIAU EBEN FARDD, mewn llian, am 5s. Pris cyhoeddedig, 15s. Cyfrol hardd pedwar plyg.

---

CORPH Y GAINC: holl gyfansoddiadau barddonol Dafydd Ddu Eryri, yn cynwys Awdlau, Cywyddau, a nifer fawr o Garolau. Pris mewn llian, 2s. 6c. Pris cyntefig, 5s. 6c.

---

ADGOF UWCH ANGHOF: Llythyrau lluaws o brif enwogion Cymru, casgledig gan Myrddin Fardd. Cyfrol drwchus, llian goreuredig. Pris presenol, 2s. 6c. Cyhoeddedig, 5s. 6c.

---

COFIANT A PHREGETHAU Y DIWEDDAR BARCH. J. FOULKES JONES, B.A., MACHYNLLETH, gyda darlun. Llian, 5s.

---

COFIANT Y PARCH. GRIFFITH JONES, TRE'GARTH, gan R.O., Bethesda. Pris Swllt.

---

DRYCH Y PRIF OESOEDD. Mewn amlen. Pris cyntefig 2s., yn awr 1s., neu Post Free 1s. 2c.

---

BYWYD Y PARCH. EBENEZER DAVIES, Llanerchymedd, gyda detholiad o'i Bregethau. Llian, 1s. Pris cyntefig, 2s. 6c.

---

Y GORON, Y SENEDD, A'R WERIN: Hanes ffurf-lywodraeth Prydain Fawr, yn cynwys esboniad cryno ar Hawliau a Breiniau y Tri Gallu sydd yn cyfansoddi y Llywodraeth, gan Ap Hywel Dda. Pris 9c., pris blaenorol, 1s.

---

Nid yw y prisiau uchod yn cynwys y cludiad.

---

Anfoner yn uniongyrchol at D. W. DAVIES & Co., Cyhoeddwyr, Caernarfon.

## *Allen & Hanburys'* Castor Oil

**Tasteless. Pure. Active.**
**Sold everywhere at 6d., 1/, 1/9 & 3/.**

Cymerir ef gan blant a rhai mewn oed heb yr anhawsder lleiaf, tra y mae ei effeithiau ar y corph yn ddiamheuol. Medda yr holl ragoriaethau a honir iddo. —*Lancet.*

**SIX GOLD MEDALS AWARDED**
New Zealand, 1882; Calcutta, 1884; London, 1885; New Orleans, 1885; Southern States, 1886.

## Goddard's Plate Powder

NON MERCURIAL.

For nearly Half a Century this Powder has sustained an unrivalled reputation throughout the United Kingdom and Colonies as the Best and Safest Article for Cleaning SILVER & ELECTRO-PLATE. Sold in Boxes, 1s., 2s. 6d., and 4s. 6d. each.

·POSTAL SHOPPING·

## Hy. PEASE & Co's

SUCCESSORS

LADIES
WRITE FOR PATTERNS
OF ALL THE LATEST NOVELTIES
IN DRESS MATERIALS
AT MILL PRICES

SPINNERS & MANUFACTURERS
The Mills
DARLINGTON.

ANFONWCH DRWY'R POST

☞ Anfoned y Bene[illegible] igeiau am Batrymau o'r Nwyddau Diweddaraf.

"Y mae mor ddiarchwaeth ag y mae yn bosibl i Cod Liver Oil fod." —*Lancet.*
"Nid oes archwaeth anhyfryd yn codi i'r genau ar ol ei lyncu." —*Medical Press.*

# *Allen & Hanburys'*

"PERFECTED"

# Cod Liver Oil

Gall y gwanaf ei gymeryd a'i dreulio. Dyma yr unig Oil nad yw ei archwaeth yn codi o'r stumog i'r genau. Ac am y rheswm hyn, yr Oil yma yw y goreu o [illegible] at effeithiol mewn arferiad.

Mewn llwch-boteli yn unig, am 1s. 4c., 2s. 6c., 4s. 9c., a 9s.

Ar werth yn mhob man.

DALIER SYLW.—Y mae ALLEN & HANBURY yn gwarantu purdeb ac ansawdd uchel eu Cod Liver Oil Perffeithiedig yn hwn a wneir mewn ffordd newydd ac arbennig o'r eiddynt eu hunain, a chyflenwir ef yn uniongyrchol o'u gweithfeydd hwy yn Longva a Kirstadt, ar arfordir Norway.

**BYNIN** LIQUID MALT sydd nwydd gwerthfawr i w ddefnyddio gyda Cod Liver Oil. Wedi ei gyfaddasu a'i wneyd yn newydd llesol. Gwerthfawr at gynorthwyo treuliad. Y mae hefyd yn faeth defnyddiol mewn achosion o Ddarfodedigaeth ac anhwylderau cyffelyb. Mewn potell, 1s. 9c. yr un.

# CADBURY'S COCOA

## HOLLOL BUR—AM HYNY Y GOREU.

Yr *Analyst* a ddywed Cydmarer y sylweddau cnawd gynyrchiol mewn Cocoas, a cheir y cyfartaledd canlynol

"Sylweddau cnawd gynyrchiol yn y Cocoa Nibs naturiol ... 13.00"

"Sylweddau cnawd-gynyrchiol yn y Commercial Cocoa goreu gyda chymhorth *starch* a siwgr ... 6.00"

"Sylweddau cnawd-gynyrchiol yn Cocoa Cadbury, y nwydd Prydeinig safonawl ... .. 21.00"

"Y mae cwrs y darpariad yn cydgrynhoi sylweddau adfywiol ac adgyfnerthol y Cocoa Bean."

"Gan fod Cocoa Cadbury yn hollol bur, o ganlyniad, y mae y goreu."

